# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 05/02/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Adolygiad o Gynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Interim](#)
[Statement: Post-16 Planning and Funding Review: Interim Report](#)

[Datganiad: Gwneud Gwahaniaeth: Rôl Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd o Ran Mynd i'r Afael â Thlodi Plant](#)
[Statement: Making a Difference: The Role of Museums, Archives and Libraries In Tackling Child Poverty](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol—y Bil Twf a Seilwaith—Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer Cydsyniadau i Gynhyrchu](#)
[Legislative Consent Motion –Growth and Infrastructure Bill—Deemed Planning Permission for Generating Consents](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—y Bil Twf a Seilwaith—Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988](#)
[Supplementary Legislative Consent Motion—Growth and Infrastructure Bill—Amendments to the Local Government Finance Act 1988](#)

[Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013](#)
[The Civil Enforcement of Road Traffic Contraventions (Representations and Appeals) Removed Vehicles (Wales) Regulations 2013](#)

[Ymgyrch Bwyta'n Gall Newid am Oes](#)
[The Change4Life Be Food Smart Campaign](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The National Assembly for Wales is now in session. Before we start the First Minister's questions this afternoon, I am sure that we would like to welcome a delegation from our sister Parliament in Trinidad and Tobago. They are in the public gallery, so I am sure that you will all behave yourselves today. [Laughter.]

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyn i ni ddechrau ar gwestiynau'r Prif Weinidog y prynhawn yma, rwyf yn siŵr yr hoffem groesawu dirprwyaeth o'n chwaer Senedd yn Trinidad a Tobago. Maent yn yr oriel gyhoeddus, felly rwyf yn siŵr y byddwch i gyd yn ymddwyn yn dda heddiw. [Chwerthin.]

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Cynlluniau Seilwaith

### Infrastructure Plans

13:30

## Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau seilwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gogledd Cymru dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0887(FM)*

*1. Will the First Minister outline the Welsh Government's infrastructure plans for north Wales in the next twelve months. OAQ(4)0887(FM)*

13:30

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Wales infrastructure investment plan sets out how we will invest around £15 billion over the next decade to boost growth and jobs, and to improve public services across Wales.

Mae cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru'n nodi sut y byddwn yn buddsoddi tua £15 biliwn dros y degawd nesaf i hybu twf a swyddi, ac i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

13:31 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. One of the key aims of the active travel Bill is to develop safe and integrated routes for cycling and walking. One of the key elements in ensuring the success of the scheme will be developing cycling proficiency training for young people in schools. What steps is the Welsh Government taking to ensure the delivery and the assessment of strong and effective road cycling training?

Diolch, Brif Weinidog. Un o nodau allweddol y Bil teithio byw yw datblygu llwybrau diogel ac integredig ar gyfer beicio a cherdded. Un o'r elfennau allweddol o ran sicrhau llwyddiant y cynllun fydd datblygu hyfforddiant hyfedredd beicio i bobl ifanc mewn ysgolion. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant cryf ac effeithiol ar gyfer beicio ar y ffordd yn cael ei gyflenwi a'i asesu?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have introduced national standards for cycle training in Wales, and we provide funding to local authorities to enable them to deliver cycle training for children and young people. In addition, we are funding Bike It in five local authority areas. That initiative involves officers working intensively with pupils, in a maximum of 12 schools a year, aiming to change travel habits in favour of cycling, and reduced reliance on the car.

Rydym wedi cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant beicio yng Nghymru, ac rydym yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu hyfforddiant beicio i blant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn ariannu Bike It mewn pum ardal awdurdod lleol. Mae'r fenter honno'n cynnwys swyddogion yn gweithio'n ddwys gyda disgyblion, mewn uchafswm o 12 ysgol y flwyddyn, gyda'r nod o newid arferion teithio i ffafrio beicio, a llai o ddibyniaeth ar geir.

13:32 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Secretary of State for Wales, David Jones MP, has previously highlighted the importance of the future rail electrification of the north Wales main line in order to sustain our economy. In wanting to put economic development at the top of the agenda, he has subsequently put together a working group—a crack team—of public and private sector officials, which is being chaired by Councillor Hugh Evans of Denbighshire County Council. First Minister, will you place on record your recognition and support for this project, and will you also commit, over the next 12 months, to working with the Welsh Office, the UK Government, and, in particular, this working group, to drive this project forward?

Brif Weinidog, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones AS, wedi tynnu sylw eisoes at bwysigrwydd trydaneiddio prif reilffordd y gogledd yn y dyfodol er mwyn cynnal ein heconomi. Wrth ddymuno sicrhau bod datblygu economaidd ar frig yr agenda, mae wedi dilyn hynny drwy lunio gweithgor—tîm o'r radd flaenaf—o swyddogion y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Hugh Evans o Gyngor Sir Ddinbych. Brif Weinidog, a wnewch chi roi ar gofnod eich cydnabyddiaeth a'ch cefnogaeth i'r prosiect hwn, ac a wnewch hefyd ymrwymo, dros y 12 mis nesaf, i gydweithio â Swyddfa Cymru, Llywodraeth y DU, ac, yn arbennig, y gweithgor hwn, i sbarduno'r prosiect hwn yn ei flaen?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We always work with the UK Government where we can to improve the economy of Wales. Indeed, I spoke at an event that was organised by the Wales Office yesterday, in order to ensure that the business community was aware that, where we can, we will always seek to work together.

Rydym bob amser yn cydweithio â Llywodraeth y DU pan ein bod yn gallu gwella economi Cymru. Yn wir, siaradais mewn digwyddiad a drefnwyd gan Swyddfa Cymru ddoe, er mwyn sicrhau bod y gymuned fusnes yn ymwybodol y byddwn, pryd y gallwn, bob amser yn ceisio cydweithio.

13:33 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn ymwybodol mai dau brif beth sydd yn poeni cwmnïau a busnesau sy'n ymgeisio am y gwaith o ddarparu cynlluniau cyfalaf mawr: y naill yw'r broses gynllunio, a'r llall yw'r polisi caffael. Beth allwch chi fel Llywodraeth ei wneud i brysuro'r broses gynllunio, ac i symleiddio'r broses caffael?

I am sure that the First Minister is aware that there are two main issues that concern companies and businesses that are applying for the work of delivering major capital projects: one is the planning process and the other is procurement policy. What can you do as a Government to speed up the planning process and to simplify the procurement process?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Gallwn wneud hyn drwy Filiau, a bydd Bil cynllunio yn dod o flaen y Cynulliad erbyn diwedd y flwyddyn hon, neu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Rydym yn deall wrth gwrs ei bod yn bwysig dros ben bod y system yn cael ei chyflymu, wrth gofio bod yn rhaid sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i fynegi barn ar geisiadau cynllunio.

We can do this through Bills, and the planning Bill will come before the Assembly by the end of this year, or at the beginning of next year. We understand of course that it is extremely important that the system should be made to work more swiftly, bearing in mind that it is important that people have an opportunity to express their views on planning applications.

13:33 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn bod y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth wedi ei ymrwymo ei hun i gynllun rheilffyrdd a thrydaneiddio yn y gogledd. Ond, mae llawer o'r cynlluniau yn dibynnu ar fuddsoddi yr ochr draw i Glawdd Offa, yn ardaloedd Caer a Crewe. A oes modd i ni gael rhyw fath o grŵp llywio a fydd yn cynnwys pobl ar ddwy ochr y ffin i sicrhau bod yr holl drefniadau yn dod at ei gilydd?

I accept that the Minister with responsibility for transport has committed to the electrification of the rail lines in north Wales. However, many of the plans are dependent on investment on the other side of Offa's dyke, in the areas of Chester and Crewe. Would it be possible to have some sort of steering group that would include people from both sides of the border in order to liaise on all these arrangements?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae trydaneiddio yn rhywbeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n synhwyrol i drydaneiddio i Crewe, oherwydd dyna lle mae'r rheilffordd drydan yn gorffen ar hyn o bryd. Yr ydym yn ddigon parod i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a gobeithiwn y gall gyflwyno cynlluniau cyn gynted â phosibl i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Crewe a Chaergybi.

Electrification is a matter for the UK Government. It is sensible to electrify to Crewe because that is where the electrified line currently ends. We are more than happy to work with the UK Government and we hope that it will bring plans forward as soon as possible to electrify the rail line between Crewe and Holyhead.

13:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 2, OAQ(4)0897(FM), has been withdrawn.

Tynnwyd Cwestiwn 2, OAQ (4) 0897 (FM), yn ôl.

**Blaenoriaethau Economaidd**

**Economic Priorities**

13:34 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau economaidd dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0885(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on his economic priorities over the next twelve months. OAQ(4)0885(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r blaenoriaethau yn y rhaglen lywodraethu.

My priorities are outlined in the programme for government.

13:34 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno, mewn etholaeth wledig fel yr un rwy'n ei chynrychioli, bod gwasanaeth band eang yn hanfodol er mwyn gwella'r economi leol. Mae'ch Llywodraeth chi yn ddiweddar wedi cyflwyno'r rhaglen Cyflymu Cymru, gan amlinellu'r 14 awdurdod lleol a fydd yn cael eu cynnwys eleni. Yn anffodus, nid yw sir Benfro yn un ohonynt. A allwch ddweud wrthym ba feini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu pa awdurdodau lleol a fyddai'n derbyn y rhaglen eleni? A allwch sicrhau na fydd yr ardaloedd hynny yn fy etholaeth i sydd ddim yn derbyn band eang ar hyn o bryd yn cael eu hesgeuluso gan y cyhoeddiad diweddar hwn?

I am sure that you would agree that in a rural constituency such as the one that I represent, broadband services are crucial in order to improve the local economy. Your Government has recently introduced the Superfast Cymru programme, outlining the 14 local authorities that are to be included this year. Unfortunately, Pembrokeshire is not one of them. Can you tell us which criteria were used to decide which local authorities would receive that assistance this year? Can you ensure that those areas in my constituency that currently cannot access broadband will not be left behind by this recent announcement?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n wir i ddweud y bydd sir Benfro yn cael budd o hwn mewn amser. Bydd y parth menter yn Aberdaugleddau yn sir Benfro yn ardal a fydd yn cael lles band eang yn gynnar iawn. Rydym yn deall ei bod yn bwysig dros ben bod parthau menter yn cael mynediad i fand eang cyn gynted ag sy'n bosibl.

It is true to say that Pembrokeshire will benefit from this scheme in due course. The enterprise zone in Milford Haven in Pembrokeshire is an area that will benefit from broadband very early on. We understand that it is very important that enterprise zones have access to broadband as soon as possible.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

What plans does the First Minister have to encourage more inward investment, particularly from the US, in view of the fact that American companies are so successful here, and see Wales and the UK as a gateway to Europe?

Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i annog mwy o fewnfuddsoddi, yn enwedig o'r Unol Daleithiau, o ystyried y ffaith bod cwmnïau Americanaidd mor llwyddiannus yma, a'u bod yn gweld Cymru a'r DU fel porth i Ewrop?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is important, of course, that we have a presence in the US. We have offices in New York and Washington and I will be in San Francisco next week to promote Wales. We are looking to embed somebody full-time in California, working with UK Trade and Industry. However, it is right that one of the questions I will have to deal with will be why should we invest in Wales if the UK might leave the European Union. My answer will be that I do not believe the UK will leave the EU because that would not be in the economic interests of either the people of Wales or the people of the UK.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod gennym bresenoldeb yn yr Unol Daleithiau. Mae gennym swyddfeydd yn Efrog Newydd a Washington a byddaf yn San Francisco yr wythnos nesaf i hyrwyddo Cymru. Rydym yn gobeithio sefydlu rhywun llawn-amser yn California, gan weithio gyda Masnach a Diwydiant y DU. Fodd bynnag, mae'n wir mai un o'r cwestiynau y bydd rhaid i mi ei wynebu fydd pam y dylem fuddsoddi yng Nghymru gan y gallai'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Fy ateb fydd nad wyf yn credu y bydd y DU yn gadael yr UE gan na fyddai hynny er budd economaidd pobl Cymru na phobl y DU.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Mae twf yn economi'r Deyrnas Unedig yn wan, yn wir yn crebachu, ac mae cred gyffredinol ymhlith economegwyr bod George Osborne wedi ei chael hi'n anghywir. Mae llawer o economegwyr bellach yn cytuno ac yn ailadrodd mantra Plaid Cymru bod angen buddsoddi mwy yn yr isadeiledd ac mewn cynlluniau cyfalaf. Pryd fyddwch chi fel Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiad ynglŷn â dulliau amgen i godi arian ar gyfer y cynlluniau cyfalaf hyn, sydd mor hanfodol i Gymru, ond hefyd er mwyn hybu'r economi?

Growth in the UK economy is weak—in fact, it is contracting—and there is a general belief among economists that George Osborne has got it wrong. Many economists agree by now and repeat the Plaid Cymru mantra that there is a need to invest more in infrastructure and capital schemes. When will you be making an announcement as a Government as regards alternative methods of funding capital schemes, which are so vital to Wales, but also in order to boost the economy?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwyf wedi gwneud datganiad yn barod ynglŷn â chynlluniau fel y cynllun ym Mlaenau'r Cymoedd, er enghraifft, ac rydym eisiau gweld nawr, cyn gynted ag sydd yn bosibl, sylwadau comisiwn Silk yn cael eu cymryd ymlaen gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd hynny'n help o ran sicrhau ein bod ni'n gallu benthyg mwy er mwyn gwario mwy o arian o ran cyfalaf.

I have already made a statement on schemes such as the Heads of the Valleys scheme, for example, and we now want to see the Silk commission's recommendations being taken forward as soon as possible by the UK Government. That will assist us in ensuring that we can borrow more in order to spend more on capital projects.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am sure that attracting more business and tourism visits to Wales will be a major priority for your Government over the next year. I note that, in March last year, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science stated that she felt that we had not got the brand right for Wales and that she was putting a brand together and staff in place to support that. What progress has been made to that effect to date?

Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y bydd denu mwy o ymweliadau busnes a thwristiaeth i Gymru yn un o brif flaenoriaethau eich Llywodraeth yn ystod y flwyddyn nesaf. Nodaf fod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi datgan, ym mis Mawrth y llynedd, ei bod yn teimlo nad oedd gennym y brand cywir i Gymru a'i bod yn gweithio i greu brand a chael staff yn barod ar gyfer cefnogi hynny. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud i'r perwyl hwnnw hyd yn hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That has all been done; we have somebody in place who is taking this process forward for us and that work is now coming to a conclusion.

Mae hynny i gyd wedi ei wneud; mae gennym rywun sy'n gweithio i symud ymlaen â'r broses hon ar ein rhan ac mae'r gwaith hwnnw yn nesáu at y diwedd.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in November 2011, the Minister for Health and Social Services said that health checks led by GPs and nurses for the over-50s are a firm commitment from the Welsh Government. Now we hear that over-50s are to be pointed to a website instead. What will this new website offer that is not already offered by the NHS Direct Wales website, the Change for Life website, or even BootsWebMD?

Brif Weinidog, ym mis Tachwedd 2011, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod profion iechyd a arweinir gan feddygon teulu a nyrsys i bobl dros 50 oed yn ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru. Nawr rydym yn clywed bod pobl dros 50 oed yn cael eu cyfeirio at wefan yn hytrach. Beth fydd y wefan newydd hon yn ei gynnig nad yw'n cael ei gynnig eisoes gan wefan Galw Iechyd Cymru, gwefan Newid am Oes, neu BootsWebMD hyd yn oed?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is quite simple really: the online health check is the first stage in a process that will allow doctors, pharmacists and other professionals to identify those patients that need GP care. What will happen is that people will fill in the form on the website and that information will be collected via the My Health Online website. That will then allow GPs and other primary care practitioners to identify and contact those patients that most need care and advice. What the online health check will do is that it will inform people at the end of the check whether they need to book a GP appointment, visit a pharmacist or other health professionals. It is simply part of the process to fulfilling our commitment.

Mae'n ddigon syml: yr archwiliad iechyd ar-lein yw'r cam cyntaf mewn proses a fydd yn caniatáu i feddygon, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol eraill nodi'r cleifion hynny sydd ag angen gofal meddyg teulu. Yr hyn a fydd yn digwydd yw y bydd pobl yn llenwi'r ffurflen ar y wefan a chaiff y wybodaeth honno ei chasglu drwy'r wefan Fy Iechyd Ar-lein. Bydd hynny wedyn yn galluogi meddygon teulu ac ymarferwyr gofal sylfaenol eraill i nodi'r cleifion sydd â'r angen mwyaf am ofal a chyngor, a byddant yn cysylltu â hwy. Bydd yr archwiliad iechyd ar-lein yn rhoi gwybod i bobl ar ddiwedd yr archwiliad a oes angen iddynt drefnu apwyntiad gyda meddyg teulu, ymweld â fferyllydd neu ymweld â gweithiwr iechyd proffesiynol arall. Dim ond rhan o'r broses o gyflawni ein hymrwymiad yw hyn.

13:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I look forward to seeing the detail of how that computer system is going to work, and how it will ensure the confidentiality of patient records and that the information is seen only by the appropriate individual. I am sure that Welsh patients will have a lot to say.

Edrychaf ymlaen at weld y manylion o sut y bydd y system gyfrifiadurol honno'n gweithio, a sut y bydd yn sicrhau cyfrinachedd cofnodion cleifion ac mai dim ond yr unigolyn priodol sy'n gweld y wybodaeth. Rwyf yn siŵr y bydd gan gleifion Cymru lawer i'w ddweud.

Let us move on to another of your promises, which was to address the lack of critical care beds in Wales. First Minister, which European countries have a lower number of critical care beds per 100,000 population than Wales?

Dewch i ni symud ymlaen at un arall o'ch addewidion, sef mynd i'r afael â'r diffyg gwelyau gofal critigol yng Nghymru. Brif Weinidog, pa wledydd Ewropeaidd sydd â nifer is o welyau gofal critigol i bob 100,000 o'r boblogaeth na Chymru?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As far as critical care is concerned, we want to ensure that we have a health service that is safe and sustainable. That is why plans are being brought forward by local health boards, in terms of the future of the health service in Wales. We believe that we will have sufficient critical care beds to deal with the needs of our population.

Cyn belled ag y mae gofal critigol yn y cwestiwn, rydym eisiau sicrhau bod gennym wasanaeth iechyd sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Dyna pam mae cynlluniau'n cael eu dwyn ymlaen gan fyrddau iechyd lleol, o ran dyfodol y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rydym yn credu y bydd gennym ddigon o welyau gofal critigol i ddiwallu anghenion ein poblogaeth.

13:40 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me answer that question for you, First Minister: there is not a single European country that has fewer critical care beds than Wales. You have, essentially, ditched the free healthcare checks for the over-50s, people in Wales wait longer for an ambulance than in any part of mainland UK, urgent cancer times have never been met since you became First Minister, and accident and emergency department targets have never been met, full stop. Is it any wonder that the Welsh NHS is, on your watch, and to use your words, on the brink of collapse?

Dewch i mi ateb y cwestiwn hwnnw i chi, Brif Weinidog: nid oes yr un wlad yn Ewrop a chanddi lai o welyau gofal critigol na Chymru. Yn y bôn, rydych wedi cael gwared ar yr archwiliadau iechyd am ddim i bobl dros 50 oed, mae pobl yng Nghymru'n aros yn hwy am ambiwlans nag mewn unrhyw ran o dir mawr y DU, nid yw amseroedd canser brys erioed wedi cael eu bodloni ers i chi ddod yn Brif Weinidog, ac nid yw targedau adrannau damweiniau ac achosion brys erioed wedi cael eu cyflawni. Dyna'r gwir. A oes unrhyw syndod bod y GIG yng Nghymru, dan eich goruchwyliaeth chi, ac i ddefnyddio eich geiriau chi, ar fin methu'n llwyr?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is selective use of the words that were used over the weekend. If she had listened carefully to what I had said, she would have heard me say that, in future, the NHS would be at the point of collapse if changes are not made: changes on which the Liberal Democrats have not expressed a view, one way or the other. Perhaps the people of Wales have been enlightened in that regard.

Dyna ddefnydd detholus o eiriau a ddefnyddiwyd dros y penwythnos. Pe bai hi wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedais, byddai wedi fy nghlywed yn dweud y byddai'r GIG, yn y dyfodol, yn methu'n llwyr pe na fyddai newidiadau'n cael eu gwneud: newidiadau nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi mynegi barn amdanynt, y naill ffordd na'r llall. Efallai bod pobl Cymru wedi cael eu goleuo yn hynny o beth.

We do not need lessons from the Liberal Democrats in terms of policy. Not two weeks ago, they were suggesting that a 2p cut in income tax in Wales could somehow magically be made up by an increase in environmental taxes. In fact, it would leave an enormous black hole of at least £360 million. When it comes to worked-up policy and delivery, we need no lessons from the party opposite.

Nid oes arnom angen gwersi gan y Democratiaid Rhyddfrydol o ran polisi. Lai na phythefnos yn ôl, roeddent yn awgrymu y gallai toriad o 2c mewn treth incwm yng Nghymru rywsut, drwy hud a lledrith, gael ei dalu amdano drwy gynyddu trethi amgylcheddol. Mewn gwirionedd, byddai'n gadael twll du enfawr o £360 miliwn o leiaf. Nid oes arnom angen gwersi gan y blaid gyferbyn ynglŷn â llunio a chyflenwi polisïau sy'n gweithio.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last week, you told the 'South Wales Argus' that your biggest fear was the passage of time. My biggest fear is your savage health cuts, but I digress. Also, last week, we found out that student numbers in Wales had fallen, unlike in other parts of the United Kingdom. Is that not of great concern to you that these numbers are falling in Wales?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, dywedasoch wrth y 'South Wales Argus' mai treigl amser oedd eich ofn mwyaf. Fy ofn mwyaf i yw eich toriadau iechyd creulon, ond mater arall yw hynny. Hefyd, yr wythnos diwethaf, fe wnaethom ddarganfod bod nifer y myfyrwyr yng Nghymru wedi gostwng, yn wahanol i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Onid yw'n peri pryder mawr i chi bod y niferoedd hyn yn gostwng yng Nghymru?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Again, he says student numbers are falling; that is not right. How many times is he going to use these statistics and get them wrong? The reality is that we in Wales are planning a future for our health service to avoid the chaos that his party is creating over the border.

Unwaith eto, mae'n dweud bod nifer y myfyrwyr yn gostwng; mae hynny'n anghywir. Sawl gwaith y mae'n mynd i ddefnyddio'r ystadegau hyn a bod yn anghywir? Y gwirionedd yw ein bod ni yng Nghymru yn cynllunio dyfodol i'n gwasanaeth iechyd er mwyn osgoi'r anhrefn y mae ei blaid ef yn ei greu dros y ffin.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, we could go on any one of the subjects that you just touched on. It is your Government that is dealing with the £500 million health cuts to our health service in Wales, for which you are responsible. Yesterday, we saw the manifesto commitment jettisoned over health checks for the over-50s. You proclaimed that your manifesto was the most worked-up, best presented and costed manifesto that had been put before the people of Wales. What we see in your higher education policy is a failing policy, because we do actually see student numbers falling in Wales: 2.1% fewer students enrolled in Welsh universities on UCAS day last week. That is a fact; those figures came from UCAS. Is it not the case that your policy was supposed to increase access to universities and, in fact, it has decreased access, particularly among some of the most disadvantaged groups in society? When are you going to recognise that your open-chequebook policy is not actually delivering for some of the most disadvantaged in our society?

Brif Weinidog, gallem sôn am unrhyw un o'r pynciau yr ydych newydd eu crybwyll. Eich Llywodraeth chi sy'n ymdrin â'r toriadau iechyd £500 miliwn i'n gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yr ydych chi'n gyfrifol amdano. Ddoe, gwelsom roi'r gorau i'r ymrwymiad maniffesto o archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed. Fe wnaethoch gyhoeddi mai eich maniffesto chi oedd y maniffesto gorau o ran ei lunio, ei gyflwyno a'i gostio a roddwyd gerbron pobl Cymru erioed. Yr hyn a welwn yn eich polisi addysg uwch yw polisi sy'n methu, oherwydd rydym mewn gwirionedd yn gweld niferoedd myfyrwyr yn gostwng yng Nghymru: cofrestrodd 2.1% yn llai o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru ar ddiwrnod UCAS yr wythnos diwethaf. Mae hynny'n ffaith; daeth y ffigurau hynny oddi wrth UCAS. Onid yw'n wir mai bwriad eich polisi oedd cynyddu mynediad i brifysgolion a'i fod, mewn gwirionedd, wedi gostwng mynediad, yn enwedig ymhlith rhai o grwpiau mwyaf difreintiedig ein cymdeithas? Pryd yr ydych chi'n mynd i gydnabod nad yw eich polisi llyfr sieciau agored mewn gwirionedd yn cyflawni ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

What part of economics does the leader of the opposition not understand? He seems to claim that if you charge people more, then more people will use the service. What kind of logic is that? I can tell you that the latest UCAS figures show a significant increase in the number of students from other parts of the UK applying to study at Welsh higher education institutions. Again, that was a selective use of figures, as he made selective use last week of figures over exports. He was wrong on the figures he used, because we double-checked what he said. He needs to ensure that if he uses figures, he at least gets them right.

Pa ran o economeg nad yw arweinydd yr wrthblaid yn ei deall? Mae'n ymddangos ei fod yn honni y bydd codi mwy o dâl ar bobl yn golygu y bydd mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth. Pa fath o resymeg yw hynny? Gallaf ddweud wrthych fod ffigurau diweddaraf UCAS yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr o rannau eraill o'r DU sy'n ymgeisio i astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Unwaith eto, defnydd detholus o ffigurau oedd hynny, fel y gwnaeth ddefnydd detholus yr wythnos diwethaf o ffigurau'n ymwneud ag allforion. Roedd yn anghywir o ran y ffigurau a ddefnyddiodd, oherwydd aethom ati i ailwirio'r hyn a ddywedodd. Mae angen iddo sicrhau, os yw'n defnyddio ffigurau, ei fod o leiaf yn defnyddio rhai cywir.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The overall number of applications to Welsh universities was down last week according to UCAS figures—the overall number was down by 2.1%. You know full well, First Minister, that the figures that I used last week were correct, because you have been unable to correct them. The point that I am making today is that the most disadvantaged people in society are unable to benefit from your open-chequebook policy. That is on top of the Estyn report that your Minister for Education and Skills had to deal with, which indicated that fewer schools are achieving good or excellent inspections, that there is mediocre teacher performance, and that writing standards are a problem across all sectors. Is it not the case that you should be frightened of what your Minister for education is delivering for the students and pupils of Wales, which is mediocrity and a failure to raise standards in education across the whole of Wales?

Roedd cyfanswm nifer y ceisiadau i brifysgolion Cymru i lawr yr wythnos diwethaf yn ôl ffigyrau UCAS—roedd cyfanswm y nifer i lawr 2.1%. Rydych yn gwybod yn iawn, Brif Weinidog, fod y ffigurau a ddefnyddiais yr wythnos diwethaf yn gywir, oherwydd nid ydych wedi gallu eu cywiro. Y pwynt yr wyf yn ei wneud heddiw yw nad yw'r bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas yn gallu elwa o'ch polisi llyfr sieciau agored. Mae hynny ar ben yr adroddiad Estyn y mae eich Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gorfod ymdrin ag ef, a oedd yn dangos bod llai o ysgolion yn cyflawni arolygiadau da neu ardderchog, mai canolig yw perfformiad athrawon, a bod safonau ysgrifennu'n broblem ar draws pob sector. Onid yw'n wir y dylech fod ag ofn yr hyn y mae eich Gweinidog addysg yn ei gyflawni ar gyfer myfyrwyr a disgyblion Cymru, sef safonau nad ydynt yn ddim mwy na gweddol, a methiant i godi safonau addysg ar draws Cymru gyfan?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for education is delivering for the young people of Wales. He is not seeking to triple the amount of money that they spend on tuition fees, which the Conservative party wants to do. He is looking to improve literacy and numeracy; he is not looking to fragment the education system, as the Conservative party wants to do. Andrew R.T. Davies mentions the figures from last week—this is what he said last week:

Mae'r Gweinidog dros addysg yn cyflawni ar gyfer pobl ifanc Cymru. Nid yw'n ceisio treblu'r arian y maent yn ei wario ar ffioedd dysgu, fel yr hoffai'r blaid Geidwadol ei wneud. Mae'n ceisio gwella llythrennedd a rhifedd; nid yw'n ceisio ymrannu'r system addysg, fel yr hoffai'r blaid Geidwadol ei wneud. Mae Andrew R.T. Davies yn sôn am ffigurau'r wythnos diwethaf—dyma'r hyn a ddywedodd yr wythnos diwethaf:

'In the last reported figures, exports have fallen from Wales by 5% or some £200 million'.

'Yn y ffigurau diwethaf a gofnodwyd, mae allforion o Gymru wedi gostwng 5% neu ryw £200 miliwn'.

Wrong. The figure is actually £136 million, which is 4.1%, even according to his figures. He selectively chose the figures for a quarter, not for a year. If he looks at the yearly figures, he will see that exports to India have gone up substantially and that exports to the United States have gone up substantially. He got his figures wrong, even on his own admission. The reality is that, when we look at the party opposite, we are looking at a different party, because we know that his predecessor led his party to the very door of Government, and he has led it as far away from that door as possible.

Anghywir. Y gwir ffigur yw £136 miliwn, sef 4.1%, hyd yn oed yn ôl ei ffigurau ef. Aeth ati'n ofalus i ddewis ffigurau ar gyfer un chwarter, nid dros flwyddyn. Os gwnaiff edrych ar y ffigurau blynyddol, bydd yn gweld bod allforion i India wedi cynyddu'n sylweddol a bod allforion i'r Unol Daleithiau wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd ei ffigurau'n anghywir; mae ef hyd yn oed wedi cyfaddef hynny. Y gwirionedd yw, pan edrychwn ar y blaid gyferbyn, rydym yn edrych ar blaid wahanol, oherwydd gwyddom fod ei ragflaenydd wedi arwain ei blaid at stepen drws Llywodraeth, a'i fod ef wedi arwain ei blaid mor bell oddi wrth y drws hwnnw â phosibl.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the—

Symudwn yn awr at y—

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, the First Minister challenged me on my figures, so I think that I deserve the opportunity to correct him.

Lywydd, mae'r Prif Weinidog wedi fy herio ar fy ffigurau, felly credaf fy mod yn haeddu'r cyfle i'w gywiro.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I do not really want to regurgitate last week's argument.

Trefn. Dydw i ddim wir eisiau ailadrodd dadl yr wythnos diwethaf.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

He made a direct accusation that my figures were incorrect—[Interruption.] My figures are correct.

Gwnaeth gyhuddiad uniongyrchol fod fy ffigurau'n anghywir—[Torri ar draws.] Mae fy ffigurau yn gywir.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. We now move to questions from the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Trefn, trefn. Symudwn yn awr at gwestiynau gan arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the people of Wales are much more enlightened after that exchange, First Minister. I asked you in November 2011 if you agreed that there should be a quarterly Welsh gross domestic product figure published alongside the UK GDP figure. At that time, you said:

Rwyf yn siŵr bod pobl Cymru'n llawer mwy goleuedig ar ôl y ddadl yna, Brif Weinidog. Gofynnais i chi ym mis Tachwedd 2011 a oeddech yn cytuno y dylid cyhoeddi ffigur chwarterol cynnyrch mewnwladol crynswth Cymru ochr yn ochr â ffigur CMC y DU. Ar y pryd, dywedasoch:

'I do agree with you that we need to investigate ways of ensuring that Welsh GDP figures are available. That is something that we are looking at now to ensure that those figures can be made available for Wales.'

'Nid wyf yn cytuno â chi bod angen i ni ymchwilio ffyrdd o sicrhau bod ffigurau CMC Cymru ar gael. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn edrych arno'n awr i sicrhau y gall y ffigurau hynny fod ar gael i Gymru.'

Can you give us an update as to how that is progressing, please?

A allwch chi roi diweddariad i ni ynghylch hynt hynny, os gwelwch yn dda?

*This is still being examined by the chief economist and by the Office for National Statistics, which will look at producing these figures. I agree with her that it would be useful for us to be able to have access to more up-to-date figures, but, of course, these are not figures that we produce. It is a matter of making sure that we can disaggregate the figures that are produced for the UK as a whole.*

*Mae hyn yn dal i gael ei archwilio gan y prif economegydd a gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a fydd yn edrych ar gynhyrchu'r ffigurau hyn. Rwyf yn cytuno â hi y byddai'n ddefnyddiol i ni allu cael mynediad at ffigurau mwy diweddar, ond, wrth gwrs, nid ni sy'n cynhyrchu'r ffigurau hyn. Mae'n fater o sicrhau y gallwn wahanu'r ffigurau a gynhyrchwyd ar gyfer y DU gyfan.*

13:47

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the latest figures show a third downturn in the UK economy, but we do not know, in Wales, because we do not have a GDP indicator to show whether or not our economy is performing well. That is information that we need to know in order to change policy if things are not going well. What we do know about our economy is that there are 50,000 more people unemployed now than there were before the recession and that there are 50,000 more people underemployed now than there were before the recession. We are clearly not making the best use of our resources. It is 14 months since I asked you for those Welsh GDP figures. Will you now ensure that they are published, so that we can critique your Government's economic performance in exactly the same way as you critique the UK Government's economic performance?

Brif Weinidog, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos trydydd dirywiad yn economi'r DU, ond nid ydym yn gwybod, yng Nghymru, oherwydd nad oes gennym ddangosydd CMC i ddangos a yw ein heconomi'n perfformio'n dda. Mae honno'n wybodaeth y mae angen i ni wybod er mwyn newid polisi os nad yw pethau'n mynd yn dda. Yr hyn yr ydym yn ei wybod am ein heconomi yw bod 50,000 yn fwy o bobl yn ddi-waith nawr nag a oedd cyn y dirwasgiad a bod 50,000 yn fwy o bobl wedi'u tangyflogi nawr nag a oedd cyn y dirwasgiad. Mae'n amlwg nad ydym yn gwneud y mwyaf o'n hadnoddau. Mae'n 14 mis ers i mi ofyn i chi am y ffigurau CMC Cymru hynny. A wnewch chi sicrhau nawr eu bod yn cael eu cyhoeddi, fel y gallwn feirniadu perfformiad economaidd eich Llywodraeth yn union yn yr un ffordd ag yr ydych chi'n beirniadu perfformiad economaidd Llywodraeth y DU?

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We cannot ensure that figures are produced when we do not have control over the figures, but she seems to suggest that there are no other indicators that can be used. We have unemployment figures, we have figures for those who are economically active and we have figures for those who have benefited from Jobs Growth Wales, for example, and we are well on target to ensuring that young people have an opportunity, through Jobs Growth Wales, of progressing towards a job. So, there are plenty of indicators upon which the Government can be judged.

Ni allwn sicrhau bod ffigurau'n cael eu cynhyrchu pan nad oes gennym reolaeth dros y ffigurau, ond mae'n ymddangos ei bod hi'n awgrymu nad oes unrhyw ddangosyddion eraill y gellir eu defnyddio. Mae gennym ffigurau diweithdra, mae gennym ffigurau ar gyfer y rheini sy'n economaidd weithgar ac mae gennym ffigurau ar gyfer y rheini sydd wedi elwa o Dwf Swyddi Cymru, er enghraifft, ac yr ydym ar y trywydd iawn i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle, drwy Dwf Swyddi Cymru, i symud tuag at swydd. Felly, mae digon o ddangosyddion y gellir eu defnyddio i allu barnu'r Llywodraeth hon.

13:48

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are a number of indicators, and what we do know is that everything in the garden is far from rosy, despite what you say here, and that the Welsh economy has been in decline for 20 years. You might recall doing an interview recently with the Swiss radio 4. During that interview, you said that the best way of expressing our identity and letting the world know that we exist would be to do well in the football world cup.

Ceir nifer o ddangosyddion, a'r hyn yr ydym yn ei wybod yw nad yw popeth yn berffaith o bell ffordd, er gwaethaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud yma, a bod economi Cymru wedi bod yn dirywio ers 20 mlynedd. Efallai y byddwch yn cofio gwneud cyfweliad yn ddiweddar gyda radio 4 y Swistir. Yn ystod y cyfweliad hwnnw, dywedasoch mai'r ffordd orau o fynegi ein hunaniaeth a gadael i'r byd wybod ein bod yn bodoli fyddai gwneud yn dda yng nghwpan bêl-droed y byd.

Of course, we all want Wales to do well in the football world cup, but when you have an NHS that is, in your own words, 'on the verge of collapse', a failing education system, in the words of your Minister for education, and no way of knowing whether or not the country that you lead is still in recession, is that really the height of your ambition for Wales, First Minister?

Wrth gwrs, rydym i gyd eisiau i Gymru wneud yn dda yng nghwpan bêl-droed y byd, ond pan fo gennych GIG sydd, yn eich geiriau eich hun, 'ar fin methu', a system addysg sy'n methu, yng ngeiriau eich Gweinidog dros addysg, a dim ffordd o wybod a yw'r wlad yr ydych yn ei harwain yn dal i fod mewn dirwasgiad, ai dyna mewn gwirionedd yw crynswth eich uchelgais ar gyfer Cymru, Brif Weinidog?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Again, that is a selective use of a phrase that was used in terms of projecting Wales's identity abroad. She forgets that a member of her own party was the Minister for the economy for four years in Government. Is he completely forgotten by Plaid Cymru? It is all someone else's fault. I worked closely with him, and I do not blame him for the economic situation, because I know that the world economy has suffered since 2008.

Unwaith eto, mae hynny'n ddefnydd dethol o frawddeg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfleu hunaniaeth Cymru dramor. Mae hi'n anghofio y bu aelod o'i phlaid ei hun yn Weinidog yr economi am bedair blynedd yn y Llywodraeth. A yw Plaid Cymru wedi ei anghofio ef yn llwyr? Bai rhywun arall yw popeth. Cydweithiais yn agos ag ef, ac nid wyf yn ei feio ef am y sefyllfa economaidd, oherwydd fy mod yn gwybod bod economi'r byd wedi dioddef ers 2008.

It is naive to think that we can somehow wrap ourselves in a bubble in Wales and see our economy get back to where it was before 2008. It is not going to do that. We know that, because it is going to take some time. It is naive to suggest that, somehow, one party has all the answers to get Wales back to where it was before 2008. The indicators are there. We also have in place a number of schemes to help businesses in Wales. We have the Wales economic growth fund, the small and medium sized enterprises growth Fund, the digital development fund, the micro-business loan fund, and we have Jobs Growth Wales. We are a very proactive Government; we have many schemes in place, and these are the things that set us apart from the chaos that exists under the Tories and the Lib Dems elsewhere in the UK.

Mae'n naïf i feddwl y gallwn, rywsut, lapio ein hunain mewn swigen yng Nghymru a gweld ein heconomi'n mynd yn ôl i'r lle yr oedd cyn 2008. Nid yw'n mynd i wneud hynny. Rydym yn gwybod hynny, oherwydd mae'n mynd i gymryd cryn amser. Mae'n naïf i awgrymu bod gan un blaid, rywsut, yr holl atebion i gael Cymru'n ôl i'r lle yr oedd hi cyn 2008. Mae'r dangosyddion yno. Rydym hefyd wedi sefydlu nifer o gynlluniau i helpu busnesau yng Nghymru. Mae gennym gronfa twf economaidd Cymru, y Gronfa twf i fusnesau bach a chanolig, y gronfa datblygu digidol, y gronfa fenthyciadau i ficrofusnesau, ac mae gennym Dwf Swyddi Cymru. Rydym yn Llywodraeth ragweithiol iawn, mae gennym nifer o gynlluniau ar waith, a'r rhain yw'r pethau sy'n ein gwneud yn wahanol i'r anhrefn sy'n bodoli dan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn mannau eraill yn y DU.

### Atebolrwydd Lleol

### Local Accountability

13:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella atebolrwydd lleol drwy system gynllunio Cymru. OAQ(4)0893(FM)*

*4. What is the Welsh Government doing to enhance local accountability through the Welsh planning system. OAQ(4)0893(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The planning system must operate at the most appropriate level of government, and these are issues that will be considered as part of the planning Bill.

Mae'n rhaid i'r system gynllunio weithredu ar y lefel llywodraeth fwyaf priodol, ac mae'r rhain yn faterion a ystyrir yn rhan o'r Bil cynllunio.

13:51 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. I am keen to pursue the reason why the Welsh Government is taking such a stance in not providing additional financial resources to Powys County Council to help defend its planning position in the up and coming public inquiry. Just before Christmas, a spokesperson for the Welsh Government said:

Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Rwyf yn awyddus i fynd ar drywydd y rheswm pam y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y fath safiad o beidio â darparu adnoddau ariannol ychwanegol i Gyngor Sir Powys i helpu i amddiffyn ei safbwynt cynllunio yn yr ymchwiliad cyhoeddus sydd ar droed. Ychydig cyn y Nadolig, dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru:

'It must be remembered that the decision to object to the wind farm applications referred to is entirely down to Powys County Council.... They were aware of the financial implications when they decided to object to these schemes.'

Rhaid cofio mai penderfyniad Cyngor Sir Powys yn unig oedd gwrthwynebu'r cais am ffermydd gwynt y cyfeirir ato... Roeddent yn ymwybodol o'r goblygiadau ariannol pan wnaethant benderfynu gwrthwynebu'r cynlluniau hyn.

Clearly, your Government's perceived view is that the council should have taken the costs into account and approved inappropriate applications because it could not meet the costs of appeal. That is an affront to democracy. Do you believe in local democracy, and, if so, do you distance yourself from the comments that were made on your behalf? I hope that the First Minister can answer my direct question.

Yn amlwg, credir bod eich Llywodraeth o'r farn y dylai'r cyngor fod wedi ystyried y costau hyn a chymeradwyo ceisiadau amhriodol gan na allai dalu'r costau apelio. Mae hynny'n sarhad i ddemocratiaeth. A ydych chi'n credu mewn democratiaeth leol, ac, os felly, a ydych chi'n ymbellhau oddi wrth y sylwadau a wnaed ar eich rhan? Gobeithiaf y gall y Prif Weinidog ateb fy nghwestiwn uniongyrchol.

13:51

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The money that Powys County Council claims that it needs is in order to meet its obligations because of an inquiry called by the UK Government. It has nothing to do with the Welsh Government at all. Why should the Welsh taxpayer pay for something that Whitehall should be paying for? I do not understand this idea that, somehow, it is the Welsh Government's job to provide finance to a local authority that is fighting something that is being taken forward by the UK Government. It is the UK Government's responsibility. So, as far as the Member is concerned, it would be far more profitable if he pursued the UK Government and asked it for funding to help Powys County Council to deal with something that it caused in the first place.

Mae'r arian y mae Cyngor Sir Powys yn honni bod ei angen arnynt, ar gyfer bodloni eu rhwymedigaethau oherwydd ymchwiliad a alwyd gan Lywodraeth y DU. Nid oes ganddo ddim i'w wneud â Llywodraeth Cymru o gwbl. Pam y dylai trethdalwyr Cymru dalu am rywbeth y dylai Whitehall fod yn talu amdano? Nid wyf yn deall y syniad hwn mai lle Llywodraeth Cymru, rywsut, yw darparu cyllid i awdurdod lleol sy'n ymladd rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth y DU. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw. Felly, cyn belled ag y mae'r Aelod dan sylw, byddai'n llawer mwy buddiol pe byddai'n ceisio cysylltu â Llywodraeth y DU a gofyn iddynt am gyllid i helpu Cyngor Sir Powys i ymdrin â rhywbeth a achoswyd ganddo yn y lle cyntaf.

13:52

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn credu byddai atebolrwydd yn y system cynllunio yn cael ei wella pe byddai gennym yng Nghymru arolygiaeth gynllunio annibynol i Gymru. A yw'n fwriad gennych i gyflwyno hynny wrth ymateb i'r ymgynghoriad sydd wedi bod yn digwydd ar y materion hyn?

Many people in Wales believe that accountability in the planning system would be enhanced if we had in Wales an independent planning inspectorate for Wales. Is it your intention to introduce that in response to the consultation that has been taking place on these issues?

13:52

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae anfanteision ynghylch y costau o ran cael arolygiaeth wahanol. Mae'n anodd gweld byddai mantais ar hyn o bryd. Yr hyn sydd yn bwysig, wrth gwrs, yw bod yr arolygwyr yn defnyddio'r canllawiau ar gynllunio o Gymru, a chredaf eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld ar hyn o bryd bod achos dros gael arolygiaeth wahanol er mwyn bod yn wahanol. Yr hyn sydd yn bwysig yw bod yr arolygiaeth yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r canllawiau o Gymru.

There are disadvantages in terms of costs with regard to having a different inspectorate. It is difficult to see that it would be advantageous at present. What is important is that the inspectors use planning guidance from Wales, and I believe that they do do that. However, I do not see that there is a case for having a different inspectorate at the moment for the sake of being different. What is important is that the inspectorate ensures that it uses the guidance from Wales.

13:53

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that you will agree, First Minister, that town and community councils play a vital role in assisting the determination of planning applications as principal consultees. In that context, in the event that such a council were to object strongly to a particular application in a site of local significance, do you feel that there is any merit in such an application automatically triggering full planning committee consideration? In my view, this would serve to ensure maximum transparency for the determination of such an application, rather than such a matter being decided by planning officers under delegated powers.

Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, Brif Weinidog, bod cynghorau tref a chymunedol yn chwarae rhan hanfodol wrth gynorthwyo penderfyniadau am geisiadau cynllunio fel prif ymgynghorwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, pe bai cyngor o'r fath yn dangos gwrthwynebiad cryf i gais penodol mewn safle o bwysigrwydd lleol, a ydych chi o'r farn bod unrhyw rinwedd i gais o'r fath gael ei ystyried gan bwyllgor cynllunio llawn yn awtomatig? Yn fy marn i, byddai hyn yn fodd o sicrhau'r tryloywder mwyaf posibl ar gyfer penderfynu ar gais o'r fath, yn hytrach na bod mater o'r fath yn cael ei benderfynu gan swyddogion cynllunio dan bwerau dirprwyedig.

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member raises an important point. This is certainly something that could be considered as part of the planning Bill process.

Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn rhan o broses y Bil cynllunio.

Senedd.tv Fideo Video

### Toriadau mewn Budd-Daliadau Tai

### Cuts in Housing Benefits

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*5. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i liniaru ar effaith toriadau mewn budd-daliadau tai hanfodol. OAQ(4)0890(FM)*

*5. What assessment has the Welsh Government made of the actions being taken by local authorities in Wales to mitigate the impact of cuts in essential housing benefits. OAQ(4)0890(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have contacted all local authorities to ascertain what has been undertaken to assess the impacts of welfare reform. Of the 16 that have responded so far, five have undertaken bespoke impact assessments. Clearly, there needs to be a more proactive response from other local authorities in Wales in order to ensure that the most vulnerable people that they have are placed in the best position possible.

Rydym wedi cysylltu â phob awdurdod lleol i ganfod beth sydd wedi cael ei wneud i asesu effeithiau diwygio lles. O'r 16 sydd wedi ymateb hyd yn hyn, mae pump wedi cynnal asesiadau effaith pwrpasol. Yn amlwg, mae angen ymateb mwy rhagweithiol gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed sydd ganddynt yn cael eu rhoi yn y sefyllfa orau bosibl.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

The iniquities of the coalition's policy in relation to housing benefit cuts have been well rehearsed in this Chamber. Will you join me in commending the efforts of Cardiff and other Labour councillors elsewhere in Wales to deploy every flexibility that they are able to assemble so that, for example, foster parents are not forced to give up their vital work for the lack of a bedroom, grandparents are not forced to give up the care of grandchildren that means that parents are able to go to work, and families that are working hard with their local authority or housing association to find affordable accommodation are not forced into smaller and more expensive private sector accommodation because of the dogmatic actions of an inflexible and ideologically-driven administration in London?

Mae camweddau polisi'r glymblaid o ran toriadau budd-dal tai wedi cael eu trafod yn helaeth yn y Siambr hon. A wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo ymdrechion Caerdydd a chynghorwyr Llafur eraill mewn mannau eraill yng Nghymru i ddefnyddio pob hyblygrwydd y gallant fel, er enghraifft, nad yw rhieni maeth yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i'w gwaith hanfodol oherwydd diffyg ystafell wely, nad yw neiniau a theidiau yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i ofalu am eu hwyrion a'u hwyresau er mwyn i'r rhieni allu mynd i'r gwaith, ac nad yw teuluoedd sy'n gweithio'n galed gyda'u hawdurdod lleol neu gymdeithas dai i ddod o hyd i lety fforddiadwy'n cael eu gorfodi i mewn i lety llai a mwy costus yn y sector preifat oherwydd camau gweithredu dogmatig gweinyddiaeth anhyblyg ac ideolegol yn Llundain?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member makes his points very strongly, and I can only reiterate what he has said.

Mae'r Aelod yn gwneud ei bwyntiau'n gryf iawn, ac ni allaf ond ailadrodd yr hyn a ddywedodd.

I was struck last week by the delegation that the Prime Minister received from his constituency chairs on the issue of gay marriage. I was struck by the fact that they said that they could not reconcile themselves to gay marriage because of their moral values. Where are their moral values when it comes to taking money away from the most vulnerable? I do not want to hear about moral values from Conservatives; they have got their moral values wrong, and I find it absolutely sickening that there are families that will suffer, grandparents who will suffer, foster carers who will suffer, and young people who will suffer as a result of their warped moral values. We need no lectures from them on that point.

Trawyd fi yr wythnos diwethaf gan y ddirprwyaeth a dderbyniodd y Prif Weinidog gan gadeiryddion ei etholaethau ar fater priodas hoyw. Trawyd fi gan y ffaith eu bod yn dweud na allent ddygymod â phriodas hoyw oherwydd eu gwerthoedd moesol. Ble mae eu gwerthoedd moesol pan eu bod yn cymryd arian oddi ar y bobl fwyaf agored i niwed? Nid wyf am glywed am werthoedd moesol gan Geidwadwyr; maent wedi cael eu gwerthoedd moesol yn anghywir, ac rwyf yn ei chael hi'n gwbl ffiaidd y bydd teuluoedd yn dioddef, neiniau a theidiau'n dioddef, gofalwyr maeth yn dioddef, a phobl ifanc yn dioddef o ganlyniad i'w gwerthoedd moesol gwyrdroëdig. Nid oes arnom angen unrhyw ddarlithoedd ganddynt ar y pwynt hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, there was no housing supply crisis in Wales in 1997. There is now, and I have been warning about this for 10 years. There are 91,000 households on waiting lists, and house building is at its lowest level since the 1920s. That is the reason why this is happening. Do you share my concern that, despite the previous Welsh Government, of which you were First Minister, accepting the recommendation in the Communities and Culture Committee report on the private rented sector, that the Welsh Government actively seek to promote a positive public image of the private rented sector as a tenure of first choice in Wales, the National Landlords Association told me in March 2011 that, working with social letting agencies and accredited landlords, it had already built in housing benefit changes, but that change needed to be managed in local authorities, and many local authorities had yet to meet it. Authorities are only just now scrabbling around to have meetings with it—in Wrexham, Flintshire and elsewhere—two years after that warning went out, and two years after the UK Government wrote to every council in England and Wales with guidance on the new discretionary housing payments.

Wel, nid oedd argyfwng cyflenwi tai yng Nghymru yn 1997. Ceir un heddiw, ac rwyf wedi bod yn rhybuddio am hyn ers 10 mlynedd. Mae 91,000 o aelwydydd ar restrau aros, ac mae adeiladu tai ar ei lefel isaf ers yr 1920au. Dyna'r rheswm pam mae hyn yn digwydd. A ydych chi'n rhannu fy mhryder, er bod Llywodraeth flaenorol Cymru, yr oeddech yn Brif Weinidog arni, wedi derbyn argymhelliad adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar y sector rhentu preifat, bod Llywodraeth Cymru'n mynd ati i geisio hyrwyddo delwedd gyhoeddus gadarnhaol o'r sector rhentu preifat fel daliadaeth o ddewis cyntaf yng Nghymru; dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid wrthyf ym mis Mawrth 2011 eu bod, gan gydweithio ag asiantaethau gosod cymdeithasol a landlordiaid achrededig, eisoes wedi gwneud newidiadau i fudd-dal tai, ond bod angen i awdurdodau lleol reoli'r newid hwnnw, ac mae llawer o awdurdodau lleol heb ymateb i'r newid eto. Dim ond yn awr y mae awdurdodau'n dechrau ceisio trefnu cyfarfodydd am hyn—yn Wrecsam, Sir y Fflint ac mewn mannau eraill—ddwy flynedd ar ôl i'r rhybudd hwnnw fynd allan, a dwy flynedd ar ôl i Lywodraeth y DU ysgrifennu at bob cyngor yng Nghymru a Lloegr gyda chanllawiau ar y taliadau tai dewisol newydd.

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Are you coming to a question?

Trefn. A ydych chi ar fin gofyn cwestiwn?

13:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your councils have only now contacted the tenants, creating a train crash.

Dim ond newydd gysylltu â'r tenantiaid nawr y mae eich cynghorau, gan greu damwain trên.

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have no idea what that question was. I have no idea. [Laughter.] I heard a speech for a long time, but I heard no question at all.

Nid oes gennyf unrhyw syniad beth oedd y cwestiwn yna. Dim syniad o gwbl. [Chwerthin.] Clywais araith am amser hir, ond ni chlywais gwestiwn o gwbl.

I did hear him say that the private rented sector should be the first choice. We know that the private rented sector plays an important role in providing people with accommodation, but I see no reason why it should be the first port of call.

Clywais ef yn dweud mai'r sector rhentu preifat ddylai fod y dewis cyntaf. Gwyddom fod y sector rhentu preifat yn chwarae rhan bwysig o ran darparu llety i bobl, ond ni welaf ddim rheswm pam y dylai fod yn ddewis cyntaf.

In terms of our affordable housing provision, I can tell him that, in 2011-12, a total of 2,489 additional affordable housing units were delivered across Wales, which represents a third of the target of 7,500 additional homes, which will be delivered during the course of this current Government. So, we are ensuring that affordable housing is available to people, even as his party tries to force people out of their homes.

O ran ein darpariaeth tai fforddiadwy, gallaf ddweud wrtho, yn 2011-12, bod cyfanswm o 2,489 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu ledled Cymru, sy'n draean o'r targed o 7,500 o gartrefi ychwanegol, a gaiff eu darparu yn ystod y Llywodraeth bresennol hon. Felly, rydym yn sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl, hyd yn oed wrth i'w blaid ef geisio gorfodi pobl allan o'u cartrefi.

13:58 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, fe'ch cyfeiriaf yn benodol at fater dreth ar ystafell wely ychwanegol. Mae gennyf fwy nag un etholwr sydd wedi buddsoddi llawer o arian i drosglwyddo ystafell wely ychwangeol oherwydd eu hanabledd er mwyn caniatáu iddynt aros yn eu tai eu hunain. Bellach, bydd yn cael eu trethi oherwydd bod ystafell wely ychwanegol ganddynt. Cefais ateb gan Lywodraeth San Steffan yn dweud mai dyna yw'r sefyllfa, er bod y bobl hynny wedi ceisio sicrhau eu bod yn gallu aros yn eu cartref eu hunain drwy ddefnyddio eu harian eu hunain i addasu'r ystafell honno i'w hanabledd.

First Minister, I refer you specifically to the issue of the bedroom tax. I have more than one constituent who has invested a great deal of money to convert an additional bedroom because of their disability in order to allow them to stay in their own home. They are now going to be taxed because they have an additional bedroom. I have received a reply from the Westminster Government saying that that is the position, despite the fact that these people endeavoured to ensure that they can stay in their own homes by using their own money to adapt that room for their disability.

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n cytuno yn llwyr â'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. Mae'n dangos mai'r bobl a fydd yn dioddef yw pobl anabl, pobl hŷn, a phobl sydd am gael lle yn eu tai, ond nid oes ots gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig amdanynt hwy nac am eu sefyllfa. Yr unig beth y mae hi am ei wneud yw torri mwy a mwy o arian. Wrth gwrs, yr hyn fydd yn digwydd yw, os bydd toriadau i'r budd-daliadau, y bydd mwy o bobl ddigartref. O ble y daw'r arian i'w helpu hwy? Mae'n dod o Lywodraeth Cymru. Felly, mae hi'n ffordd o arbed arian ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ond mae hynny'n golygu y bydd rhaid i fwy o arian gael ei ffeindio gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n ffordd i achub arian i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond mae'n meddwl y bydd angen i Lywodraeth Cymru ffeindio mwy o arian, ac mae hynny'n annheg, nid yn unig i Lywodraeth Cymru—mae hynny'n amlwg—ond i'r bobl a gaiff eu heffeithio.

I agree entirely with what the Member says. It demonstrates that the people who will suffer are disabled people, older people, and people who want to remain in their own homes, but the UK Government does not care about those people or their situation. All that it wants to do is to make more and more cuts. Of course, what is going to happen is that, if there are cuts in benefits, that will mean that more people will become homeless. Where does the money come from to help those people? It comes from the Welsh Government. So, it is a way of saving money for the UK Government, but it means that more money will have to be found by the Welsh Government. Therefore, it is a way of saving money for the UK Government, but that passes a burden onto the Welsh Government, and that is unfair, not only to the Welsh Government—that is clear—but to the people who will be affected.

14:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The bedroom tax due to be introduced in April together with the total overhaul of the benefits system is causing despair among many of my constituents. Many are visiting citizens advice bureaux, and we know that their debt advisers are a lifeline in supporting some of the most vulnerable and disadvantaged people in our communities. Will you continue to support third sector providers such as the citizens advice bureaux that are playing a role in supporting our hard-hit communities?

Mae'r dreth ystafell wely a gyflwynir ym mis Ebrill ynghyd â gweddnewid y system fudd-daliadau'n llwyr yn achosi anobaith ymysg llawer o fy etholwyr. Mae llawer yn ymweld â chanolfannau cyngor ar bopeth, ac rydym yn gwybod bod eu cynghorwyr dyled yn achubiaeth i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig yn ein cymunedau. A wnewch chi barhau i gefnogi darparwyr y trydydd sector, megis y canolfannau cyngor ar bopeth sy'n chwarae rhan wrth gefnogi ein cymunedau sydd wedi'u taro'n galed?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely; for example, we are providing funding to Citizens Advice Cymru of more than £2.2 million a year for three years until at least March 2015 to support the Better Advice, Better Lives programme, which helps people to claim the benefits that they are entitled to. Of course, we have also provided help for third sector organisations in order to provide advice at a time when so many people will, for the first time, be in need of that advice, and, indeed, good advice.

Wrth gwrs; er enghraifft, rydym yn darparu dros £2.2 miliwn y flwyddyn o gyllid i Gyngor ar Bopeth Cymru am dair blynedd tan o leiaf fis Mawrth 2015 i gefnogi'r rhaglen Cyngor Gwell, Bywydau Gwell, sy'n helpu pobl i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Wrth gwrs, rydym hefyd wedi darparu cymorth i sefydliadau trydydd sector i ddarparu cyngor ar adeg pan fydd llawer o bobl, am y tro cyntaf, angen y cyngor hwnnw, ac yn wir, angen cyngor da,

14:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 6, OAQ(4)0888(FM), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ (4) 0888 (FM), yn ôl.

### Undebau Credyd

### Credit Unions

14:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gynnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru i gynyddu gweithgarwch undebau credyd yng Nghymru wrth ddarparu benthyciadau llog isel i bobl y byddent, fel arall, yn ddibynnol ar fenthyciadau diwrnodau cyflog. OAQ(4)0889(FM)*

*7. What progress is being made by the Welsh Government to increase the activity of credit unions in Wales in providing low interest loans for people who would otherwise be dependent on pay day loans. OAQ(4)0889(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As part of our commitment to tackling poverty, the joint funding of £4.056 million over three years provided by the Welsh Government and the European regional development fund has helped credit unions provide loans and savings to more than 10,900 financially excluded adults in the last two years.

Yn rhan o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi, mae'r cyllid ar y cyd o £4.056 miliwn dros dair blynedd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a chronfa datblygu rhanbarthol Ewrop wedi helpu undebau credyd i ddarparu benthyciadau a chynilion i dros 10,900 o oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

14:01 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for your answer, First Minister. I represent this Assembly on the British-Irish Parliamentary Assembly and I listened with great envy, during its inquiry into credit unions, to how the Irish credit unions have €16 billion ready to invest in Ireland. Will you please initiate a real campaign to be sustained over a reasonable period of time with a budget earmarked for it by the Welsh Government to ensure that credit unions are expanded here in Wales? Will you also join with me in applauding good practice by registered social landlords? I heard the example of Octavia Housing in the House of Commons yesterday, but even here in Wales Community Housing Cymru plays a vital role in expanding credit unions to its own low-income tenants in social housing.

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Rwyf yn cynrychioli'r Cynulliad hwn ar y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a gwrandewais gydag eiddigedd mawr, yn ystod ei ymchwiliad i undebau credyd, ar sut y mae gan undebau credyd Iwerddon €16 biliwn yn barod i'w fuddsoddi yn Iwerddon. A wnewch chi gychwyn ymgyrch go iawn i gael ei gynnal dros gyfnod rhesymol o amser gyda chyllideb wedi'i neilltuo ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod undebau credyd yn cael eu hymestyn yma yng Nghymru? A wnewch chi hefyd ymuno â mi i ganmol arferion da gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig? Clywais enghraifft Tai Octavia yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe, ond hyd yn oed yma yng Nghymru mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth ehangu undebau credyd i'w tenantiaid eu hunain sydd ar incwm isel ac mewn tai cymdeithasol.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is much there with which I would agree. In Ireland, of course, the credit unions have been around for much longer, and they are much bigger institutions. They had their genesis in Canada originally, of course. Therein lies the ambition for our credit unions in time, but our credit unions have grown immensely. For example, the value of loans provided by Welsh credit unions is estimated to be in excess of £14.7 million, which is an increase of 25% in two years. Just to inform the Member, six credit unions are taking part in a project to support tenants to make regular payments to their social landlords using a credit union rent account. We have worked hard with credit unions to achieve the best coverage around Wales and to ensure that people actually use their credit unions. This is seen in the fact that savings with credit unions have increased by 20% in the last two years.

Byddwn yn cytuno â llawer o hynny. Yn Iwerddon, wrth gwrs, mae'r undebau credyd wedi bod o gwmpas ers llawer hirach, ac maent yn sefydliadau llawer mwy. Cawsant eu cychwyn yng Nghanada yn wreiddiol, wrth gwrs. Dyna yw'r uchelgais ar gyfer ein hundebau credyd ni mewn amser, ond mae ein hundebau credyd wedi tyfu'n aruthrol. Er enghraifft, amcangyfrifir bod gwerth y benthyciadau a ddarperir gan undebau credyd Cymru yn uwch na £14.7 miliwn, sy'n gynnydd o 25% mewn dwy flynedd. I roi gwybod i'r Aelod, mae chwech o undebau credyd yn cymryd rhan mewn prosiect i helpu tenantiaid i wneud taliadau rheolaidd i'w landlordiaid cymdeithasol gan ddefnyddio cyfrif rhent undeb credyd. Rydym wedi gweithio'n galed gydag undebau credyd i sicrhau eu bod ar gael mewn cymaint â phosibl o fannau yng Nghymru ac i sicrhau bod pobl yn defnyddio eu hundebau credyd. Dangosir hyn gan y ffaith bod cynilion gydag undebau credyd wedi cynyddu 20% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

14:03 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon, First Minister. Just following on from Lindsay Whittle's question, I think that we all know that you are a big supporter of credit unions, not least in my own region, but the loss of the services of general economic interest funding from September this year presents a significant problem to all credit unions, not just those in my region. With the loss of a significant five-figure sum from the revenue funding for these credit unions every year, and a question mark over European funding, what guarantees can you give to this Assembly that the work of credit unions can continue to prevent the increase in reliance on hyper-interest pay-day loans?

Prynhawn da, Brif Weinidog. I ddilyn cwestiwn Lindsay Whittle, credaf ein bod i gyd yn gwybod eich bod yn gefnogwr mawr o undebau credyd, yn enwedig yn fy rhanbarth i, ond mae colli gwasanaethau cyllid llog economaidd cyffredinol o fis Medi eleni ymlaen yn cyflwyno problem sylweddol i bob undeb credyd, nid dim ond y rhai yn fy rhanbarth i. Gyda cholled sylweddol o swm pum ffigwr o arian refeniw'r undebau credyd hyn bob blwyddyn, a marc cwestiwn dros gyllid Ewropeaidd, pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r Cynulliad hwn y gall gwaith undebau credyd barhau i atal y cynnydd mewn dibyniaeth ar fenthyciadau diwrnod cyflog â llog uchel iawn?

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Credit unions are now flying, if I may say so; we are seeing that from the figures. We know, for example, that adult membership of credit unions is 51,752, which is an increase of 26% in two years. To a great extent, credit unions are now self-supporting and self-sufficient, but where there are opportunities to work with credit unions over the next few years, we will of course seek to do so.

Mae undebau credyd yn mynd o nerth i nerth, os caf ddweud hynny; rydym yn gweld hynny yn y ffigurau. Gwyddom, er enghraifft, fod aelodaeth o undebau credyd ymysg oedolion yn 51,752, sy'n gynnydd o 26% mewn dwy flynedd. I raddau helaeth, mae undebau credyd nawr yn hunangynhaliol ac yn hunanddigonol, ond pan geir cyfleoedd i gydweithio ag undebau credyd dros y blynyddoedd nesaf, byddwn wrth gwrs yn ceisio gwneud hynny.

14:04 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, last autumn credit unions were told by Welsh Government officials that they cannot necessarily expect Welsh Government support to achieve sustainability past September 2013. Does that mean that the Welsh Government is no longer concerned with building on the investment that it has already made? How will it now help credit unions to tackle financial exclusion and poverty across Wales after that date?

Brif Weinidog, yr hydref diwethaf, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth undebau credyd na allant o reidrwydd ddisgwyl cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni cynaliadwyedd ar ôl mis Medi 2013. A yw hynny'n golygu nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn poeni am adeiladu ar y buddsoddiad y mae eisoes wedi'i wneud? Sut y bydd nawr yn helpu undebau credyd i fynd i'r afael ag allgáu ariannol a thlodi ar draws Cymru ar ôl y dyddiad hwnnw?

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Credit unions continue to grow, partially because of the money that has been made available to them. It seems to me that credit unions are in a far stronger financial position than they were. We have to examine whether there is a need to financially support them at the same level in the future—that is an open question—and see what kind of support might be needed. Inevitably, you would expect credit unions, in time, to become self-supporting and robust financial institutions in themselves.

Mae undebau credyd yn parhau i dyfu, yn rhannol oherwydd yr arian sydd ar gael iddynt. Mae'n ymddangos i mi bod undebau credyd mewn sefyllfa ariannol llawer cryfach nag yr oeddent o'r blaen. Rhaid i ni archwilio a oes angen rhoi cymorth ariannol iddynt ar yr un lefel yn y dyfodol—mae hwnnw'n gwestiwn agored—a gweld pa fath o gymorth y gallai fod ei angen. Yn anochel, byddech yn disgwyl i undebau credyd, mewn amser, fod yn sefydliadau ariannol hunangynhaliol a chadarn ynddynt eu hunain.

14:05 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, the City and County of Swansea is using its pay slips to provide information on local credit unions. Will you join me in congratulating Swansea council on that initiative and will you also join me in urging all other public and private sector employers in Wales to use pay slips as a means of promoting credit unions and to try to get people off very expensive pay-day loans?

Brif Weinidog, mae Dinas a Sir Abertawe'n defnyddio eu slipiau cyflog i roi gwybodaeth am undebau credyd lleol. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cyngor Abertawe am y fenter honno ac a wnewch chi hefyd ymuno â mi i annog holl gyflogwyr eraill Cymru yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddefnyddio slipiau cyflog fel ffordd o hyrwyddo undebau credyd a cheisio perswadio pobl i gefnu ar fenthyciadau diwrnod cyflog drud iawn?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I will. I know that the Minister has been actively promoting credit union membership across the public sector in Wales, using accessible methods such as payroll deduction. I know that publicity materials are regularly circulated to NHS organisations and local authorities to promote the benefits of credit union membership.

Gwnaf. Gwn fod y Gweinidog wedi bod yn weithgar wrth hyrwyddo aelodaeth o undebau credyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddefnyddio dulliau hygyrch fel didyniadau o'r gyflogres. Gwn fod defnyddiau cyhoeddusrwydd yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol i hyrwyddo manteision aelodaeth o undeb credyd.

Senedd.tv Fideo Video

## Atal Plant Rhag Cael Gafael ar Ddeunydd Amhriodol

## Stop Children Accessing Age Inappropriate Material

14:06 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i atal plant rhag cael gafael ar ddeunydd sy'n amhriodol i'w hoedran ar-lein. OAQ(4)0892(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government can do to stop children accessing age inappropriate material online. OAQ(4)0892(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, we cannot stop it completely as we do not control the internet. However, we recommend that internet service providers encourage parents to enable parental controls. We are working to ensure that resources are available for educating children on the appropriate use of the internet.

Wrth gwrs, ni allwn ei atal yn llwyr gan nad ydym yn rheoli'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd yn annog rhieni i alluogi rheolyddion rhieni. Rydym yn gweithio i sicrhau bod adnoddau ar gael i addysgu plant ar ddefnyddio'r rhyngrwyd yn briodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. I have spoken to parents in my constituency who worry about their children's online activities. Often, they do not know where to start to make the web a safer place for their child. Are there further steps that the Welsh Government can take to make parents more aware of the ways of blocking these sites?

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwyf wedi siarad â rhieni yn fy etholaeth, sy'n poeni am weithgareddau eu plant ar-lein. Yn aml, nid ydynt yn gwybod ble i ddechrau i wneud y we yn lle mwy diogel i'w plentyn. A oes camau pellach y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod rhieni'n fwy ymwybodol o ffyrdd o flocio'r safleoedd hyn?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have worked with the UK Safer Internet Centre to provide bilingual school packs, which can be accessed through its website. Those packs contain classroom activities, lesson plans, curriculum links, staff guidance and a poster to start discussions to promote Safer Internet Day. I know that the Children's Commissioner for Wales is also working to raise awareness of the issue. One of the best ways of doing that is to ensure that, working through schools, parents are able to be informed, if they do not already know, of what can be done to restrict internet access to harmful sites.

Rydym wedi cydweithio â Chanolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU i ddarparu pecynnau ysgol dwyieithog, sydd ar gael drwy eu gwefan. Mae'r pecynnau hynny'n cynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, cynlluniau gwersi, cysylltiadau â'r cwricwlwm, arweiniad i staff a phoster i ddechrau trafodaethau i hyrwyddo Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Gwn fod Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r mater. Un o'r ffyrdd gorau o wneud hynny yw sicrhau, gan weithio drwy ysgolion, y gall rhieni gael gwybod, os nad ydynt eisoes yn gwybod, beth y gellir ei wneud i gyfyngu mynediad i safleoedd niweidiol ar y rhyngrwyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, does the Welsh Government have guidelines on what it considers to be age appropriate? I ask the question because just a quick search of the internet shows that websites such as the 'Mail Online' and gossip websites include story after story about the shape of women's bodies, highlighting imperfections. Young women reading those websites could lead to them have problems with their self-esteem, which may lead to mental health problems in future. Could you look into that? I have previously called for confidence and wellbeing lessons in schools, as a result of work that I have done on eating disorders. This is a growing problem among our young people.

Brif Weinidog, a oes gan Lywodraeth Cymru ganllawiau ar yr hyn y mae'n ystyried i fod yn addas i wahanol oedrannau? Gofynnaf y cwestiwn oherwydd bod chwiliad cyflym iawn o'r rhyngrwyd yn dangos bod gwefannau megis y 'Mail Online' a gwefannau clecs yn cynnwys stori ar ôl stori am siâp cyrff menywod, gan dynnu sylw at ddiffygion. Os bydd menywod ifanc yn darllen y gwefannau hynny, gallai achosi iddynt gael problemau gyda'u hunan-barch, a all arwain at broblemau iechyd meddwl yn y dyfodol. A allech ymchwilio i hynny? Rwyf wedi galw o'r blaen am wersi hyder a lles mewn ysgolion, o ganlyniad i'r gwaith yr wyf wedi'i wneud ar anhwylderau bwyta. Mae hon yn broblem gynyddol ymhlith ein pobl ifanc.

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is difficult to restrict access in the home; that is part of the difficulty. It is often difficult to understand what age-appropriate content is. For example, the certification system used for video games—for want of a better phrase—is very different to the certification used for films. I have found that to be the case through seeing some of the stuff that is available for children.

Mae'n anodd cyfyngu ar fynediad yn y cartref; mae hynny'n rhan o'r anhawster. Mae'n aml yn anodd deall pa gynnwys sy'n briodol i ba oedran. Er enghraifft, mae'r system ardystio a ddefnyddir ar gyfer gemau fideo—yn niffyg gwell ymadrodd—yn wahanol iawn i'r ardystio a ddefnyddir ar gyfer ffilmiau. Rwyf wedi gweld bod hynny'n wir drwy weld rhai o'r pethau sydd ar gael i blant.

It is important that we are in a position to educate children through schools, and parents as well. Directors general within the Government have been asked to hold discussions on this matter with a view to formulating what will become a Welsh Government policy in terms of what is age inappropriate material and the online accessing of it. I will report back to Members about the progress of that work.

Mae'n bwysig ein bod mewn sefyllfa i addysgu plant drwy ysgolion, a rhieni yn ogystal. Mae cyfarwyddwyr cyffredinol o fewn y Llywodraeth wedi cael cais i gynnal trafodaethau ar y mater hwn gyda golwg ar lunio polisi i Lywodraeth Cymru ynghylch beth yw deunydd amhriodol i oedrannau a chael mynediad ato ar-lein. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Aelodau am gynnydd y gwaith hwnnw.

14:09 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to highlight what the children's commissioner has said about the fact that children and young people do not see much of a distinction between their online and offline lives. The First Minister will know that today is Safer Internet Day, and while enormous educational and social benefits arise from the internet, could he suggest how he will encourage greater publicity of the children's commissioner's concerns?

Hoffwn dynnu sylw at yr hyn y mae'r comisiynydd plant wedi'i ddweud am y ffaith nad yw plant a phobl ifanc yn gweld llawer o wahaniaeth rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein. Bydd y Prif Weinidog yn gwybod mai heddiw yw Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, ac er bod manteision addysgol a chymdeithasol enfawr i'w cael o'r rhyngrwyd, a allai awgrymu sut y bydd yn annog mwy o gyhoeddusrwydd i bryderon y comisiynydd plant?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is important that parents understand what their children are accessing if they are online, and what their children are saying, particularly through websites such as Facebook. I wholeheartedly endorse the concept of Safer Internet Day. As I have said, working with schools, I believe that we are able to inform children and parents of what age-inappropriate material is and how to restrict access to it.

Mae'n bwysig bod rhieni yn deall beth mae eu plant yn ei weld os ydynt ar-lein, a beth mae eu plant yn ei ddweud, yn enwedig drwy wefannau megis Facebook. Rwyf yn llwyr gefnogi cysyniad Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Fel y dywedais, drwy gydweithio ag ysgolion, credaf y gallwn roi gwybod i blant a rhieni beth yw deunydd amhriodol i oedrannau a sut i gyfyngu ar fynediad ato.

14:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in a survey published today for Safer Internet Day, children and young people tell us that they are just as disturbed by images of animal cruelty and violence as they are by pornography and bullying. How are you working to ensure that parents and teachers are aware of the breadth of the content online that can cause children distress so that they are equipped to protect and support children?

Brif Weinidog, mewn arolwg a gyhoeddwyd heddiw ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym bod delweddau o greulondeb at anifeiliaid a thrais yn eu cythryblu llawn gymaint â phornograffi a bwlio. Sut yr ydych chi'n gweithio i sicrhau bod rhieni ac athrawon yn ymwybodol o ehangder y cynnwys ar-lein a all achosi gofid i blant fel eu bod yn gallu amddiffyn a chefnogi plant?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

A commitment in the programme for government is the creation of an all-Wales learning platform, known as Hwb, which was launched on 12 December last year. This platform allows us to centrally host e-safety resources, which will be available to all students from 3-19 years, and will also enable teachers to raise awareness of areas such as online safety with pupils and parents alike.

Un o ymrwymiadau'r rhaglen ar gyfer llywodraethu yw creu llwyfan dysgu ar gyfer Cymru gyfan, a elwir yn Hwb, a lansiwyd ar 12 Rhagfyr y llynedd. Mae'r llwyfan hwn yn caniatáu i ni letya adnoddau e-ddiogelwch yn ganolog, a'u rhoi ar gael i'r holl fyfyrwyr o 3-19 oed, a bydd hefyd yn galluogi athrawon i godi ymwybyddiaeth o feysydd megis diogelwch ar-lein gyda disgyblion a rhieni fel ei gilydd.

14:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 9, OAQ(4)0895(FM), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ (4) 0895 (FM), yn ôl.

## Busnesau Bach a Chanolig eu Maint

## Small and Medium-sized Enterprises

14:11 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hybu twf busnesau bach a chanolig. OAQ(4)0886(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on encouraging the growth of SMEs. OAQ(4)0886(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We offer a wide range of support to SMEs to actively support sustainability and growth. Support includes access through services such as the new Business Wales one-stop-shop service.

Rydym yn cynnig ystod eang o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig i fynd ati i gefnogi cynaliadwyedd a thwf. Mae'r cymorth yn cynnwys mynediad drwy wasanaethau megis gwasanaeth siop-un-stop newydd Busnes Cymru.

14:11 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that you have given specific promises to assist small businesses, as you have just mentioned. Can you, therefore, explain why the rate of failure of small businesses in Wales has not altered?

Gwn eich bod wedi rhoi addewidion penodol i gynorthwyo busnesau bach, fel yr ydych newydd ei grybwyll. A allwch chi, felly, egluro pam nad yw cyfradd methiant busnesau bach yng Nghymru wedi newid?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What we find with business in Wales is that the business birth rate is lower than the UK average, but so is the business death rate. It is almost as if we are more reluctant to set up in business, but when we do, we are more successful. We know that we want to do more to encourage more business set-ups, and to encourage more businesses to be successful. I believe that that is what we are doing through various schemes, such as the Wales SME economic growth fund, for example.

Yr hyn a welwn gyda busnesau yng Nghymru yw bod cyfradd geni busnesau yn is na chyfartaledd y DU, ond felly hefyd gyfradd marwolaethau busnesau. Mae bron fel ein bod yn fwy amharod i sefydlu busnes, ond pan wnawn hynny, ein bod yn fwy llwyddiannus. Rydym yn gwybod ein bod yn awyddus i wneud mwy i annog mwy o fusnesau newydd, ac i annog mwy o fusnesau i fod yn llwyddiannus. Credaf mai dyna'r hyn yr ydym yn ei wneud drwy gynlluniau amrywiol, megis y gronfa twf economaidd i fusnesau bach a chanolig Cymru, er enghraifft.

14:12 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, access to finance is vital to encourage the growth of SMEs in Wales. In our debate last week, I raised concerns about the lack of awareness of Finance Wales among small businesses surveyed by the Federation of Small Businesses. Do you share my concerns, and will you commit your Government to considering all proposals, including 'Invest Wales', which aim to improve the delivery of finance to small and medium-sized businesses?

Brif Weinidog, mae mynediad at gyllid yn hanfodol i annog twf busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Yn ein dadl yr wythnos diwethaf, mynegais bryderon am y diffyg ymwybyddiaeth o Gyllid Cymru ymhlith busnesau bach yn yr arolwg gan Ffederasiwn y Busnesau Bach. A ydych chi'n rhannu fy mhryderon, ac a ymrwymwch eich Llywodraeth i ystyried yr holl gynigion, gan gynnwys 'Buddsoddi Cymru', sydd â'r nod o wella'r modd y darperir cyllid i fusnesau bach a chanolig eu maint?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The figures to which the Member refers suggested that 85 small businesses out of a total of 204,000 had not heard of the support available. That was, of course, presented by the party opposite as most small businesses in Wales not knowing about any kind of support. That is another example of that. I believe that the reality is that a lot of small businesses are aware of the support that is available to them, and we know that from the figures. One thing that should be avoided is the setting up of any financial institution that has the job of lending entirely to the riskiest ventures. That is not the job of Government, and I believe that Finance Wales gets that balance right.

Mae'r ffigurau y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt yn awgrymu mai 85 o fusnesau bach o gyfanswm o 204,000 oedd heb glywed am y cymorth sydd ar gael. Wrth gwrs, cyflwynodd y blaid gyferbyn hynny fel pe bai'r rhan fwyaf o fusnesau bach Cymru heb glywed am unrhyw fath o gefnogaeth. Dyna enghraifft arall o hynny. Credaf mai'r gwirionedd yw bod llawer o fusnesau bach yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt, a gwyddom hynny o'r ffigurau. Un peth y dylid ei osgoi yw sefydlu unrhyw sefydliad ariannol sydd â'r gwaith o fenthyca i'r mentrau â'r risg uchaf yn unig. Nid dyna yw gwaith Llywodraeth, a chredaf fod Cyllid Cymru yn cael y cydbwysedd hwnnw'n gywir.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynllun Gwên

## Design to Smile

14:13 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun gwella iechyd Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwên. OAQ(4)0884(FM)*

*11. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's Design to Smile health improvement scheme. OAQ(4)0884(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Designed to Smile is targeted at improving the oral health of children in greatest need. Currently, some 78,350 children in over 1,200 schools and nurseries in Wales are participating in the scheme.

Mae Cynllun Gwên wedi'i dargedu at wella iechyd y geg ymhlith y plant â'r angen mwyaf. Ar hyn o bryd, mae tua 78,350 o blant mewn dros 1,200 o ysgolion a meithrinfeydd yng Nghymru'n cymryd rhan yn y cynllun.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

I note how welcome this scheme is in my constituency. Trallwn Primary School, where the children clean their teeth twice a day, has won a gold award as part of the scheme. Will you outline what the Government can do to ensure that even more schools take part in this scheme?

Nodaf y croeso sydd i'r cynllun hwn yn fy etholaeth. Mae Ysgol Gynradd Trallwn, lle mae'r plant yn glanhau eu dannedd ddwywaith y dydd, wedi ennill gwobr aur yn rhan o'r cynllun. A wnewch chi amlinellu'r hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod mwy fyth o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The scheme is already a great success, and there is no better way of encouraging more participation than to advertise that success. We are rolling the scheme out across the whole of Wales. I am sure that there are schools and parents who will want their own children to be a part of Designed to Smile as a result of the success of the scheme.

Mae'r cynllun eisoes yn llwyddiant mawr, ac nid oes ffordd well o annog mwy o gyfranogiad na hysbysebu'r llwyddiant hwnnw. Rydym yn cyflwyno'r cynllun ar draws Cymru gyfan. Rwyf yn siŵr y bydd ysgolion a rhieni yn dymuno i'w plant eu hunain fod yn rhan o Gynllun Gwên o ganlyniad i lwyddiant y cynllun.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

First Minister, I have some figures regarding school participation for the Aneurin Bevan Local Health Board area, which I believe cover the period up to July 2012; 95 schools in that area were targeted and 74 participated. That is a high number, but I am sure that you would agree that it could have been better. I cannot find any figures online for Wales as a whole; are they available? Do you know how other parts of Wales compare with the Aneurin Bevan Local Health Board area? How are you going to measure the success of this scheme?

Brif Weinidog, mae gennyf rai ffigurau am gyfranogiad ysgolion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan. Credaf eu bod yn cynnwys y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2012; cafodd 95 o ysgolion yn yr ardal honno eu targedu ac fe wnaeth 74 gymryd rhan. Mae hynny'n nifer uchel, ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno y gallai fod wedi bod yn well. Ni allaf ddod o hyd i unrhyw ffigurau ar-lein ar gyfer Cymru gyfan; a ydynt ar gael? A ydych chi'n gwybod sut y mae rhannau eraill o Gymru yn cymharu ag ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan? Sut yr ydych chi'n mynd i fesur llwyddiant y cynllun hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that I just said that 78,350 children in more than 1,200 schools and nurseries across Wales are participating in this scheme. I believe that that answers the question.

Rwyf yn meddwl fy mod newydd ddweud bod 78,350 o blant mewn mwy na 1,200 o ysgolion a meithrinfeydd ledled Cymru yn cymryd rhan yn y cynllun hwn. Credaf fod hynny'n ateb y cwestiwn.

Senedd.tv Fideo Video

### Atebolrwydd a Thryloywder

### Accountability and Transparency

14:14 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd atebolrwydd a thryloywder yn Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0894(FM)*

*12. Will the First Minister make a statement on the importance of accountability and transparency within the Welsh Government. OAQ(4)0894(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed to maximising accountability and openness through the specific commitments made in our code of practice on access to information.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cymaint â phosibl o atebolrwydd a didwylledd drwy'r ymrwymiadau penodol a wnaed yn ein cod ymarfer ar fynediad at wybodaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. First Minister, concerns raised by the Information Commissioner; a redaction of a very, very sensitive report; resistance on the part of your Government to declare meetings with pressure groups and the outright refusal to publish freedom of information requests made on this side of the Chamber—79 in 2012; a rise of 400% from 2008. First Minister, will you explain to this Chamber just how we are supposed to scrutinise the actions of your Government on behalf of our electorate when a distinct lack of transparency is endemic, not only across some of our other public bodies but right here in the Welsh Government itself?

Diolch, Brif Weinidog. Brif Weinidog, pryderon wedi eu codi gan y Comisiynydd Gwybodaeth; adolygu adroddiad sensitif iawn; gwrthwynebiad ar ran eich Llywodraeth i ddatgan cyfarfodydd gyda grwpiau pwyso a gwrthodiad llwyr i gyhoeddi ceisiadau rhyddid gwybodaeth o'r ochr hon i'r Siambr—79 yn 2012; a chynnydd o 400% oddi ar 2008. Brif Weinidog, a wnewch chi egluro i'r Siambr sut yr ydym i fod i graffu ar weithredoedd eich Llywodraeth ar ran ein hetholwyr, pan fo diffyg tryloywder amlwg yn endemig, nid yn unig ar draws rhai o'n cyrff cyhoeddus eraill, ond yn Llywodraeth Cymru ei hun?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I love the way the Member produces the figure to show that there are now more FOI requests from her party than last year. That is a good thing, apparently; it is a sign of progress. The simple answer is: if you want to scrutinise the Government ask Government Ministers questions that test them. It is a simple piece of advice from where I stand. We are one of the most open administrations in western Europe, and that is quite clear from the freedom of information requests that we grant. It is not part of our job to have members of staff spending days and days answering complex FOI requests from the Conservative Party if they cost more that £600. That much is absolutely clear; that research can be done by its own staff in the library.

Rwyf wrth fy modd â'r ffordd y mae'r Aelod yn cyflwyno'r ffigur i ddangos bod ei phlaid yn gwneud mwy o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn awr na'r llynedd. Mae hynny'n beth da, mae'n debyg; mae'n arwydd o gynnydd. Yr ateb syml yw: os ydych am graffu ar y Llywodraeth, gofynnwch gwestiynau i Weinidogion y Llywodraeth sy'n brawf iddynt. Mae'n gyngor syml yn fy meddwl i. Rydym yn un o'r gweinyddiaethau mwyaf agored yng ngorllewin Ewrop, ac mae hynny'n eithaf clir o'r ceisiadau rhyddid gwybodaeth yr ydym yn eu caniatáu. Nid yw'n rhan o'n gwaith i ofyn i aelodau staff dreulio dyddiau diddiwedd yn ateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth cymhleth gan y Blaid Geidwadol os ydynt yn costio mwy na £600. Mae hynny'n gwbl glir; gall yr ymchwil hwnnw gael ei wneud gan eu staff hwy eu hunain yn y llyfrgell.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am sure that you will share my concern at Trinity Mirror's latest announcement of its proposals to cut 16 editorial posts and to outsource some content to Liverpool. First Minister, what can we do to encourage a strong and vibrant national press and to ensure that Wales can have scrutiny of this place and of public life in general?

Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddwch yn rhannu fy mhryder am gyhoeddiad diweddaraf Trinity Mirror am eu cynigion i dorri 16 o swyddi golygyddol ac i allanoli rhywfaint o gynnwys i Lerpwl. Brif Weinidog, beth a allwn ni ei wneud i annog gwasg genedlaethol gryf a bywiog ac i sicrhau y gall Cymru gael craffu ar y lle hwn ac ar fywyd cyhoeddus yn gyffredinol?

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

While this is not within our direct responsibility, the Minister for Housing, Regeneration and Heritage wrote last week to the chief executive of Trinity Mirror and to the editor-in-chief of Media Wales to express our concern and disappointment collectively as a Government.

Er nad yw hyn o fewn ein cyfrifoldeb uniongyrchol, ysgrifennodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth at brif weithredwr Trinity Mirror ac at brif olygydd Media Wales yr wythnos diwethaf i fynegi ein pryder a'n siom ar y cyd fel Llywodraeth.

14:17 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I have had confirmation today that the minor injuries units at Colwyn Bay, Ruthin, Llangollen, Flint and Chirk will close within the next fortnight, that admissions to in-patient beds at Prestatyn, Llangollen and Flint will be slowed down with immediate effect and that changes to x-ray service provision at Tywyn, Blaenau Ffestiniog and Ruthin will be undertaken as soon as possible. Is it not astounding that Besti Cadwaladr health board is implementing its proposed changes before the community health council has given its formal response? In terms of accountability and Government, the Minister for health was telling us in 'The Daily Post' just last weekend that the buck stops with her. Is it acceptable, therefore, that the health board is riding roughshod over the CHC and the Minister, and ploughing on regardless?

Brif Weinidog, rwyf wedi cael cadarnhad heddiw y bydd yr unedau mân anafiadau ym Mae Colwyn, Rhuthun, Llangollen, y Fflint a'r Waun yn cau o fewn y pythefnos nesaf, y caiff derbyniadau i welyau cleifion mewnol ym Mhrestatyn, Llangollen a'r Fflint eu harafu ar unwaith ac y gwneir newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth pelydr-x yn Nhywyn, Blaenau Ffestiniog a Rhuthun cyn gynted â phosibl. Onid yw'n rhyfeddol bod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn gweithredu eu newidiadau arfaethedig cyn i'r cyngor iechyd cymunedol roi ei ymateb ffurfiol? O ran atebolrwydd a'r Llywodraeth, roedd y Gweinidog iechyd yn dweud wrthym yn y 'Daily Post' y penwythnos diwethaf mai ei phenderfyniad hi fyddai'n derfynol. A yw hi'n dderbyniol, felly, fod y bwrdd iechyd yn anwybyddu'r CIC a'r Gweinidog, ac yn bwrw ymlaen beth bynnag?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I was aware of the decision that was taken by Betsi Cadwaladr health board just before First Minister's questions began. What I can say is that it is a matter now for the community health council to consider its response to the decision that has been taken.

Roeddwn yn ymwybodol o'r penderfyniad a wnaeth bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ychydig cyn i'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddechrau. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw mai lle'r cyngor iechyd cymunedol nawr fydd ystyried ei ymateb i'r penderfyniad sydd wedi'i wneud.

### Unedau Mân Anafiadau

### Minor Injuries Units

14:18 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth unedau mân anafiadau yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0896(FM)*

*13. Will the First Minister make a statement concerning the provision of minor injuries units in South Wales East. OAQ(4)0896(FM)*

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are a number of MIUs in the South Wales East area, and health boards are committed to ensuring a safe and sustainable service, both now and in the future.

Mae nifer o Unedau Mân Anafiadau yn ardal Dwyrain De Cymru, ac mae byrddau iechyd wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaeth diogel a chynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

14:18 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. Of course, there are now considerably fewer minor injuries units in south-east Wales, with the closure of the units at Chepstow, Monmouth and Panteg. Will the First Minister outline what considerations may be given with regard to the future of the minor injuries unit at Ebbw Vale?

Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Wrth gwrs, erbyn hyn mae llawer llai o unedau mân anafiadau yn y de-ddwyrain, yn dilyn cau'r unedau yng Nghas-gwent, Trefynwy a Phant-teg. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa ystyriaethau y gellid eu rhoi ynghylch dyfodol yr uned mân anafiadau yng Nglynebwy?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The health board has confirmed that it has no plans to close the MIU at the Aneurin Bevan hospital. With regard to the other three MIUs, part of the problem was that they were only seeing five patients a day. It is difficult to keep a minor injuries unit going with that level of service. It is said by the medics that an individual service needs to see at least 25 patients a day in order to be viable. That was the problem in terms of the numbers of people who were using the service in the course of the day.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i gau Uned Mân Anafiadau ysbyty Aneurin Bevan. O ran y tair Uned arall, rhan o'r broblem oedd mai dim ond pum claf y dydd yr oeddent yn eu gweld. Mae'n anodd cadw uned mân anafiadau ar agor gyda'r lefel honno o wasanaeth. Mae'r meddygon yn dweud bod ar wasanaeth unigol angen gweld o leiaf 25 o gleifion y dydd er mwyn bod yn hyfyw. Dyna oedd y broblem o ran nifer y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn ystod diwrnod.

## Carchar Mawr

## Superprison

14:19 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyhoeddiad bod gogledd Cymru yn un o safleoedd posibl Llywodraeth y DU ar gyfer carchar mawr. OAQ(4)0891(FM)*

*14. Will the First Minister make a statement on the announcement that north Wales is one of the UK Government's candidate sites for a super prison. OAQ(4)0891(FM)*

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We welcome the proposals for an improved prison estate and the UK Government's recognition of the potential for the north as one of the suggested sites for a major new prison.

Rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer ystâd carchardai gwell a chydnabyddiaeth Llywodraeth y DU o botensial y gogledd fel un o'r safleoedd a awgrymwyd ar gyfer carchar mawr newydd.

14:19 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Although it is non-devolved and as the UK Government begins the largest programme of prison closures in decades, this issue is incredibly important for those of us in north Wales and in communities right across Wales. I am beginning to think that a case for a new prison in north Wales is compelling, given that the old Victorian network is crumbling and expensive. Many prisoners from north Wales are often placed many miles away from their support networks, which makes rehabilitation difficult after their prison sentence is served. What representations will your Government make to the UK Government to ensure that communities are properly consulted, should a site in north Wales be the preferred option of the UK Government?

Er nad yw'n ddatganoledig ac wrth i Lywodraeth y DU ddechrau'r rhaglen fwyaf o gau carchardai ers degawdau, mae'r mater hwn yn hynod o bwysig i'r rheini ohonom yn y gogledd ac mewn cymunedau ledled Cymru. Rwyf yn dechrau meddwl bod achos o blaid carchar newydd yn y gogledd yn un grymus, o gofio bod yr hen rwydwaith Fictoraidd yn dadfeilio ac yn ddrud. Mae llawer o garcharorion o'r gogledd yn aml yn cael eu lleoli filltiroedd lawer oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth, sy'n ei gwneud yn anodd eu hadsefydlu ar ôl iddynt gwblhau eu cyfnod yn y carchar. Pa sylwadau y bydd eich Llywodraeth yn eu gwneud i Lywodraeth y DU i sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â chymunedau, pe byddai Llywodraeth y DU yn dewis safle yng ngogledd Cymru?

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have expressed the Welsh Government's support to the Secretary of State for Wales, in terms of the prison. Welsh Government officials are already working with their counterparts in the Ministry of Justice to explore the detail of these proposals, and officials will impress upon MOJ officials the importance of consulting with communities, should the north of Wales be identified as a preferred site.

Rwyf wedi mynegi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, o ran y carchar. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes yn cydweithio â'u cymheiriaid yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio manylion y cynigion hyn, a bydd swyddogion yn pwysleisio wrth swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder pa mor bwysig yw ymgynghori â chymunedau, pe byddai gogledd Cymru yn cael ei enwi fel safle a ffefrir.

14:20 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome your statement that you are working with the Secretary of State on this, which is an important matter following the announcement on 10 January. However, you will be aware that there are a number of potential sites being discussed for north Wales, quite apart from the debate about ensuring that north Wales is the winner against north-west England and London. What role is the Welsh Government playing in assessing the feasibility of those sites, particularly given that, in 2009, the Caernarfon site was cancelled on the basis that it was no longer considered feasible for the proposed provision?

Rwyf yn croesawu eich datganiad eich bod yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar hyn; mae'n fater pwysig yn dilyn y cyhoeddiad ar 10 Ionawr. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod nifer o safleoedd posibl yn cael eu trafod ar gyfer y gogledd, yn hollol ar wahân i'r ddadl ynglŷn â sicrhau bod gogledd Cymru yn fuddugol yn erbyn gogledd-orllewin Lloegr a Llundain. Pa ran y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae o ran asesu dichonoldeb y safleoedd hynny, yn enwedig o ystyried bod safle Caernarfon wedi ei ganslo yn 2009 ar y sail nad oedd yn cael ei ystyried yn ddichonadwy mwyach ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig?

14:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I said, we are working with the MOJ in terms of what sites it is looking to identify. It is important that a site in the north of Wales is identified as a site for a prison. As part of that work, examining the potential sites will be important to ensure that the prison goes ahead.

Fel y dywedais, rydym yn cydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ran pa safleoedd y mae'n ceisio eu nodi. Mae'n bwysig bod safle yng ngogledd Cymru'n cael ei nodi fel safle ar gyfer carchar. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, bydd yn bwysig archwilio'r safleoedd posibl i sicrhau bod y carchar yn digwydd.

14:22 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf i, hefyd, yn croesawu eich datganiad y prynhawn yma. Mae nifer o safleoedd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. A ydych chi'n ffyddiog bod yr holl asesiadau amgylcheddol yn eu lle ar gyfer y safleoedd hynny?

I, too, welcome your statement this afternoon. There are a number of sites that are within the ownership of the Welsh Government. Are you confident that all of the environmental assessments are in place for those sites?

14:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny yn rhywbeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ei ystyried yn ei hasesiad hi. Fodd bynnag, rydym yn ddigon parod i weithio gyda hi er mwyn sicrhau bod pob asesiad y dylid ei wneud yn cael ei wneud.

This is something for the United Kingdom Government to consider as part of its assessment. However, we are very willing to collaborate with the Government to ensure that every assessment that should be undertaken is undertaken.

14:22

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

There are no changes to report to this week's business, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among agenda papers available to Members electronically.

Nid oes dim newidiadau i'w hadrodd i'r busnes sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr wythnos hon, a bydd y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i nodir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes a welir ymysg y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:22 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Is it possible to have a statement from the Minister for education on the process for school closures? You will be aware that, in the Vale of Glamorgan, the closure threat will be hanging over two of its most successful schools, which are marked as excellent in Estyn's reports. Only 3% of schools in Wales are marked as excellent. They are at full capacity with waiting lists, and, for some perverse reason, the Labour local authority is deeming these schools fit for closure. Could we have a statement from the Minister to identify what the Welsh Government policy is exactly, given that these schools have had such resounding success in the education system and yet a local authority is proposing their closure?

A yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog addysg am y broses ar gyfer cau ysgolion? Byddwch yn ymwybodol bod dwy o'r ysgolion mwyaf llwyddiannus ym Mro Morgannwg yn wynebu'r bygythiad o gael eu cau, ar ôl derbyn dyfarniad 'rhagorol' yn adroddiadau Estyn. Dim ond 3% o ysgolion yng Nghymru sy'n cael eu marcio'n rhai rhagorol. Maent yn gwbl lawn gyda rhestrau aros, ac, am ryw reswm gwrthnysig, mae'r awdurdod lleol Llafur o'r farn bod yr ysgolion hyn yn addas ar gyfer eu cau. A gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog i nodi beth yn union yw polisi Llywodraeth Cymru, o gofio bod yr ysgolion hyn wedi cael llwyddiant mor ysgubol yn y system addysg, ac eto bod awdurdod lleol yn cynnig eu cau?

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware that there has been extensive consultation and discussion about the policy and guidance for local authorities in relation to school closures. Indeed, it is an important task to address surplus places, but I do not believe that any further statements are needed. However, we must respect that it is now the role of the local authority to address these issues.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol y bu ymgynghori a thrafodaethau helaeth am y polisi a'r canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch cau ysgolion. Yn wir, mae'n dasg bwysig rhoi sylw i leoedd dros ben, ond ni chredaf fod angen unrhyw ddatganiadau pellach. Fodd bynnag, rhaid i ni barchu'r ffaith mai swyddogaeth yr awdurdod lleol yw ymdrin â'r materion hyn bellach.

14:24 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we have an update on the work of the ministerial task and finish group on the effects of the welfare reforms on Wales? I am being increasingly contacted by constituents who are in desperate straits as a result of the UK Government's corrosive policies. That is further fuelled by widespread labelling of those claiming disability benefits as 'scroungers' or 'fakers', which is a rhetoric that is eagerly adopted by some elements of the media and which, therefore, has dire repercussions for those stigmatised. We know that language does matter, so could we have a statement on what the Welsh Government can do to challenge these inaccurate and incendiary stereotypes?

A gawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar effaith y diwygiadau lles ar Gymru? Mae mwy a mwy o etholwyr yn cysylltu â mi mewn sefyllfa enbyd o ganlyniad i bolisïau difaol Llywodraeth y DU. Caiff hynny ei waethygu gan labelu eang o'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau anabledd fel 'lloffwyr' neu 'ffugwyr', sef rhethreg sy'n cael ei mabwysiadu'n eiddgar gan rai elfennau o'r cyfryngau ac sydd, felly, yn peri goblygiadau enbyd i'r rheini sy'n cael eu gwaradwyddo. Rydym yn gwybod bod iaith yn bwysig, felly a gawn ni ddatganiad ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i herio'r stereoteipiau anghywir ac enynnol hyn?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Cynon Valley for that question. The views of the Welsh Government have been well made in terms of our deep concern about the scale, scope and pace of the changes being introduced by the UK Government as far as welfare reform is concerned. The Member makes and additional and important point about language. This is a language that I would describe as bordering on hate crime. Certainly, it is turning the clock back in relation to our wish to promote equality and recognise the needs of vulnerable people and the rights of disabled people. This is something that, of course, we will address as we deal with ways in which we can assess the adverse impact of welfare reform on Welsh people.

Diolch i Aelod Cwm Cynon am y cwestiwn yna. Mae barn Llywodraeth Cymru wedi'i chofnodi'n aml o ran ein pryder dwfn am gwmpas, graddfa a chyflymder y newidiadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU ym maes diwygio lles. Mae'r Aelod yn gwneud pwynt ychwanegol a phwysig am iaith. Mae hyn yn cynrychioli iaith y byddwn yn ei disgrifio fel bod yn ymylu ar drosedd casineb. Yn sicr, mae'n troi'r cloc yn ôl o ran ein dymuniad i hyrwyddo cydraddoldeb a chydnabod anghenion pobl agored i niwed a hawliau pobl anabl. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn, wrth gwrs, yn rhoi sylw iddo wrth i ni ymdrin â ffyrdd y gallwn asesu effaith andwyol diwygio lles ar bobl Cymru.

14:25 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I was wondering whether, following the latest round of redundancies at Media Wales, we could have an update from the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, Huw Lewis, on the progress of the task and finish group's report on the state of the media in Wales. I know that there were recommendations in that report with regard to looking at alternatives in relation to funding e-co-operatives. The First Minister mentioned that he had written to Trinity Mirror. I wonder whether, in the spirit of openness and accountability, you could advertise those letters on the website so that we, as AMs, can see what he said to the bosses of Trinity Mirror.

Weinidog, roeddwn yn meddwl tybed, yn dilyn y rownd ddiweddaraf o ddiswyddiadau yn Media Wales, a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Huw Lewis, am gynnydd o ran adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyflwr y cyfryngau yng Nghymru. Gwn fod argymhellion yn yr adroddiad hwnnw ar gyfer edrych ar ddewisiadau eraill o ran ariannu e-gydweithfeydd. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod wedi ysgrifennu at Trinity Mirror. Tybed a allech chi, er didwylledd ac atebolrwydd, hysbysebu'r llythyrau hynny ar y wefan fel y gallwn ni, fel ACau, weld yr hyn a ddywedodd wrth feistri Trinity Mirror.

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Bethan Jenkins for that question. I am sure that the Minister and the First Minister will be prepared to give an update not only on the task and finish group, but on the representations that they have made to Trinity Mirror. I know that the tone of those letters were about how the Welsh Government hopes and expects that Trinity Mirror will do all it can to ensure that the distinct content its Welsh readership currently enjoys is retained should these proposals go ahead.

Diolch i Bethan Jenkins am y cwestiwn yna. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog a'r Prif Weinidog yn barod i roi diweddariad nid yn unig ar y grŵp gorchwyl a gorffen, ond ar y sylwadau y maent wedi eu gwneud i Trinity Mirror. Gwn fod naws y llythyrau hynny yn ymwneud â sut y mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio ac yn disgwyl y bydd Trinity Mirror yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod y cynnwys neilltuol y mae eu darllenwyr yng Nghymru'n ei fwynhau ar hyn o bryd yn cael ei gadw pe bai'r cynigion hyn yn mynd yn eu blaenau.

14:26 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to request a statement from the Minister for Health and Social Services on the availability of pegvisomant , otherwise known as Somavert, on the Welsh NHS. As the Government is aware, this drug is available for the treatment of extreme acromegaly under the NHS in England but not in Wales. Given the suitability of this form of treatment in extreme cases of the disorder, I would welcome an update on the work that the Welsh Government has undertaken since the drug went before the All Wales Medicines Strategy Group in 2005, and on whether it would consider calling on the drug's manufacturers to resubmit the drug for consideration in the light of its use across the border so that Welsh and English patients can be treated with equity?

Hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ba un a yw pegvisomant, a elwir hefyd yn Somavert, ar gael drwy'r GIG yng Nghymru. Fel y mae'r Llywodraeth yn gwybod, mae'r cyffur hwn ar gael i drin acromegaledd eithafol dan y GIG yn Lloegr ond nid yng Nghymru. O ystyried addasrwydd y math hwn o driniaeth mewn achosion eithafol o'r anhwylder, byddwn yn croesawu diweddariad am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ers i'r cyffur fynd gerbron Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn 2005, ac a fyddai'n ystyried galw ar weithgynhyrchwyr y cyffur i ailgyflwyno'r cyffur i'w ystyried yng ngoleuni ei ddefnydd ar draws y ffin er mwyn i gleifion Cymru a Lloegr gael eu trin yn gyfartal?

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As the Member knows, we respect the views and outcomes of the assessment by the All Wales Medicines Strategy Group of the effectiveness of this drug. I know that the Minister will want to provide an update on developments as far as that is concerned.

Fel y mae'r Aelod yn gwybod, rydym yn parchu barn a chanlyniadau'r asesiad gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan am effeithiolrwydd y cyffur hwn. Gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn.

14:28

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to call for two statements, one of which is local with national implications, while the other is national with local implications. First, the Minister may be aware of the exciting discovery at the Croes Atti development in Oakenholt in Flintshire, where Roman artefacts and a Roman road have been unearthed. However, although Cadw is aware of the historical importance of the site, because planning permission has been granted, I believe that archaeologists have been given only three weeks to uncover any other historically important finds that may exist before the site is bulldozed. Therefore, it would be welcomed if the Welsh Government could make a statement on Cadw's role and how any powers that may exist could be used to ensure that adequate time is given to inspect this important historical site before further development goes ahead.

Hoffwn alw am ddau ddatganiad—un lleol sydd â goblygiadau cenedlaethol, ac un cenedlaethol sydd â goblygiadau lleol. Yn gyntaf, efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r darganfyddiad cyffrous yn natblygiad Croes Atti yn Oakenholt yn Sir y Fflint, lle mae arteffactau Rhufeinig a ffordd Rufeinig wedi cael eu dadorchuddio. Fodd bynnag, er bod Cadw yn ymwybodol o bwysigrwydd hanesyddol y safle, gan fod caniatâd cynllunio wedi'i roi, credaf mai dim ond tair wythnos y mae archeolegwyr wedi'i gael i ddadorchuddio unrhyw ddarganfyddiadau hanesyddol eraill pwysig a all fodoli yno cyn i'r safle gael ei orchuddio. Felly, byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru am swyddogaeth Cadw a sut y gellid defnyddio unrhyw bwerau sy'n bodoli i sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i archwilio'r safle hanesyddol, pwysig hwn cyn i ddatblygiad pellach ddigwydd.

Secondly, I would like to endorse the previous request for a statement on the Trinity Mirror announcements. The Minister may be aware that this has impacted not only in south Wales but in north Wales, namely on papers such as 'The Daily Post', 'The Flintshire Chronicle', the 'Caernarfon & Denbigh Herald', 'Holyhead and Anglesey Mail' and the 'North Wales Weekly News.' I welcome your statements regarding the Welsh Government's concern—which is clearly shared across the Chamber—to protect national and regional content from within Wales and to be culturally sensitive. However, I am advised by an affected journalist that a new shared content unit is being set up in Liverpool. This will produce generic features to be supplied to all Trinity Mirror regional titles, not specific to Wales, with, therefore, a threat to the coverage of Wales's unique culture, language, history, sense of nationhood and devolved politics, and the work that the Welsh Government and the Assembly does. Therefore, could we have a statement addressing the points that were raised earlier, as well as, more broadly, addressing the hopefully detailed discussion that the Welsh Government is having with Trinity Mirror regarding its coverage of the strong importance of Welsh content and sensitivity in the future?

Yn ail, hoffwn gymeradwyo'r cais blaenorol am ddatganiad ar gyhoeddiadau Trinity Mirror.  Efallai fod y Gweinidog yn ymwybodol bod hyn wedi effeithio ar y gogledd yn ogystal â'r de, ar bapurau fel y 'Daily Post', 'The Flintshire Chronicle', y 'Caernarfon & Denbigh Herald', 'Holyhead and Anglesey Mail' a'r 'North Wales Weekly News.' Croesawaf eich datganiadau am bryder Llywodraeth Cymru—sy'n amlwg yn cael ei rannu ar draws y Siambr—i amddiffyn cynnwys cenedlaethol a rhanbarthol o'r tu mewn i Gymru a bod yn sensitif yn ddiwylliannol. Fodd bynnag, mae newyddiadurwr yr effeithir arno wedi dweud wrthyf bod uned cynnwys a rennir newydd yn cael ei sefydlu yn Lerpwl. Bydd hon yn cynhyrchu erthyglau generig i'w cyflenwi i holl deitlau rhanbarthol Trinity Mirror, nid yn benodol i Gymru, a bydd, felly, yn fygythiad i'r sylw a roir i ddiwylliant, iaith, hanes, ymdeimlad o genedligrwydd a gwleidyddiaeth ddatganoledig unigryw Cymru, a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn ei wneud. Felly, a allem ni gael datganiad i roi sylw i'r pwyntiau a godwyd yn gynharach, yn ogystal ag ymdrin yn fwy cyffredinol â'r drafodaeth fanwl, gobeithio, y mae Llywodraeth Cymru yn ei chynnal gyda Trinity Mirror am y sylw y maent yn ei roi i bwysigrwydd cryf sensitifrwydd a chynnwys Cymreig yn y dyfodol?

14:30

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of the response to those questions, one of which is very local, the new Roman find is of great interest; this has happened because of the importance of those archaeological investigations in terms of development. The local authority, as well as Cadw, will have an interest in responding to that. It is important, once again, that Mark Isherwood adds to other Members' views on the Trinity Mirror job losses. I recognise that this is not just a south Wales issue, and it is important that Members make their points on this issue clear in the Chamber.

O ran yr ymateb i'r cwestiynau hynny, ac un ohonynt yn lleol iawn, mae'r darganfyddiad Rhufeinig newydd o ddiddordeb mawr; mae hyn wedi digwydd oherwydd pwysigrwydd yr ymchwiliadau archeolegol hynny o ran datblygu. Bydd gan yr awdurdod lleol, yn ogystal â Cadw, ddiddordeb mewn ymateb i hynny. Mae'n bwysig, unwaith eto, bod Mark Isherwood yn ychwanegu at farn Aelodau eraill ar golledion swyddi yn Trinity Mirror. Rwyf yn cydnabod nad mater i'r de yn unig yw hwn, ac mae'n bwysig bod Aelodau'n gwneud eu pwyntiau ar y mater hwn yn glir yn y Siambr.

14:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In 2009, the UK adopted the Council of the European Union's recommendation that member states should put in place rare disease strategies to support people with rare diseases by the end of this year. This provides us with the opportunity to address some of those common problems that affect people with rare diseases, and to transform the care and support that they receive. I would welcome a statement from the Welsh Government on how it is working with the UK Government to develop that strategy, as well as some information as to how you intend to implement the strategy in Wales.

Yn 2009, mabwysiadodd y DU argymhelliad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd y dylai aelod wladwriaethau roi strategaethau clefydau prin ar waith i gefnogi pobl â chlefydau prin erbyn diwedd y flwyddyn hon. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni fynd i'r afael â rhai o'r problemau cyffredin sy'n effeithio ar bobl â chlefydau prin, ac i drawsnewid y gofal a'r gefnogaeth y maent yn ei gael. Byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru am sut y mae'n cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r strategaeth honno, yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth ynghylch sut yr ydych chi'n bwriadu rhoi'r strategaeth ar waith yng Nghymru.

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rebecca Evans raises an important point. We have often met here and have shared this issue on Rare Disease Day, in terms of its impact on people and their families. The consultation on the draft rare disease strategy has now ended. Responses are being analysed and published, and there are discussions across the four home countries about how best to take this forward. Wales is fully involved in those discussions, and the Minister for Health and Social Services will be able to influence how we take these matters forward in Wales.

Mae Rebecca Evans yn codi pwynt pwysig. Rydym wedi cyfarfod yma'n aml ac rydym wedi rhannu'r mater hwn ar Ddiwrnod Clefydau Prin, o ran ei effaith ar bobl a'u teuluoedd. Mae'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft clefydau prin wedi dod i ben erbyn hyn. Mae ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi, ac mae trafodaethau'n digwydd ar draws y pedair gwlad ynghylch y ffordd orau i symud ymlaen â hyn. Mae Cymru'n cymryd rhan lawn yn y trafodaethau hynny, a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu dylanwadu ar sut yr ydym yn symud ymlaen â'r materion hyn yng Nghymru.

14:32 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, given the recent concerns that the Welsh Government target to eradicate fuel poverty by 2018 will be missed, can we please have a statement on what action the relevant Minister is taking to give us a more accurate evidence base for the level of fuel poverty in Wales so that we can properly assess the scale of the task? In Scotland, the Scottish House Condition Survey gives figures on fuel poverty for 2011, yet, in Wales, estimates are largely based on the 2008 Living in Wales survey. Will the Government commit to producing what was promised in the fuel poverty evidence plan for fuel poverty levels in 2012? Can that statement give an update on how many energy improvement packages have been installed through Nest since the scheme started, and what are the annual targets for installations? What action will the Government take to promote the green deal, which offers huge potential for people in Wales, to make their homes more energy efficient and to reduce the cost of their fuel bills?

Weinidog, o ystyried y pryderon diweddar na fydd targed Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018 yn cael ei gyflawni, a gawn ni ddatganiad os gwelwch yn dda am y camau y mae'r Gweinidog perthnasol yn eu cymryd i roi sylfaen dystiolaeth gywirach i ni ar gyfer lefel y tlodi tanwydd yng Nghymru fel y gallwn asesu maint y dasg yn gywir? Yn yr Alban, mae Arolwg Cyflwr Tai yr Alban yn rhoi ffigurau ar dlodi tanwydd ar gyfer 2011, ac eto, yng Nghymru, mae amcangyfrifon yn seiliedig yn bennaf ar arolwg Byw yng Nghymru 2008. A wnaiff y Llywodraeth ymrwymo i gynhyrchu'r hyn a addawyd yn y cynllun tystiolaeth tlodi tanwydd ar gyfer lefelau tlodi tanwydd yn 2012? A all y datganiad hwnnw roi diweddariad ar sawl pecyn gwella ynni sydd wedi cael ei osod drwy Nest ers i'r cynllun ddechrau, a beth yw'r targedau blynyddol ar gyfer gosodiadau? Pa gamau fydd y Llywodraeth yn eu cymryd i hyrwyddo'r fargen werdd, sy'n cynnig potensial mawr i bobl yng Nghymru, er mwyn i'w cartrefi ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a lleihau cost eu biliau tanwydd?

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tackling fuel poverty is high on the priority agenda, not only of the Minister, but the Welsh Government. I will give the Assembly and the Member some updates on this issue. Since the establishment of our home energy efficiency scheme in 2001, which was replaced by Nest in 2011, we have invested more than £150 million to help make more than 127,000 Welsh homes more energy efficient. Nest energy improvement packages are estimated to deliver annual benefits averaging £550 per household. Some 6,700 energy improvement packages have been installed since April 2011. I am sure that the Member will welcome that update and those statistics. Furthermore, Arbed is making a huge difference in improving energy efficiency. I know of the commitment of the Member and his party to tackling fuel poverty, but the Welsh Government is leading the way in its response.

Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn uchel ar agenda blaenoriaethau'r Gweinidog ac ar agenda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rhoddaf rhai diweddariadau i'r Cynulliad a'r Aelod am y mater hwn. Ers sefydlu ein cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn 2001, a ddisodlwyd gan Nest yn 2011, rydym wedi buddsoddi mwy na £150 miliwn i helpu i wneud mwy na 127,000 o gartrefi Cymru'n fwy effeithlon o ran ynni. Amcangyfrifir bod pecynnau gwella ynni Nest yn darparu buddion blynyddol o £550 y cartref ar gyfartaledd. Mae tua 6,700 o becynnau gwella ynni wedi cael eu gosod ers mis Ebrill 2011. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn croesawu'r diweddariad yna a'r ystadegau yna. Ar ogystal â hynny, mae Arbed yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran gwella effeithlonrwydd ynni. Gwn am ymrwymiad yr Aelod a'i blaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ond mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn ei ymateb.

14:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When can we have a debate on the treatment of type 2 diabetes, following the research findings that were published by the medical school in my constituency of Cardiff North? Those findings noted that it is better to use means other than insulin to treat this form of the disease. I believe that we all know what a huge issue this is in Wales.

Pryd y cawn ni ddadl am driniaeth diabetes math 2, i ddilyn y canfyddiadau ymchwil a gyhoeddwyd gan yr ysgol feddygol yn fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd? Nododd y canfyddiadau hynny ei bod yn well defnyddio dulliau gwahanol i inswlin i drin y ffurf hwn ar y clefyd. Credaf ein bod i gyd yn gwybod pa mor enfawr yw'r broblem hon yng Nghymru.

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for that question. I recognise the research findings that have been undertaken at our medical school in Cardiff. As I am sure the Member is aware, the Welsh Government is consulting on a new diabetes delivery plan. Research is an important aspect of that, and the adoption of new practices and techniques will be assessed on a clinical basis and recommendations will be put forward on their adoption.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Rwyf yn cydnabod y canfyddiadau ymchwil a gafwyd yn ein hysgol feddygol yng Nghaerdydd. Fel yr wyf yn siŵr bod yr Aelod yn gwybod, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynllun cyflenwi newydd ar gyfer diabetes. Mae ymchwil yn agwedd bwysig ar hynny, a bydd mabwysiadu arferion a thechnegau newydd yn cael ei asesu ar sail glinigol, a chyflwynir argymhellion ar eu mabwysiadu.

14:35 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the House, could we have an update from the Minister for Health and Social Services on the progress being made with the health reconfiguration plans in south-east Wales—and I see that the Minister is shaking her head—and with the critical care centre in particular? This is one example in Wales where health reconfiguration plans have been pretty much accepted very well by local people, and it is a good example of where good practice can be spread across Wales to other parts of the health service.

Arweinydd y Tŷ, a allem ni gael diweddariad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r cynlluniau ad-drefnu iechyd yn y de-ddwyrain—a gallaf weld bod y Gweinidog yn ysgwyd ei phen—a gyda'r ganolfan gofal critigol yn benodol? Mae hwn yn un enghraifft yng Nghymru lle mae cynlluniau ad-drefnu iechyd mwy neu lai wedi eu derbyn gan bobl leol, ac mae'n enghraifft dda o ble y gellir lledaenu arfer da ar draws Cymru i rannau eraill o'r gwasanaeth iechyd.

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was a very constructive contribution from Nick Ramsay this afternoon and I know that he has engaged very constructively as the Assembly Member for his constituency. I am sure that he will be glad, as we move forward in consultation with the community health council, the public and clinicians, to make his contribution.

Roedd hwnnw'n gyfraniad adeiladol iawn gan Nick Ramsay y prynhawn yma ac rwyf yn gwybod ei fod wedi ymgysylltu'n adeiladol iawn fel Aelod Cynulliad ar gyfer ei etholaeth. Rwyf yn siŵr y bydd yn falch, wrth i ni symud ymlaen mewn ymgynghoriad â'r cyngor iechyd cymunedol, y cyhoedd a chlinigwyr, o wneud ei gyfraniad.

14:36 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could you prevail upon the Minister for Health and Social Services to provide a statement on the performance of Nevill Hall Hospital? As you will be well aware, Minister, Nevill Hall Hospital provides district general hospital services for a significant proportion of my constituents in Brecon and Radnorshire. For two weeks running, first, in the accident and emergency department, and subsequently, in the emergency assessment unit, I have witnessed levels of service that no reasonable person would consider adequate, and a lack of capacity that puts a huge strain on patients, their families and the staff who have to work in that hospital.

Weinidog, a allech ddwyn perswâd ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi datganiad am berfformiad Ysbyty Nevill Hall? Fel y gwyddoch yn iawn, Weinidog, mae Ysbyty Nevill Hall yn darparu gwasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth i gyfran sylweddol o fy etholwyr ym Mrycheiniog a Maesyfed. Am ddwy wythnos yn olynol, yn gyntaf yn yr adran damweiniau ac achosion brys, ac yna yn yr uned asesiadau brys, rwyf wedi gweld lefelau gwasanaeth na fyddai unrhyw berson rhesymol yn ystyried eu bod yn ddigonol, a diffyg gallu sy'n rhoi straen enfawr ar gleifion, eu teuluoedd a'r staff sy'n gorfod gweithio yn yr ysbyty hwnnw.

I do not know about you, but I do not consider it acceptable that a nurse who should have finished her shift at 7.30 p.m. is still on the ward at 12.30 a.m. because she simply cannot leave her colleagues in the lurch. It is not acceptable that patients are waiting on beds, not just in corridors, but in waiting rooms; that doctors are having to discuss patients' cases with their families in such waiting rooms; and that people who have been assessed as needing to be admitted to that hospital have no bed to go to, but are told to remain in the hospital waiting room where they will be monitored overnight. I am sure, Minister, that you would not want constituents to be treated in such a fashion, and we need an urgent statement on the ability of Nevill Hall Hospital to cope at this present time.

Wn i ddim amdanoch chi, ond nid wyf fi'n ystyried ei bod yn dderbyniol bod nyrs a ddylai fod wedi gorffen ei shifft am 7.30 p.m. yn gorfod aros ar y ward tan 12:30 a.m. gan na all hi adael ei chydweithwyr mewn twll. Nid yw'n dderbyniol bod cleifion yn aros am welyau, nid yn unig mewn coridorau, ond mewn ystafelloedd aros; bod meddygon yn gorfod trafod achosion cleifion gyda'u teuluoedd mewn ystafelloedd aros o'r fath; a bod pobl sydd wedi cael asesiad yn dweud bod angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty'n methu cael gwely i fynd iddo, ond yn cael eu gorchymyn i aros yn ystafell aros yr ysbyty lle y byddant yn cael eu monitro dros nos. Yr wyf yn siŵr, Weinidog, na fyddech yn dymuno i etholwyr gael eu trin fel hyn, ac mae angen datganiad brys ar allu Ysbyty Nevill Hall i ymdopi ar hyn o bryd.

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly thank Kirsty Williams for that question and for bringing to our attention the concerns that she has witnessed herself. I am sure that she has brought this to the attention of the health board, but the Minister is here and has heard those concerns and I am sure she will want to respond accordingly.

Rwyf yn sicr yn diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn yna ac am dynnu ein sylw at y pryderon y mae hi wedi eu gweld ei hun. Rwyf yn siŵr ei bod wedi tynnu sylw'r bwrdd iechyd at hyn, ond mae'r Gweinidog yma ac mae wedi clywed y pryderon, ac rwyf yn siŵr y bydd hi'n awyddus i ymateb yn briodol.

14:38 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I request a statement on promoting active living and the take-up of sport among disadvantaged groups, with a particular focus on the impact that has on quality of life, long-term health and life expectancy. Some of the councils in my area, as you well know, are cutting back on leisure services in order to pay for a hike in senior officials' salaries. A timely statement on any support and guidance that the Government could offer would be extremely welcome indeed.

Weinidog, gofynnaf am ddatganiad ar hyrwyddo byw'n weithgar a chymryd rhan mewn chwaraeon ymhlith grwpiau difreintiedig, gyda phwyslais arbennig ar yr effaith a gaiff ar ansawdd bywyd, iechyd hirdymor a disgwyliad oes. Mae rhai o'r cynghorau yn fy ardal i, fel y gwyddoch yn iawn, yn cwtogi gwasanaethau hamdden er mwyn talu am godiad cyflog i uwch swyddogion. Byddai datganiad amserol am unrhyw gymorth ac arweiniad y gallai'r Llywodraeth eu cynnig yn cael ei groesawu'n fawr.

14:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that we would want to receive any evidence, but it is a matter for local authorities. Quite clearly, they have benefited from a very favourable settlement compared with the settlement for local government across the border. They have specific equality duties to which they must respond and deliver in terms of the strategic equality plan as a result of the Equality Act 2010, which we are seeking to implement in full, not just the Welsh Government, but through our partners in local government as well.

Rwyf yn siŵr yr hoffem dderbyn unrhyw dystiolaeth, ond mater i awdurdodau lleol yw hwn. Yn amlwg, maent wedi elwa o setliad ffafriol iawn o'i gymharu â'r setliad ar gyfer llywodraeth leol ar draws y ffin. Mae ganddynt ddyletswyddau cydraddoldeb penodol y mae'n rhaid iddynt ymateb a chyflenwi'n unol â hwy o ran y cynllun cydraddoldeb strategol o ganlyniad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yr ydym yn ceisio ei gweithredu'n llawn, nid dim ond yn Llywodraeth Cymru, ond drwy ein partneriaid mewn llywodraeth leol hefyd.

14:39

# Datganiad: Adolygiad o Gynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Interim

# Statement: Post-16 Planning and Funding Review: Interim Report

Senedd.tv
Fideo Video

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

In early 2011, I introduced three-year funding allocations for the first time in Wales. This was in line with Government commitments and challenging budget settlements. I opted to move to three-year budgets for post-16 education to bring about stability in the system, while my department undertook a root and branch review of funding arrangements for post-16 learners. I asked my officials to review the existing funding system to ensure that we are getting the best value for the Welsh pound, getting what is best for learners, what is best for the economy and what is best for the Welsh Government.

Yn gynnar yn 2011, cyflwynais ddyraniadau cyllid tair blynedd am y tro cyntaf yng Nghymru. Roedd hyn yn unol ag ymrwymiadau'r Llywodraeth a setliadau cyllideb heriol. Dewisais symud at gyllidebau tair blynedd ar gyfer addysg ôl-16 i sicrhau sefydlogrwydd yn y system, a chynhaliodd fy adran adolygiad gwraidd a brig o drefniadau ariannu ar gyfer dysgwyr ôl-16. Gofynnais i fy swyddogion adolygu'r system gyllido bresennol er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am y bunt Gymreig, yn cael yr hyn sydd orau i ddysgwyr, yr hyn sydd orau i'r economi a'r hyn sydd orau i Lywodraeth Cymru.

This interim report closes the first phase of this review. During this first phase, my department has looked to design a new system that is simple and fair, and delivers what learners and employers want and need. The findings of the review of qualifications support the strategic direction of travel that we propose as part of the post-16 planning and funding review. We want to move away from a system where the target is the numbers of qualifications that a learner achieves. The quantity of qualifications is not the important factor here; instead, we want the focus to be on what the learner achieves with the qualifications gained, such as progression to further learning, or to employment.

Mae'r adroddiad dros dro yn diweddu cam cyntaf yr adolygiad hwn. Yn ystod y cam cyntaf hwn, mae fy adran wedi ceisio cynllunio system newydd sy'n syml ac yn deg, ac sy'n darparu'r hyn sydd ei eisiau a'i angen ar ddysgwyr a chyflogwyr.  Mae canfyddiadau'r adolygiad o gymwysterau yn cefnogi'r cyfeiriad strategol yr ydym yn ei gynnig yn rhan o'r adolygiad cynllunio ac ariannu ôl-16. Rydym yn awyddus i symud oddi wrth system lle mai'r targed yw nifer y cymwysterau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Nid nifer y cymwysterau yw'r ffactor pwysig yma; yn hytrach, rydym am i'r pwyslais fod ar yr hyn y mae'r dysgwr yn ei gyflawni drwy ennill y cymwysterau, megis dilyniant i ddysgu pellach, neu i gyflogaeth.

We aim to have a new system in place for 2014-15 that will improve the efficiency, effectiveness and transparency of the post-16 planning and funding system to focus on better outcomes and progression for learners; to standardise the planning of provision across the school and college sectors to improve the information that we receive to help us to make better-informed decisions; and to encourage an appropriate balance between public and private sector funding of post-19 provision.

Rydym yn gobeithio y bydd gennym system newydd ar waith ar gyfer 2014-15 a fydd yn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a thryloywder y system cynllunio a chyllid ôl-16 i ganolbwyntio ar ganlyniadau a dilyniant gwell i ddysgwyr, i safoni'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth ar draws y sectorau ysgol a choleg i wella'r wybodaeth a dderbyniwn i'n helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus; ac i annog cydbwysedd priodol rhwng cyllid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddarpariaeth ôl-19.

The new system will have learners at its centre and enable providers to support the outcomes of that learning, rather than being bogged down by the detail of the planning and funding systems. The interim report proposes a new system that will move away from an output- based system to one that is focused on outcomes; one that starts asking why we fund rather than what we fund. This will ensure that public funding is used effectively and efficiently, that it will plan and fund at a programme level rather than qualification level, and programmes will be the foundation of the new system. It will empower providers of education to get on with giving learners the best possible skills and education to help them to progress, instead of burying them under a mountain of bureaucracy that prevents them from having the time to deliver effectively on the ground, and it will maintain stability through grant funding that would be reviewed on a rolling three-year basis. Knowing what funding will be received will provide stability to allow more time for providers to focus on learners.

Bydd y system newydd yn canolbwyntio ar ddysgwyr ac yn galluogi darparwyr i gefnogi canlyniadau'r dysgu hwnnw, yn hytrach na chael eu llethu gan fanylion y systemau cynllunio a chyllido. Mae'r adroddiad dros dro yn cynnig system newydd a fydd yn symud oddi wrth system sy'n seiliedig ar allbynnau i un sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; un sy'n dechrau gofyn pam yr ydym yn ariannu yn hytrach na beth yr ydym yn ei ariannu. Bydd hyn yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon, y ceir cynllunio ac ariannu ar lefel rhaglenni'n hytrach nag ar lefel cymwysterau, ac mai rhaglenni fydd sylfaen y system newydd. Bydd yn grymuso darparwyr addysg i barhau i roi i ddysgwyr y sgiliau a'r addysg gorau posibl i'w helpu i symud ymlaen, yn hytrach na'u claddu dan fynydd o fiwrocratiaeth sy'n eu hatal rhag cael amser i gyflawni'n effeithiol ar y ddaear, a bydd yn cynnal sefydlogrwydd drwy gyllid grant a fyddai'n cael ei adolygu ar sail cyfnod treigl o dair blynedd. Bydd gwybod pa gyllid a geir yn rhoi sefydlogrwydd i ganiatáu mwy o amser i ddarparwyr ganolbwyntio ar ddysgwyr.

The new system will be simpler and more user-friendly for our providers, but it will also call for a change in cultures and mindsets. The new system will promote the purpose and quality of the learning on offer. By focusing on programmes of learning rather than on individual qualifications, it will provide education and skills that better equip learners for the world of work. We need to invest in learner journeys that improve those learners' life chances as they prepare for employment or further learning. We expect the new system to drive behaviours that contribute to the future economic growth of Wales.

Bydd y system newydd yn symlach ac yn haws i'n darparwyr ei defnyddio, ond bydd hefyd yn galw am newid mewn diwylliannau a ffyrdd o feddwl. Bydd y system newydd yn hyrwyddo diben ac ansawdd y dysgu sydd ar gael. Drwy ganolbwyntio ar raglenni dysgu yn hytrach nag ar gymwysterau unigol, bydd yn darparu addysg a sgiliau sy'n paratoi dysgwyr yn well ar gyfer byd gwaith. Mae angen i ni fuddsoddi mewn teithiau dysgwyr sy'n gwella cyfleoedd bywyd y dysgwyr hynny wrth iddynt baratoi am gyflogaeth neu ddysgu pellach. Rydym yn disgwyl i'r system newydd sbarduno ymddygiad a fydd yn cyfrannu at dwf economaidd Cymru yn y dyfodol.

You will note that this is an interim report. The report is intended to give Members an update on where we are with the review, and it forms part of our consultative process. It gives all stakeholders the opportunity to have an input into the development of the new system at the conceptual stage, to ensure that the system can be used and understood by all, and not just those facing direct impacts on planning and funding.

Byddwch yn nodi mai adroddiad dros dro yw hwn. Bwriad yr adroddiad yw rhoi diweddariad i'r Aelodau am ein sefyllfa o ran yr adolygiad, ac mae'n ffurfio rhan o'n proses ymgynghori. Mae'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid i gyfrannu at ddatblygu'r system newydd yn ystod y cam cysyniadol, er mwyn sicrhau y bydd pawb yn gallu defnyddio a deall y system, nid dim ond y rhai sy'n wynebu effeithiau uniongyrchol ar gynllunio ac ariannu.

My officials are now working on the second phase of the project, which involves producing a final report that will detail exactly how the new system will work and what it will mean in terms of funding for our providers. Working with relevant stakeholders, we will also be looking at funding uplifts such as deprivation, Welsh-medium provision and rurality with regard to their purpose, their use and their level. We need to look at the current use of education as a key to getting out of poverty.

Mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio ar ail gam y prosiect, sy'n cynnwys cynhyrchu adroddiad terfynol i roi manylion o sut yn union y bydd y system newydd yn gweithio a beth y bydd yn ei olygu o ran cyllid i'n darparwyr. Drwy gydweithio â rhanddeiliaid perthnasol, byddwn hefyd yn edrych ar ddiben, defnydd a lefel codiadau cyllid ar gyfer amddifadedd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a mannau gwledig. Mae angen i ni edrych ar sut y caiff addysg ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel ateb i ddod allan o dlodi.

Implementing the new system will not be a 'big bang approach'—the changes will not happen overnight, but will be incremental. I am happy to answer questions from Members.

Ni fydd gweithredu'r system newydd yn 'glec fawr'—ni fydd y newidiadau'n digwydd dros nos, ond byddant yn gynyddol. Rwyf yn hapus i ateb cwestiynau gan Aelodau.

14:43

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am most grateful to the Minister for providing this interim report today. We offer our support, particularly for his implementation of three-year funding, which was introduced last year, but I recall as Chair of the education committee in 1999 that there was cross-party support for this, although it has taken a long time to implement it. I understand that previous Ministers for education did their best, so I congratulate you on that.

Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ddarparu'r adroddiad dros dro hwn heddiw. Rydym yn cynnig ein cefnogaeth, yn enwedig i'r cyllid tair blynedd y mae'n ei weithredu, a gyflwynwyd y llynedd, ond cofiaf fel Cadeirydd y pwyllgor addysg yn 1999 y cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i hyn, er ei bod wedi cymryd amser hir i'w weithredu. Deallaf fod Gweinidogion addysg blaenorol wedi gwneud eu gorau, felly rwyf yn eich llongyfarch ar hynny.

Education providers will rejoice to hear you say that you will reduce the mountain of bureaucracy—a very laudable aim, on which we will no doubt question you in the future.

Bydd darparwyr addysg yn llawenhau o'ch clywed yn dweud y byddwch yn lleihau'r mynydd o fiwrocratiaeth—nod canmoladwy iawn, ac mae'n sicr y byddwn yn eich holi amdano yn y dyfodol.

You say that you will be focusing on programmes of learning rather than on individual qualifications, and although I understand what you mean by this, some questions need to be asked regarding how you will enable employers to select if there is not this emphasis on qualification, which, I admit, has often been overdone in this past.

Rydych yn dweud y byddwch yn canolbwyntio ar raglenni dysgu yn hytrach nag ar gymwysterau unigol, ac er fy mod yn deall yr hyn sydd gennych mewn golwg, mae angen gofyn rhai cwestiynau am sut y byddwch yn galluogi cyflogwyr i ddewis os na cheir y pwyslais hwn ar gymwysterau, sydd, rwyf yn cyfaddef, yn aml wedi'i orwneud yn y gorffennol.

Funding uplifts such as deprivation, Welsh-medium provision and rurality are very important, and are to be welcomed. The adoption of the Welsh baccalaureate as a basis for the programme of learning must be further reviewed and improved if our education structure is to be based upon it and our university aspirants are not to be held back by a different system to the majority of applicants.

Mae codi cyllid ar gyfer materion megis amddifadedd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a mannau gwledig yn bwysig iawn, a dylid croesawu hynny. Rhaid gwneud mwy i adolygu a gwella'r broses o fabwysiadu bagloriaeth Cymru fel sail i'r rhaglen ddysgu os bydd ein strwythur addysg yn seiliedig arni, er mwyn osgoi sefyllfa lle caiff ein darpar fyfyrwyr prifysgol eu dal yn ôl gan system wahanol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr.

Minister, we truly hope that the new system will have learners at its centre and support the outcomes of that learning. We welcome your final report.

Weinidog, rydym wirioneddol yn gobeithio y bydd y system newydd yn canolbwyntio ar ddysgwyr ac yn cefnogi canlyniadau'r dysgu hwnnw. Rydym yn croesawu eich adroddiad terfynol.

14:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the acting opposition education spokesperson for his comments. I was pleased to hear his support for the previous national planning and funding system, which was implemented by my predecessor and which helped to equalise things between schools and colleges, and had a focus on credits at its core.

Hoffwn ddiolch i lefarydd addysg dros dro'r wrthblaid am ei sylwadau. Roeddwn yn falch o glywed ei gefnogaeth i'r system gynllunio a chyllido genedlaethol flaenorol, a roddwyd ar waith gan fy rhagflaenydd ac a helpodd i gydraddoli pethau rhwng ysgolion a cholegau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gredydau.

In order to address the issue of reducing bureaucracy, we are looking to move from a credit-based model, pure and simple. We are looking to move to look at programmes of study, rather than individual qualifications. This is in line with the Wolf report in England, which makes similar points about the need to avoid qualifications for qualifications' sake, and looked at the idea that institutions should be expected to offer coherent programmes of study, rather than simply trying to amass a large number of entrants for an individual qualification. We have taken some of that learning on board in developing this. He makes a valid point about businesses and their expectations and that is why we wanted to have this interim stage, so that people can make representations on issues such as that.

Er mwyn mynd ati i leihau biwrocratiaeth, rydym yn edrych ar symud oddi wrth fodel sy'n seiliedig ar gredydau, yn syml. Rydym yn bwriadu symud at edrych ar raglenni astudio, yn hytrach nag ar gymwysterau unigol. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiad Wolf yn Lloegr, sy'n gwneud pwyntiau tebyg am yr angen i osgoi cymwysterau er mwyn cymwysterau, ac yn edrych ar y syniad y dylid disgwyl i sefydliadau gynnig rhaglenni astudio cydlynol, yn hytrach na dim ond ceisio sicrhau nifer fawr o ymgeiswyr ar gyfer cymhwyster unigol. Rydym wedi ystyried rhywfaint o'r dysgu hwnnw wrth ddatblygu hyn. Mae'n gwneud pwynt dilys ynghylch busnesau a'u disgwyliadau a dyna pam yr oeddem am gael y cyfnod interim hwn, fel y gall pobl wneud sylwadau am faterion o'r fath.

Finally, in respect of what he says about the Welsh baccalaureate, I welcome his support for that. He will be aware of what my colleague the Deputy Minister for Skills said in introducing the Government response to the review of qualifications: we intend to ensure, as this goes forward, that the Welsh baccalaureate at the advanced level will be graded from this coming September. We intend to place it on a more rigorous basis in future, and market that more rigorous Welsh baccalaureate to employers and institutions of higher education.

Yn olaf, o ran yr hyn a ddywed am fagloriaeth Cymru, rwyf yn croesawu ei gefnogaeth iddi. Bydd yn ymwybodol o'r hyn a ddywedodd fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, wrth gyflwyno ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad o gymwysterau: rydym yn bwriadu sicrhau, wrth i hyn symud ymlaen, y bydd bagloriaeth Cymru ar y lefel uwch yn cael ei graddio o fis Medi eleni ymlaen. Rydym yn bwriadu ei rhoi ar sail fwy trwyadl yn y dyfodol, a marchnata'r fagloriaeth Cymru fwy trwyadl honno i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

14:47

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I also thank you for your statement on the interim report. I look forward to the final report, with the detail in it, being issued later this year. I appreciate the fact that we are now looking at the outcomes of the qualifications gained, not the qualifications themselves—in other words, what the student will be able to achieve with that outcome.

Weinidog, diolch i chi hefyd am eich datganiad am yr adroddiad dros dro. Rwyf yn edrych ymlaen at yr adroddiad terfynol, a'r manylion ynddo, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith ein bod nawr yn edrych ar ganlyniadau'r cymwysterau a enillwyd, nid ar y cymwysterau eu hunain—mewn geiriau eraill, yr hyn a fydd y myfyriwr yn gallu ei gyflawni gyda'r canlyniad hwnnw.

I have a couple of questions that I hope you will not mind answering. Does this focus on full-time courses? Will there be consideration of full-time equivalents and part-time courses? A lot of post-16 FE courses are part-time and include people who want to return to education and to work.

Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau y gobeithiaf y byddwch yn fodlon eu hateb. A yw hyn yn canolbwyntio ar gyrsiau llawn-amser? A roddir ystyriaeth i gyrsiau cyfwerth ag amser llawn a chyrsiau rhan-amser? Mae llawer o gyrsiau ôl-16 AB yn rhai rhan-amser ac yn cynnwys pobl sy'n dymuno dychwelyd i addysg ac i weithio.

You mention funding uplifts, such as deprivation. Could you clarify the consideration of deprivation funding? When we asked the question of the Deputy Minister in the debate on apprenticeships, he mentioned that a lot of apprenticeships are funded by European funding. Will it be looking specifically at apprenticeship programmes as well? I appreciate the move from a credit-based focus to a programme-based focus very much, but will it apply to apprenticeships? How will you identify the programmes that fit into each area? Will a programme meet the region's needs to ensure that it has a purpose? In other words, will the outcome of the programme allow the student to achieve something?

Rydych yn sôn am godiadau ariannu, megis ar gyfer amddifadedd. A wnewch chi egluro'r ystyriaeth o gyllid amddifadedd? Pan ofynnwyd y cwestiwn i'r Dirprwy Weinidog yn y ddadl am brentisiaethau, dywedodd fod llawer o brentisiaethau'n cael eu hariannu gan arian Ewropeaidd. A fydd yn edrych yn benodol ar raglenni prentisiaeth yn ogystal? Rwyf yn gwerthfawrogi'r symud o bwyslais sy'n seiliedig ar gredydau i bwyslais sy'n seiliedig ar raglenni'n fawr iawn, ond a fydd yn berthnasol i brentisiaethau? Sut y byddwch chi'n nodi'r rhaglenni sy'n addas i bob maes? A fydd rhaglen yn diwallu anghenion y rhanbarth er mwyn sicrhau bod ganddo bwrpas? Mewn geiriau eraill, a fydd canlyniad y rhaglen yn caniatáu i'r myfyriwr gyflawni rhywbeth?

Also, there are a lot of providers that offer FE and HE within the same institution. What quality assurance mechanisms do you want to see put in place to ensure that an outcome from FE is not automatically directed to HE, but that there is a reason for that and an outcome achieved?

Hefyd, mae llawer o ddarparwyr sy'n cynnig AB ac AU o fewn yr un sefydliad. Pa fecanweithiau sicrhau ansawdd yr hoffech eu gweld yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw canlyniad o AB yn cael ei gyfeirio'n awtomatig i AU, ond bod rheswm am hynny a chanlyniad wedi'i gyflawni?

14:49

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank my colleague and Member for Aberavon for his informed questions. He is right that we are looking to focus more on the outcomes, and that we are looking specifically at the move to more coherent programmes of study. In respect of the full-time equivalents and part-time courses, there is not really a problem; we can envisage programmes of study being delivered on a part-time basis, just as on a full-time basis. What matters will be the coherence of the programme and the ability to deliver that.

Diolch i fy nghydweithiwr a'r Aelod dros Aberafan am ei gwestiynau gwybodus. Mae'n gywir wrth ddweud ein bod yn gobeithio canolbwyntio mwy ar y canlyniadau, a'n bod yn edrych yn benodol ar symud tuag at raglenni astudio mwy cydlynol. O ran y cyrsiau cyfwerth ag amser llawn a chyrsiau rhan-amser, nid oes problem mewn gwirionedd; gallwn ragweld rhaglenni astudio'n cael eu cyflwyno ar sail ran-amser, yn union fel ar sail lawn-amser. Cydlyniad y rhaglen fydd yn bwysig, a'r gallu i gyflawni hynny.

In respect of the element of deprivation, we know that we need to improve progression, particularly in certain areas, including Communities First areas. It is therefore important that we have uplifts in the system that recognise the difficulty of reaching certain groups of learners where there may not be traditional engagement with post-16 study. Therefore, we would certainly want to encourage institutions to do that, and the deprivation funding model would seek to do that.

O ran yr elfen o amddifadedd, rydym yn gwybod bod angen i ni wella dilyniant, yn enwedig mewn ardaloedd penodol, gan gynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Felly, mae'n bwysig bod gennym godiadau yn y system sy'n cydnabod anhawster cyrraedd grwpiau penodol o ddysgwyr lle efallai na fydd ymgysylltu traddodiadol â darparwyr astudio ôl-16. Felly, byddem yn sicr yn awyddus i annog sefydliadau i wneud hynny, a byddai'r model ariannu amddifadedd yn ceisio gwneud hynny.

In respect of FE and HE, I do not see that as a major issue, because we already fund those in different ways. There is post-16 funding going into further education institutions that will, separately, deliver HE. Therefore, I do not think that there is anything in what we are suggesting today that complicates that process.

O ran AB ac AU, nid wyf yn ystyried bod hynny'n fater o bwys, gan ein bod eisoes yn eu cyllido mewn ffyrdd gwahanol. Mae arian ôl-16 yn mynd i mewn i sefydliadau addysg bellach a fydd, ar wahân, yn cyflenwi AU. Felly, nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn yr hyn yr ydym yn ei awgrymu heddiw sy'n cymhlethu'r broses honno.

In respect of the issue of regional needs, I invite him to share with me any suggestions that he has. Finally, in respect of apprentices, he will be aware that my colleague the Deputy Minister for Skills is currently looking at our support for apprenticeships. There have been additional elements that we have brought to bear in the past in respect of post-16 funding, such as the Pathway to Apprenticeships programme, which was additional funding set aside from the original funding programme through the national planning and funding system. In the past, we have looked at additional funding models, and we will certainly take on board what he has said about apprenticeships and consider that as we move forward to the final review.

O ran anghenion rhanbarthol, rwyf yn ei wahodd i rannu unrhyw awgrymiadau sydd ganddo â mi. Yn olaf, o ran prentisiaid, bydd yn ymwybodol bod fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, wrthi'n edrych ar ein cymorth ar gyfer prentisiaethau. Rydym wedi cyflwyno elfennau ychwanegol yn y gorffennol o ran cyllid ôl-16, megis rhaglen Llwybr i Brentisiaethau, sef arian ychwanegol a neilltuwyd o'r rhaglen ariannu wreiddiol drwy'r system cynllunio a chyllido genedlaethol. Yn y gorffennol, rydym wedi edrych ar fodelau cyllid ychwanegol, a byddwn yn sicr yn ystyried yr hyn y mae wedi'i ddweud am brentisiaethau wrth i ni symud ymlaen at yr adolygiad terfynol.

14:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad heddiw ac am yr adroddiad interim ynglŷn â'r system gyllido ôl-16. Mae egwyddorion Plaid Cymru yn y cyd-destun hwn yn ddigon clir: rydym eisiau gweld llai o gystadlu a mwy o gydweithio yn addysg ôl-16 ac rydym eisiau gweld llai o'r farchnad a mwy o gynllunio yn addysg ôl-16. Byddwn yn craffu ar y Bil addysg bellach ac uwch er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion hynny i'w gweld yn ogystal—felly, llai o gystadlu, mwy o gydweithio, llai o'r farchnad a mwy o gynllunio. I raddau, mae'r adroddiad yn dechrau gosod allan y fath batrwm o weithio ac rydym yn croesawu hynny.

Thank you for today's statement and for the interim report on the post-16 funding system. Plaid Cymru's principles in this context are quite clear: we want to see less competition and more collaboration in the post-16 sector, and we want to see less of the market and more planning in post-16 education. We will be scrutinising the further and higher education Bills to ensure that those principles are enshrined—so, less competition, more collaboration, less of the market and more planning. To a certain extent, the report does try to set out that pattern of working and we welcome that.

Serch hynny, mae gennyf ychydig o gwestiynau. Yn gyntaf, rwy'n pryderu bod y nifer fawr o adolygiadau sydd gennych bellach yn y maes hwn, Weinidog, blith draphlith ar draws ei gilydd, yn golygu nad yw cydlyniant cystal ag yr ydych yn awgrymu yn eich datganiad. Nid yw'n glir i mi, a hoffwn glywed tipyn bach yn fwy am hyn, sut bydd y gwaith hwn yn mynd ymlaen ar y cyd â'r adolygiad cymwysterau. Sut mae datganiad heddiw yn gadael y system gyllido genedlaethol presennol, a sut bydd colegau, yn benodol, yn cael eu cyllido o hyn ymlaen? Beth am y consortia rhanbarthol sy'n cael eu hadnabod yn adroddiad heddiw fel dolen gyswllt angenrheidiol â'r system newydd? Rydym eisoes wedi clywed eich bod am eu hadolygu mewn adolygiad arall o'r system strwythurau addysg yn gyffredinol. Yn ogystal, nid yw'n glir sut bydd y system gyllido newydd rydym wedi ei thrafod yn ddiweddar yn cynnal prentisiaethau.

However, I have a few questions. First, I am concerned that there are many reviews ongoing in this area, Minister, which are cutting across each other, and that that means that cohesion and co-ordination are not as effective as you suggest in your statement. It is not clear to me, and I would like to hear a little more about this, how this work is going to progress jointly with the qualifications review. How does today's statement leave the current national funding framework, and how will colleges, specifically, be funded from here on in? What about the regional consortia that are identified in today's report as a necessary link with the new system? We have already heard that you are to review them in another review of educational structures in general. Again, it is not clear how we can maintain apprenticeships under the new funding system that we have been discussing recently.

Mae gennyf gwestiwn arall ynglŷn â'r pwyslais ar raglen astudio sy'n cael ei awgrymu yn yr adroddiad. Rwy'n croesawu hynny, fel egwyddor, ond rydym hefyd wedi clywed gan yr adolygiad cymwysterau ei fod yn bwysig bod gwaith ar lythrennedd a rhifedd yn parhau yn y cyfnod ôl-16. Hoffwn glywed sut yr ydych yn bwriadu adlewyrchu hynny yn y system gyllido. Felly, mae llythrennedd a rhifedd i fod yn rhan o'r rhaglen astudio ôl-16 yn awr, ond sut mae gwneud yn siŵr bod adnoddau digonol yn y system gyllido arfaethedig?

I have another question on the emphasis on the study programme that is suggested in the report. I welcome that, in principle, but we have also heard from the qualifications review about the importance of work on numeracy and literacy continuing in the post-16 curriculum. I would like to hear how you would like to see that reflected in the funding system. So, literacy and numeracy are supposed to be part of the post-16 study programme currently, but how can we ensure that adequate resources are in place in the proposed funding system?

Yn olaf, hoffwn danlinellu ein bod ni ym Mhlaid Cymru yn gweld pwysigrwydd cydnabod anghenion iaith Gymraeg, anghenion amddifadedd ac anghenion gwledigrwydd tu fewn i'r system gyllido. Ar hyn o bryd, rwy'n credu bod y materion arbennig hyn yn cael rhywbeth fel 20% tu fewn i'r system gyllido. Wrth gwrs, mae modd newid hynny ond bydd angen, a byddwn eisiau gweld tystiolaeth ohono, y rheswm dros newid hynny er mwyn symud ymlaen.

Finally, I would like to highlight the fact that we in Plaid Cymru recognise the importance of recognising the needs of Welsh-medium provision, deprivation and rurality within the funding system. At the moment, I think that these particular issues receive some 20% within the funding system. Of course, that could be changed, but we would need to see evidence of the rationale behind any such change in progressing to the future.

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Plaid Cymru spokesperson for his expressions. I have to say that I do not find the situation as confusing as he seems to. I think that it is clear that what we are doing here is developing a number of work streams in different areas of the department, and I think that there is a clear overview of how these fit together. The review of post-16 funding has been developed very much in the context of the emerging thinking in relation to the qualifications review. The emphasis within the qualifications review reinforces the need to address these issues as matters of broad programmes of study, rather than as individual qualifications.

Hoffwn ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am ei sylwadau. Rhaid i mi ddweud nad yw'r sefyllfa mor ddryslyd i mi ag yr ymddengys ei bod iddo ef. Credaf ei bod yn glir mai'r hyn yr ydym yn ei wneud yma yw datblygu nifer o ffrydiau gwaith mewn gwahanol rannau o'r adran, a chredaf y ceir darlun clir o sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r adolygiad o gyllid ôl-16 wedi cael ei ddatblygu'n bennaf yng nghyd-destun y syniadau sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â'r adolygiad o gymwysterau. Mae'r pwyslais o fewn yr adolygiad o gymwysterau'n atgyfnerthu'r angen i roi sylw i'r materion hyn fel materion o raglenni astudio eang, yn hytrach nag fel cymwysterau unigol.

In respect of the regional consortia, we have had the 14-19 learning pathways funding in place for some time now, which has gone to the network learning pathways across Wales in order to drive more coherence in provision and to support the implementation of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. Clearly, we will need to look at that funding in the context of this and how the new system ensures the efficient use of public resources.

O ran y consortia rhanbarthol, mae cyllid y llwybrau dysgu 14-19 wedi ei sefydlu ers cryn amser bellach, ac mae wedi mynd i'r llwybrau dysgu rhwydwaith ledled Cymru er mwyn sbarduno mwy o gydlyniad yn y ddarpariaeth a chefnogi gweithrediad Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Yn amlwg, bydd angen i ni edrych ar y cyllid yng nghyd-destun hyn a sut y mae'r system newydd yn sicrhau y defnyddir adnoddau cyhoeddus yn effeithlon.

In respect of apprenticeships, his party is engaged in discussions with my colleague the Deputy Minister for Skills on how we take forward some of the funding contained within the budget that was passed in December, and we can, no doubt, look at how that will relate to this overall programme. These are discrete issues, and I do not think that there is a particular problem with any of those.

O ran prentisiaethau, mae ei blaid yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, am sut yr ydym yn symud ymlaen gyda rhywfaint o'r cyllid sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr, a gallwn, yn ddiau, edrych ar sut y bydd hynny'n berthnasol i'r rhaglen gyffredinol hon. Mae'r rhain yn faterion ar wahân, ac ni chredaf fod problem benodol gydag unrhyw un o'r rheini.

In respect of literacy and numeracy, we would want to see the availability, where needed, of coherent programmes of literacy and numeracy within post-16 institutions. However, my ambition is that those issues are resolved before young people have reached the age of 16 in future. That does not mean that we will do that overnight. Clearly, there will always be a need for some catch-up programmes, but the emphasis of the literacy and numeracy framework is on getting it right between years 2 and 9, and then ensuring that we build on that at the 15 to 16 age range through the GCSE framework. I think that we are reasonably clear about that. I do not think that the post-16 funding framework is inhibited in any way by what we are trying to do in respect of literacy and numeracy.

O ran llythrennedd a rhifedd, byddem yn awyddus i weld i ba raddau y mae rhaglenni cydlynol llythrennedd a rhifedd ar gael mewn sefydliadau ôl-16, lle mae eu hangen. Fodd bynnag, fy uchelgais yw datrys y materion hynny cyn i bobl ifanc gyrraedd 16 oed yn y dyfodol. Nid yw hynny'n golygu y byddwn yn gwneud hynny dros nos. Yn amlwg, bydd angen rhai rhaglenni dal i fyny bob amser, ond mae pwyslais y fframwaith llythrennedd a rhifedd ar gael pethau'n iawn rhwng 2 a 9 oed, ac yna sicrhau ein bod yn adeiladu ar hynny yn yr ystod oedran 15 i 16 drwy'r fframwaith TGAU. Rwyf yn meddwl ein bod yn weddol glir ynghylch hynny. Nid wyf yn credu bod y fframwaith arian ôl-16 yn cael ei lesteirio mewn unrhyw ffordd gan yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud o ran llythrennedd a rhifedd.

In respect of the uplift for Welsh-medium provision and the issues of scarcity or rurality, we understand the issues that are bound up with this, and I welcome the Member's support for the continuation of those uplifts.

O ran y codiad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a materion prinder neu ardaloedd gwledig, rydym yn deall y materion sy'n gysylltiedig â hyn, ac rwyf yn croesawu cefnogaeth yr Aelod i barhau â'r codiadau hynny.

14:57

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf i hefyd ddiolch i chi am roi diweddariad i ni ar y rhaglen hon? Nid wyf yn meddwl bod llawer o fewn y Cynulliad yn credu bod y gyfundrefn bresennol yn un sy'n help, i ryw raddau. Fel dywedodd Simon Thomas, mae'n creu problemau o ran cystadleuaeth. Y broblem, wrth gwrs, yw cael cytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Rwy'n meddwl bod y diweddariad hwn yn amlinellu rhai o'r problemau sy'n eich wynebu chi fel Gweinidog. Mae'r rhaglen a'r amserlen wreiddiol yn uchelgeisiol. Mae'r adroddiad a anfonoch atom ddoe yn dweud bod y rhan fwyaf o'r gwaith i'w gyflawni rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth eleni. A ydych yn ffyddiog bod y gwaith hwnnw yn cynnal ei hun o ran y fforwm? Rwy'n nodi o ran yr adroddiad ei hun bod rhai o'r rhanddeiliaid yn y fforwm ym mis Medi, ac eto mis diwethaf, wedi dweud bod lot mwy o waith i'w wneud ar yr opsiynau. Rwy'n cofio'r sefyllfa o fewn llywodraeth leol pan oedd pawb yn gytûn nad oedd y gyfundrefn bresennol yn un da, ond roedd hi'n llawer anos i gael cytundeb ynglŷn â newidiadau. Roedd hynny'n cynnwys newidiadau, fel dywedodd Simon Thomas, ar amddifadedd, yr iaith Gymraeg a phroblemau gwledig. Rwy hefyd yn gofyn i chi a fydd y newidiadau o ran rheoli'r sector addysg uwch yn ei gwneud hi'n anos i chi gael cytundeb o fewn y sector hwnnw.

Minister, may I thank you for updating us on this programme? I do not think that many within the Assembly believe that the current system is of help, to some extent. As Simon Thomas said, it does create some problems with regard to competition. The problem, of course, is trying to secure an agreement on the way forward. I think that this update outlines some of the problems facing you as Minister. The original programme and timetable are ambitious. The report that you issued yesterday stated that most of the work is to be completed between November and March of this year. Are you confident that that work is still sustainable as regards the forum? As regards the report itself, I note that some of the stakeholders at the forum in September, and again last month, were saying that there is a great deal more work to be done on the options. I remember the position within local government when everyone agreed that the current system was not great, but it was much more difficult to get agreement on changes. That included changes, as Simon Thomas said, on deprivation, the Welsh language, and rural problems. I would also like to ask you whether the changes as regards the management of the higher education sector might make it more difficult for you to secure agreement within the sector.

Rwyf yn eich cefnogi chi. Rwy'n eich cefnogi chi o ran y gwaith sydd i'w wneud, ond rwy jyst yn gofyn a yw'r amserlen yn un yr ydych dal yn ffyddiog y gallwch gadw ati, oherwydd mae'r adroddiad ei hun yn dweud y bydd yn rhaid treialu unrhyw gynllun erbyn mis Ebrill eleni, rwy'n credu, os ydych i gadw at yr amserlen wreiddiol o gael cytundeb erbyn yr hydref eleni.

I do support you. I support you as regards the work that needs to be done, but I am just wondering whether the timetable is one that you are confident that you can still achieve, because the report states that any scheme would need to be trialled by April this year, I think, if you are to adhere to the original timetable of securing an agreement by the autumn of this year.

14:59

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We certainly intend to have the new planning and funding system in place for 2014-15. We expect it to be agreed and operational from this autumn, with first allocations being published next January. We are going to hold information training sessions in June and July this year, and we will publish the final report before that, in May this year, which will follow the testing and piloting that is currently under way.

Rydym yn sicr yn bwriadu cael y system cynllunio a chyllido newydd ar waith ar gyfer 2014-15. Rydym yn disgwyl y bydd wedi'i chytuno arni ac yn weithredol o hydref eleni ymlaen, ac y caiff y dyraniadau cyntaf eu cyhoeddi fis Ionawr nesaf. Byddwn yn cynnal sesiynau hyfforddi gwybodaeth ym mis Mehefin a Gorffennaf eleni, a byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad terfynol cyn hynny, ym mis Mai eleni, a fydd yn dilyn y gwaith profi a threialu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Certainly, we would want to ensure a reduction in unnecessary competition between institutions as a result of the new funding system, and I welcome his support for that. He spoke of the difficulty of getting agreement on changes, but let me say to him that, if we do not get an agreement, then I will decide, and that will be the way it goes forward. However, I would hope very much that we will get agreement and will be able to take this forward on the basis of buy-in from stakeholders.

Byddem yn sicr yn awyddus i sicrhau gostyngiad mewn cystadleuaeth ddiangen rhwng sefydliadau o ganlyniad i'r system gyllido newydd, a chroesawaf ei gefnogaeth i hynny. Siaradodd am anhawster sicrhau cytundeb ar newidiadau, ond dewch i mi ddweud wrtho, os na chawn gytundeb, yna byddaf fi'n penderfynu, a dyna sut y bydd pethau'n symud ymlaen. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio'n fawr y cawn gytundeb ac y gallwn symud ymlaen â hyn ar sail cefnogaeth gan randdeiliaid.

We are clear on the timescale. I introduced a three-year freeze, if you like, in order to get a new system in place, and I think that we are making good progress in developing the new system. I welcome his support.

Rydym yn glir ar yr amserlen. Cyflwynais y rhewi am dair blynedd, os mynnwch, er mwyn rhoi system newydd ar waith, a chredaf ein bod yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r system newydd. Rwyf yn croesawu ei gefnogaeth.

15:01

# Datganiad: Gwneud Gwahaniaeth: Rôl Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd o Ran Mynd i'r Afael â Thlodi Plant

# Statement: Making a Difference: The Role of Museums, Archives and Libraries In Tackling Child Poverty

Senedd.tv Fideo Video

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth / The Minister for Housing, Regeneration and Heritage*

Members will be familiar with my view that the eradication of child poverty is the responsibility, not of one department, or solely of Government, but of civil society as a whole in Wales. With each cut that comes from Westminster, that joint approach becomes ever more important. The role of our cultural institutions is vital to this. After family and school life, it is perhaps our museums and libraries—as gateways to knowledge, lifelong learning and better understanding—that have the greatest opportunity to help to give our children the best start in life.

Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â fy marn bod diddymu tlodi plant yn gyfrifoldeb, nid ar un adran, neu ar y Llywodraeth yn unig, ond ar gymdeithas sifil yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Gyda phob toriad sy'n dod o San Steffan, mae'r dull ar y cyd hwnnw'n dod yn fwyfwy pwysig. Mae rôl ein sefydliadau diwylliannol yn hollbwysig i hyn. Ar ôl teulu a bywyd ysgol, efallai mai ein hamgueddfeydd a'n llyfrgelloedd—fel pyrth i wybodaeth, dysgu gydol oes a gwell dealltwriaeth—sydd â'r cyfle gorau i helpu i roi'r dechreuad gorau mewn bywyd i'n plant.

The Welsh Government works closely with museums, archives and libraries in making a real difference to children's lives, reducing inequality, developing skills and improving the quality of life and life chances. Much of this work involves a committed attitude and an approach that is not always about the size of the budget. I have been impressed by the enthusiasm shown by staff and volunteers in working together across organisational divides to give our children a better chance.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant, lleihau anghydraddoldeb, datblygu sgiliau a gwella ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd. Mae llawer o'r gwaith hwn yn cynnwys agwedd ymroddedig a dull nad yw bob amser yn ymwneud â maint y gyllideb. Gwnaed argraff arnaf gan y brwdfrydedd a ddangoswyd gan staff a gwirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar draws rhaniadau sefydliadol i roi gwell cyfle i'n plant.

Last year, Amgueddfa Cymru—National Museum Wales and the National Library of Wales published their child poverty strategies. Both outline their commitment to engaging with children in deprived areas. The work includes the Just Bling? programme run by Amgueddfa Cymru. This innovative programme aims to improve skills and to nurture the aspirations and ambition of young people from Communities First areas. So far, it has touched the lives of over 600 young people. The sector is responding. The National Library of Wales is working closely with Communities First and Flying Start families to encourage visits to the library, as well as providing outreach services and digital access. My portfolio is providing strategic cultural leadership to maximise the opportunities for collaboration. CyMAL has formed a partnership with Welsh Government education officials to provide resources to ensure that organisations meet the needs of the foundation phase. I am encouraged by the close working relationship between CyMAL and Cadw to develop educational support for teachers and learners.

Y llynedd, cyhoeddodd Amgueddfa Cymru—National Museum Wales a Llyfrgell Genedlaethol Cymru eu strategaethau tlodi plant. Mae'r ddau yn amlinellu eu hymrwymiad i ymgysylltu â phlant mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r gwaith yn cynnwys y rhaglen Gwychder Dibwys? a redir gan Amgueddfa Cymru. Mae'r rhaglen arloesol hon yn anelu at wella sgiliau a meithrin dyheadau ac uchelgais pobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Hyd yn hyn, mae wedi cyffwrdd bywydau dros 600 o bobl ifanc. Mae'r sector yn ymateb. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymunedau yn Gyntaf a theuluoedd Dechrau'n Deg i annog ymweliadau â'r llyfrgell, yn ogystal â darparu gwasanaethau allgymorth a mynediad digidol. Mae fy mhortffolio yn darparu arweiniad strategol diwylliannol i wneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae CyMAL wedi ffurfio partneriaeth gyda swyddogion addysg Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau i sicrhau bod sefydliadau yn diwallu anghenion y cyfnod sylfaen. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y berthynas waith agos rhwng CyMAL a Cadw i ddatblygu cymorth addysgol ar gyfer athrawon a dysgwyr.

Our public libraries offer a safe and welcoming environment for children. They provide free access to a range of resources, from books to computers. In January this year, I launched 'The First Incomplete Field Guide to Wellbeing in Libraries', which includes a number of case studies of how libraries make a real difference to children's quality of life, ranging from baby massage and babbling sessions in Neath Port Talbot, to splash and rhyme time in Wrexham.

Mae ein llyfrgelloedd cyhoeddus yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar ar gyfer plant. Maent yn darparu mynediad am ddim i amrywiaeth o adnoddau, o lyfrau i gyfrifiaduron. Ym mis Ionawr eleni, lansiais 'Y Canllaw Maes Anghyflawn Cyntaf i Les mewn Llyfrgelloedd', sy'n cynnwys nifer o astudiaethau achos o sut mae llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd plant, yn amrywio o sesiynau tylino a phreblian babanod yng Nghastell-nedd Port Talbot, i amser sblasio a rhigwm yn Wrecsam.

Improving literacy levels is fundamental to our efforts to tackle child poverty and is central to the Welsh Government's library strategy, 'Libraries Inspire'. Sharing books and reading with children from an early age has a positive impact on long-term literacy levels, which impacts on future academic and economic success. The Bookstart programme, funded by the Welsh Government, is an excellent example of a multi-agency approach to promoting literacy. Our public libraries and health workers work in partnership to deliver Bookstart baby and early years packs to 95% of families.

Mae gwella lefelau llythrennedd yn hanfodol i'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant ac yn ganolog i strategaeth llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli'. Mae rhannu llyfrau a darllen gyda phlant o oedran cynnar yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau llythrennedd yn y tymor hir, sy'n effeithio ar lwyddiant academaidd ac economaidd yn y dyfodol. Mae'r rhaglen Dechrau Da a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn enghraifft ardderchog o ymagwedd aml-asiantaeth i hyrwyddo llythrennedd. Mae ein llyfrgelloedd cyhoeddus a'n gweithwyr iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu pecynnau Dechrau Da babanod a blynyddoedd cynnar i 95% o deuluoedd.

The Welsh Government-funded community learning libraries programme has transformed the facilities in many libraries, leading to an increase of up to 50% in the number of children visiting. Partners such as Flying Start now use local libraries as venues for children's activities.

Mae'r rhaglen llyfrgelloedd dysgu cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi trawsnewid y cyfleusterau mewn nifer o lyfrgelloedd, gan arwain at gynnydd o hyd at 50% yn nifer y plant sy'n ymweld. Mae partneriaid megis Dechrau'n Deg bellach yn defnyddio llyfrgelloedd lleol fel lleoliadau ar gyfer gweithgareddau i blant.

To help children, we must also help parents. Public libraries work with partners to assist people to search for jobs, improve basic skills and develop ICT skills. The role of public libraries in assisting people to use the internet will become increasingly important in tackling poverty as more public services such as universal jobmatch and universal credit are delivered online.

Local authority archive services provide valuable educational experiences for children, which help them discover how people lived in their communities, encouraging a sense of belonging for often vulnerable young people. This work includes outreach activity delivered by archive staff within schools, group visits to archive services, and provision of resources for teachers. Current initiatives, such as the work undertaken by Glamorgan Archives to arrange visits by schools in deprived areas and the development of foundation phase educational resources by West Glamorgan Archive Service, have made an important impact where it is most needed.

Local museums across Wales are rising to the challenge and seeking to increase participation by children and young people. Museums offer a variety of opportunities, from the exceptional young volunteers programme at the Egypt Centre in Swansea, to the many formal education visits that take place every year. The recent partnership between the Welsh Government, the charity Kids in Museums, and the children's commissioner, led to the first Taking Over Museums Day in Wales. Seventeen local and national museums took part, with over 500 children and young people directly involved in taking charge of museums. I visited the Cardiff Story and thoroughly enjoyed seeing the young people so engaged in what they were doing, and how the experience was providing a real sense of participation, engagement and ownership.

I am aware that this work requires resources. In November last year, I announced the allocation of £2.9 million to develop the work of our local museums, archives and libraries. Today, I am pleased to announce a further investment of £150,000 across the heritage portfolio in this financial year to widen access and encourage participation. The budget will be earmarked for activities that demonstrate the step change that is needed to encourage participation by our poorest families and their children.

The examples mentioned today demonstrate how collaboration between museums, archives and libraries with other agencies and sectors is enriching the lives of our children and making an important contribution in helping them out of poverty. At their best, our museums and libraries can open minds and open doors to a previously closed-off world of opportunity. I expect our cultural sector to continue its progress and rise to this challenge. They cannot be conservative in their aims. Each must remember that they do not receive public funding to be guardians of knowledge so much as to be apostles for learning.

I helpu plant, mae'n rhaid i ni hefyd helpu rhieni. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo pobl i chwilio am swyddi, gwella sgiliau sylfaenol a datblygu sgiliau TGCh. Bydd rôl llyfrgelloedd cyhoeddus o ran cynorthwyo pobl i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn dod yn fwyfwy pwysig wrth fynd i'r afael â thlodi wrth i wasanaethau cyhoeddus mwy cyffredinol fel JobMatch a chredyd cyffredinol gael eu darparu ar-lein.

Mae gwasanaethau archif awdurdod lleol yn darparu profiadau addysgol gwerthfawr i blant, sy'n eu helpu i ddarganfod sut mae pobl yn byw yn eu cymunedau, gan annog ymdeimlad o berthyn ar gyfer pobl ifanc sy'n aml yn agored i niwed. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweithgarwch allgymorth a ddarperir gan staff archif mewn ysgolion, ymweliadau grŵp â gwasanaethau archifau, a darparu adnoddau ar gyfer athrawon. Mae mentrau cyfredol, megis y gwaith a wnaed gan Archifau Morgannwg i drefnu ymweliadau gan ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig a datblygu adnoddau addysgol cyfnod sylfaen gan Wasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, wedi cael effaith bwysig lle mae ei angen fwyaf.

Mae amgueddfeydd lleol ledled Cymru yn ymateb i'r her ac yn ceisio cynyddu cyfranogiad gan blant a phobl ifanc. Mae amgueddfeydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd, o'r rhaglen eithriadol gwirfoddolwyr ifanc yn y Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe, at yr ymweliadau addysg ffurfiol niferus sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn. Mae'r bartneriaeth ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru, yr elusen Plant mewn Amgueddfeydd, a'r comisiynydd plant, wedi arwain at y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yng Nghymru. Roedd dwy ar bymtheg o amgueddfeydd lleol a chenedlaethol yn cymryd rhan, gyda dros 500 o blant a phobl ifanc yn ymwneud yn uniongyrchol â gofalu am amgueddfeydd. Ymwelais â Stori Caerdydd a mwynheais yn fawr weld y bobl ifanc mor frwd am yr hyn yr oeddent yn ei wneud, a sut yr oedd y profiad yn darparu ymdeimlad gwirioneddol o gyfranogiad, ymgysylltu a pherchnogaeth.

Rwy'n ymwybodol bod y gwaith hwn yn gofyn am adnoddau. Ym mis Tachwedd y llynedd, cyhoeddais y dyraniad o £2.9 miliwn i ddatblygu gwaith ein hamgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol. Heddiw, rwyf yn falch o gyhoeddi buddsoddiad pellach o £150,000 ar draws y portffolio treftadaeth yn y flwyddyn ariannol hon i ehangu mynediad ac annog cyfranogiad. Bydd y gyllideb yn cael ei chlustnodi ar gyfer gweithgareddau sy'n dangos y newid sylweddol sydd ei angen i annog cyfranogiad gan ein teuluoedd tlotaf a'u plant.

Mae'r enghreifftiau a grybwyllwyd heddiw yn dangos sut y mae cydweithio rhwng amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd gydag asiantaethau a sectorau eraill yn cyfoethogi bywydau ein plant ac yn gwneud cyfraniad pwysig o ran eu helpu allan o dlodi. Ar eu gorau, gall ein hamgueddfeydd a'n llyfrgelloedd agor meddyliau ac agor drysau i fyd o gyfle oedd wedi ei gau'n flaenorol. Rwy'n disgwyl i'n sector diwylliannol barhau ei gynnydd a chodi i'r her hon. Ni allant fod yn geidwadol eu nodau. Rhaid i bob un gofio nad ydynt yn derbyn arian cyhoeddus i fod yn warcheidwaid gwybodaeth gymaint ag i fod yn apostolion ar gyfer dysgu.

15:08 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for that statement. I hope it is a sign of a new enthusiasm for coming to this Chamber to make statements, and that we can expect your speedy return to explain and answer questions on your decision regarding the royal commission.

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad hwnnw. Rwy'n gobeithio ei fod yn arwydd o frwdfrydedd newydd i ddod i'r Siambr hon i wneud datganiadau, ac y gallwn ddisgwyl i chi ddychwelyd yn fuan i esbonio ac ateb cwestiynau ar eich penderfyniad ynghylch y comisiwn brenhinol.

I do, of course, welcome the announcement of additional moneys, and I applaud your commitment to eradicating child poverty. Bearing in mind that Amgueddfa Cymru is still identifying a child-poverty rate of 1 in 3, it is important that you shine a spotlight on the particular work done by your department to help alleviate child poverty even in small ways. I also applaud you for recognising that educational opportunities outside the school environment have a serious role to play. As the Joseph Rowntree Foundation says, schools alone cannot break the link between background and child poverty.

Rwyf, wrth gwrs, yn croesawu cyhoeddiad o arian ychwanegol, ac rwy'n cymeradwyo eich ymrwymiad i ddileu tlodi plant. Gan gofio bod Amgueddfa Cymru yn dal i nodi cyfradd tlodi plant o 1 mewn 3, mae'n bwysig eich bod yn tynnu sylw at y gwaith penodol a wneir gan eich adran i helpu i leddfu tlodi plant hyd yn oed mewn ffyrdd bach. Rwyf hefyd yn eich cymeradwyo am gydnabod bod gan gyfleoedd addysgol y tu allan i amgylchedd yr ysgol rôl ddifrifol i chwarae. Fel y mae Sefydliad Joseph Rowntree yn ei ddweud, ni all ysgolion yn unig dorri'r cysylltiad rhwng cefndir a thlodi plant.

I am also pleased that you underline that the work that museums, archives and libraries undertake, especially in collaboration, in helping reduce inequality and life chances, is not all about budget, but about commitment and approaches. I am happy to commend the imagination shown by our museums, archives and libraries in devising their contribution to reducing child poverty.

Rwyf hefyd yn falch eich bod yn pwysleisio nad yw'r gwaith y mae amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn ymgymryd ag o, yn enwedig ar y cyd, mewn helpu i leihau anghydraddoldeb cyfleoedd a bywyd, yn ymwneud yn llwyr â chyllideb, ond yn ymwneud ag ymrwymiad a dulliau. Rwy'n hapus i gymeradwyo'r dychymyg a ddangoswyd gan ein hamgueddfeydd, ein harchifau a'n llyfrgelloedd mewn dyfeisio eu cyfraniad at leihau tlodi plant.

However, I have a few questions based on your statement. The national museum's child poverty strategy seeks to improve self-confidence, skills and to nurture aspiration. The Just Bling? programme, along with many others, sounds like great fun and very interesting, but perhaps you can give us your view on how the success of those programmes will be measured. The strategy intends to measure success by looking at increased visits to museums, increased engagement with online programmes and testimonial evidence, but it is not clear how the long-term effects of those programmes will be measured. If the aim is to improve self-confidence and specific skills, then the longevity of any results will need to be tested. Temporary personal enrichment is not exactly valueless, but, life-changing experience is, of course, priceless.

Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o gwestiynau yn seiliedig ar eich datganiad. Mae strategaeth tlodi plant yr amgueddfa genedlaethol yn ceisio gwella hunanhyder, sgiliau a meithrin dyhead. Mae'r rhaglen Gwychder Dibwys?, ynghyd â llawer o rai eraill, yn swnio fel llawer o hwyl ac yn ddiddorol iawn, ond efallai y gallwch roi eich barn ar sut y bydd llwyddiant y rhaglenni hynny yn cael ei fesur. Mae'r strategaeth yn bwriadu mesur llwyddiant drwy edrych ar ymweliadau cynyddol ag amgueddfeydd, mwy o ymgysylltu â rhaglenni ar-lein a thystiolaeth gymeradwyo, ond nid yw'n glir sut y bydd effeithiau tymor hir y rhaglenni hynny'n cael eu mesur. Os mai'r nod yw gwella hunan-hyder a sgiliau penodol, yna bydd angen rhoi prawf ar hirhoedledd unrhyw ganlyniadau. Nid yw cyfoethogi dros dro personol yn ddi-werth hollol, ond, mae profiad newid bywyd, wrth gwrs, yn amhrisiadwy.

I am pleased to hear how the co-operation is working and very pleased that you name-checked the West Glamorgan Archive Service. You referred to CyMAL and Cadw supporting teachers, which is another way of saying that the Government is supporting teachers. Bearing in mind the central question of independence of advice and interpretation, which has dogged the concerns regarding the royal commission, what measures are in place to ensure that any interpretative materials provided by Cadw or CyMAL will be politically neutral in their tone and content?

Rwy'n falch o glywed sut y mae'r cydweithrediad yn gweithio ac yn falch iawn eich bod yn enwi Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg yn benodol. Roeddech yn cyfeirio at CyMAL a Cadw yn cefnogi athrawon, sydd yn ffordd arall o ddweud bod y Llywodraeth yn cefnogi athrawon. Gan gadw mewn cof y cwestiwn canolog o annibyniaeth cyngor a dehongli, sydd wedi dilyn y pryderon ynglŷn â'r comisiwn brenhinol, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau y bydd unrhyw ddeunydd deongliadol a ddarperir gan Cadw neu CyMAL yn wleidyddol niwtral eu naws a'u cynnwys?

I have expressed support for 'Libraries Inspire' previously, I hope that you are glad to hear, and am impressed by your statistic that there has been an almost 50% increase in the number of children visiting libraries. I was looking at the latest local authority services performance report, which I am finding a little difficult to understand, I must admit, but I came up with a figure nearer 20%. Perhaps you could drop me a note letting me know where you got your statistics from. If you could get me that, that would be great.

Rwyf wedi mynegi cefnogaeth i 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli' yn flaenorol, rwy'n gobeithio y byddwch yn falch o glywed, ac wedi fy mhlesio'n fawr gan eich ystadegyn y bu cynnydd o bron i 50% yn y nifer o blant sy'n ymweld â llyfrgelloedd. Roeddwn yn edrych ar adroddiad diweddaraf perfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol, yr wyf yn ei chael braidd yn anodd ei ddeall, rhaid i mi gyfaddef, ond fe gyrhaeddais ffigwr yn nes at 20%. Efallai y gallech anfon nodyn ataf yn gadael i mi wybod o ble y cawsoch eich ystadegau. Pe gallech gael hynny i mi, byddai hynny'n wych.

I note your comments regarding helping parents, and ask what data you have about the use of computers and other resources. Do you have any up-to-date data that you could share relating to the effectiveness of unsupervised use of library computers?

Nodaf eich sylwadau am helpu rhieni, a gofynnaf pa ddata sydd gennych am y defnydd o gyfrifiaduron ac adnoddau eraill. A oes gennych unrhyw ddata cyfredol y gallech rannu sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd defnydd heb oruchwyliaeth o gyfrifiaduron llyfrgell?

Finally, the £150,000, welcome as it is, will be spread across your portfolio. I suspect that many organisations, not least schools and youth organisations, will be looking at that money to resolve long-standing problems regarding transport and access to specific venues and the availability of broadband so that programmes can be accessed online. Is that where you expect the money to go, or do you have a different view? What steps do you have in place to ensure that no great chunk of that money will disappear in the process of deciding how and by whom that money will be spent, just to make sure that the maximum amount reaches the front line?

Yn olaf, mae'r £150,000, er mor dderbyniol ydyw, yn cael ei ledaenu ar draws eich portffolio. Rwy'n amau y bydd llawer o sefydliadau, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau ieuenctid, yn edrych ar yr arian hwnnw i ddatrys problemau hirsefydlog o ran trafnidiaeth a mynediad i leoliadau penodol ac argaeledd band eang fel y gellir cael rhaglenni ar-lein. Ai dyna i ble'r ydych yn disgwyl i'r arian fynd, neu a oes gennych farn wahanol? Pa gamau sydd gennych ar waith i sicrhau na fydd talp mawr o'r arian hwnnw yn diflannu yn y broses o benderfynu sut a chan bwy y caiff yr arian hwnnw ei wario, dim ond i wneud yn siŵr bod y swm uchaf yn cyrraedd y rheng flaen?

15:12

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her comments, although, I have to say, in relation to the amount of statements being made in the Chamber, it was not quite so long ago I was being criticised by opposition parties for bringing too many statements to the Chamber, so perhaps I am doing something right in displeasing every opposition party in turn.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau, er, rhaid i mi ddweud, mewn perthynas â faint o ddatganiadau sy'n cael eu gwneud yn y Siambr, nid oedd mor bell yn ôl pan oeddwn yn cael fy meirniadu gan y gwrthbleidiau am ddod â gormod o ddatganiadau i'r Siambr, felly efallai fy mod yn gwneud rhywbeth yn iawn wrth ddigio pob gwrthblaid yn eu tro.

In terms of the national museum and the success in terms of visitor numbers, of course, we need to keep an eye on that in the long term. However, the statistics that we have really point to an increasing thirst and enthusiasm on the part of the Welsh public, built, I believe, on a first-class cultural offer, but also on our free-entry commitment, to which we remain absolutely committed. The Welsh public is responding to that and we are finding that visitor numbers are growing, year on year. We will keep a long-term eye on that. It is very important that we continue to encourage people through the doors of our museum, as well as increasing access online.

O ran yr amgueddfa genedlaethol a'r llwyddiant o ran niferoedd ymwelwyr, wrth gwrs, mae angen i ni gadw llygad ar hynny yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae'r ystadegau sydd gennym wir yn pwyntio at syched a brwdfrydedd cynyddol ar ran y cyhoedd yng Nghymru, a adeiladwyd, rwy'n credu, ar gynnig diwylliannol o'r radd flaenaf, ond hefyd ar ein hymrwymiad i fynediad rhad ac am ddim, yr ydym yn dal i fod yn gwbl ymroddedig iddo. Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn ymateb i hynny ac rydym yn gweld bod nifer yr ymwelwyr yn tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Byddwn yn cadw llygad hirdymor ar hynny. Mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i annog pobl drwy ddrysau ein hamgueddfa, yn ogystal â chynyddu mynediad ar-lein.

The co-working between CyMAL and Cadw, which is exemplified to some extent by the changing cultures programme, which will unfurl over the next three months, is in part about supporting teachers, but, more than that, it is about those organisations working ever more closely together to make sure that the cultural offer that they have, which is extremely rich and very important, reaches every child in Wales. For those children who were previously at the back of queues, or were unaware, because of the circumstances of their family, their geographical isolation or their socio-economic position, of what is on offer and were unable to access it, we have to break down those barriers. We have to make sure that those barriers are understood and tackled.

Mae'r cyd-weithio rhwng CyMAL a Cadw, sy'n cael ei amlygu i ryw raddau gan y rhaglen ddiwylliannau sy'n newid, a fydd yn ymledu dros y tri mis nesaf, yn rhannol yn ymwneud â chefnogi athrawon, ond, yn fwy na hynny, mae'n ymwneud â'r sefydliadau hynny sy'n gweithio'n agosach fyth gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod y cynnig diwylliannol sydd ganddynt, sydd yn hynod gyfoethog ac yn bwysig iawn, yn cyrraedd pob plentyn yng Nghymru. Ar gyfer y plant hynny a oedd yn flaenorol yng nghefn y ciwiau, neu nad oeddent yn ymwybodol, oherwydd amgylchiadau eu teulu, eu lleoliad daearyddol neu eu sefyllfa economaidd-gymdeithasol, o'r hyn sydd ar gael ac nid oedd modd iddynt gael gafael arno, mae'n rhaid i ni dorri'r rhwystrau hynny. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y rhwystrau yn cael eu deall ac yr eir i'r afael â nhw.

In terms of whether the offer is politically neutral or not, I really cannot understand that question. Perhaps the Member would write to me with an explanation of what was implied in that comment.

O ran a yw'r cynnig yn wleidyddol niwtral neu beidio, ni allaf wir ddeall y cwestiwn hwnnw. Efallai y byddai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gydag esboniad o'r hyn a awgrymir yn y sylw hwnnw.

In terms of library visitor numbers, I can cheerfully report to the Chamber that Wales is the only part of the United Kingdom that can point to successive consistent increases in library visitor numbers across the country. With regards general visits to libraries, Wales is the only part of the UK where user visits are increasing; that cannot be said of Scotland, England or Northern Ireland. With regard to the number of children visiting libraries, my statement referred to those libraries in which children's services specifically have been upgraded. We have seen an increase of up to 50% in the number of visits by children to those libraries.

O ran niferoedd ymwelwyr llyfrgell, gallaf adrodd yn llawen i'r Siambr mai Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig a all ddangos cynnydd cyson yn olynol yn nifer yr ymwelwyr llyfrgell ar draws y wlad. O ran ymweliadau cyffredinol â llyfrgelloedd, Cymru yw'r unig ran o'r DU lle mae ymweliadau defnyddwyr yn cynyddu; ni ellir dweud hynny am yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. O ran nifer y plant sy'n ymweld â llyfrgelloedd, roedd fy natganiad yn cyfeirio at y llyfrgelloedd hynny lle mae gwasanaethau plant yn benodol wedi cael eu huwchraddio. Rydym wedi gweld cynnydd o hyd at 50% yn y nifer o ymweliadau gan blant â'r llyfrgelloedd hynny.

15:15 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the welcome statement. I welcomed the announcement last year that Cadw had taken on a heritage cottage in Cwmdare in my constituency. I enjoyed our visit to this unique time capsule of Valleys life. It is important that children and communities are aware of their heritage and of its relevance. It is not all castles, kings and car parks, as we saw yesterday in Leicester, although that was very exciting. The heritage cottage can play an important part in achieving this sense of community in our constituencies. If you are in a position to give one, could we have an update on this project and what lessons you think that we can draw from it?

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad derbyniol. Croesewais y cyhoeddiad y llynedd bod Cadw wedi cymryd cyfrifoldeb dros fwthyn treftadaeth yng Nghwmdâr yn fy etholaeth. Fe wnes i fwynhau ein hymweliad â'r capsiwl amser unigryw hwn ym mywyd y Cymoedd. Mae'n bwysig bod plant a chymunedau yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth ac o'i pherthnasedd. Nid yw'n ymwneud yn llwyr â chestyll, brenhinoedd a meysydd parcio, fel y gwelsom ddoe yng Nghaerlŷr, er bod hynny'n gyffrous iawn. Gall y bwthyn treftadaeth chwarae rhan bwysig mewn cyflawni'r ymdeimlad hwn o gymuned yn ein hetholaethau. Os ydych mewn sefyllfa i'w rhoi, a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect hwn a pha wersi yr ydych yn credu y gallwn dynnu oddi wrtho?

Secondly, free access to museums plays a particularly important role in combating poverty and democratising Welsh history. However, there are often other costs involved in a day trip to a museum, such as the price of getting there. I know that as part of its poverty strategy, National Museum Wales seeks to work with schools and museums to find effective solutions to these barriers. How can the Welsh Government assist with this? We know that staff and volunteers have a vital role to play. How can the Welsh Government ensure that both groups have a comprehensive understanding of child poverty issues and their role in combating it?

Yn ail, mae mynediad am ddim i amgueddfeydd yn chwarae rôl arbennig o bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi a democrateiddio hanes Cymru. Fodd bynnag, yn aml ceir costau eraill ynghlwm mewn ymweliad diwrnod ag amgueddfa, fel y pris o fynd yno. Gwn fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru, fel rhan o'i strategaeth tlodi, yn ceisio gweithio gydag ysgolion ac amgueddfeydd i ddod o hyd i atebion effeithiol i'r rhwystrau hyn. Sut y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo gyda hyn? Rydym yn gwybod bod gan staff a gwirfoddolwyr rôl hanfodol i'w chwarae. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y ddau grŵp ddealltwriaeth gynhwysfawr o faterion tlodi plant a'u rôl wrth fynd i'r afael hynny?

Finally, before Christmas the Minister for Education and Skills commissioned a review of the teaching of Welsh history in our schools. What discussions have you had with your colleague on how cultural enrichment opportunities and the tackling of child poverty can be aligned with this review?

Yn olaf, cyn y Nadolig comisiynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygiad o ddysgu hanes Cymru yn ein hysgolion. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'ch cydweithiwr ar sut y gall cyfleoedd cyfoethogi diwylliannol a mynd i'r afael â thlodi plant gyd-fynd â'r adolygiad hwn?

15:17

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Chris Chapman for those pertinent points. With regard to the heritage cottage in the Cynon Valley, I would encourage all Members to get updated on what is happening there if they have an opportunity to do so. The Member is right to mention that this is an investment in the built heritage of working people in the south Wales Valleys, which is every bit as important as castles, cathedrals and discovering kings in car parks. First of all, I hope that we will be able to interpret that new acquisition by Cadw, primarily for the benefit of those people in the community in which it is embedded, but also to teach lessons and promote understanding across Welsh society about the fact that Cadw and the interpretation of our built heritage are about everybody's ancestors, not just those of some people. It is about every community and not just some communities. The heritage that we should cherish is not connected to wealth but to everybody's history.

Diolch i Chris Chapman am y pwyntiau perthnasol hynny. O ran y bwthyn treftadaeth yng Nghwm Cynon, byddwn yn annog yr holl Aelodau i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn sy'n digwydd yno os oes ganddynt gyfle i wneud hynny. Mae'r Aelod yn iawn i sôn bod hwn yn fuddsoddiad yn nhreftadaeth adeiledig pobl sy'n gweithio yng Nghymoedd y de, sydd yr un mor bwysig â chestyll, eglwysi cadeiriol a darganfod brenhinoedd mewn meysydd parcio. Yn gyntaf oll, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu dehongli'r caffaeliad newydd hwnnw gan Cadw, yn bennaf er budd y bobl hynny yn y gymuned lle mae wedi'i sefydlu, ond hefyd i ddysgu gwersi a hybu dealltwriaeth ar draws y gymdeithas yng Nghymru am y ffaith bod Cadw a dehongli ein treftadaeth adeiledig yn ymwneud â hynafiaid pawb, nid rhai pobl yn unig. Mae'n ymwneud â phob cymuned ac nid dim ond rhai cymunedau. Nid yw'r dreftadaeth y dylem ei thrysori yn gysylltiedig â chyfoeth ond â hanes pawb.

There will be many lessons to learn from the restoration of the heritage cottage. Those historical lessons will be very important. We will also be undertaking a careful study with colleagues from the higher education sector of the energy efficiency of this traditional building. We will be hoping to learn lessons that we will be able to use in housing renewal programmes in future with regard to how traditionally built dwellings can be most sympathetically upgraded with today's energy efficiency needs in mind.

Bydd llawer o wersi i'w dysgu oddi wrth y gwaith o adfer y bwthyn treftadaeth. Bydd y gwersi hanesyddol yn bwysig iawn. Byddwn hefyd yn cynnal astudiaeth ofalus gyda chydweithwyr o'r sector addysg uwch o effeithlonrwydd ynni'r adeilad traddodiadol hwn. Byddwn yn gobeithio dysgu gwersi y byddwn yn gallu eu defnyddio mewn rhaglenni adnewyddu tai yn y dyfodol o ran sut y gall anheddau a adeiladwyd yn draddodiadol gael eu huwchraddio gyda'r cydymdeimlad mwyaf gydag anghenion effeithlonrwydd ynni heddiw mewn cof.

As I say, free access is a central commitment of the Welsh Government when it comes to access to museums. Cadw and CyMAL are working closely and urgently on the issue of transport to these facilities in particular. As you rightly say, that is the single biggest barrier to attendance. I will be particularly looking forward to the outcome and evaluation of the changing cultures programme to see how those barriers have been challenged and overcome by Cadw and CyMAL working together.

Fel y dywedais, mae mynediad am ddim yn un o ymrwymiadau canolog Llywodraeth Cymru pan ddaw at gael mynediad i amgueddfeydd. Mae Cadw a CyMAL yn cydweithio'n agos ac ar frys ar y mater o drafnidiaeth i'r cyfleusterau hyn yn arbennig. Fel y dywedwch yn gywir, dyna'r rhwystr mwyaf i bresenoldeb. Byddaf yn edrych ymlaen yn arbennig at y canlyniad a gwerthuso'r rhaglen diwylliannau sy'n newid i weld sut y mae'r rhwystrau hynny wedi cael eu herio a'u goresgyn gan Cadw a CyMAL yn gweithio gyda'i gilydd.

15:19 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his statement. We on this side of the Chamber recognise the importance of libraries and museums to the cultural life of our country. We also recognise the role that they play in expanding access to educational resources and the potential of our young people. These facilities can also provide a boost to the personal development of those individuals, and can impact on their future educational achievement. It is great that museums are free to enter, but you have to get there first, and they can also be expensive places in which to eat. Minister, do you agree that these assets in Wales are often overlooked and become the first target for cuts, as we are seeing now, for example, with Cardiff Council's recent funding decisions regarding libraries?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cydnabod pwysigrwydd llyfrgelloedd ac amgueddfeydd i fywyd diwylliannol ein gwlad. Rydym hefyd yn cydnabod y rôl y maent yn ei chwarae wrth ehangu mynediad i adnoddau addysgol a photensial ein pobl ifanc. Gall y cyfleusterau hyn hefyd roi hwb i ddatblygiad personol yr unigolion hynny, a gall effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol yn y dyfodol. Mae'n wych bod mynediad i amgueddfeydd yn rhad ac am ddim, ond mae'n rhaid i chi gyrraedd yno yn gyntaf, a gallant hefyd fod yn fannau drud i fwyta ynddynt. Weinidog, a ydych yn cytuno bod yr asedau hyn yng Nghymru yn cael eu hanwybyddu'n aml ac mai nhw yw'r targed cyntaf ar gyfer toriadau, fel yr ydym yn gweld yn awr, er enghraifft, gyda phenderfyniadau ariannu diweddar Cyngor Caerdydd parthed llyfrgelloedd?

I notice in your statement that you say that much of this work involves a committed attitude and approach, which is not always about the size of the budget. Part of that is true, but these facilities cannot exist without funding. While we appreciate that you say that, including today's funding commitment, over £3 million has been committed since November of last year to widening access, will you accept that budgets are being cut throughout Wales, particularly in libraries in crucial areas? This includes an overall cut in the next financial year, I believe, in your department's budget. Minister, will you adopt an approach to ensuring the future viability of our libraries and museums and will you work to turn them into community, cultural and educational hubs, very much like the new Caerphilly library that is being built now, which will combine a heritage centre with those library and community facilities?

Rwy'n sylwi yn eich datganiad eich bod yn dweud bod llawer o'r gwaith hwn yn cynnwys agwedd a dull ymroddedig, nad yw bob amser yn ymwneud â maint y gyllideb. Mae rhan o hynny'n wir, ond ni all y cyfleusterau hyn fodoli heb gyllid. Tra ein bod yn gwerthfawrogi eich bod yn dweud, gan gynnwys ymrwymiad ariannu bresennol, bod dros £3 miliwn wedi'i ymrwymo ers mis Tachwedd y llynedd i ehangu mynediad, a fyddwch yn derbyn bod cyllidebau yn cael eu torri ledled Cymru, yn enwedig mewn llyfrgelloedd mewn ardaloedd allweddol? Mae hyn yn cynnwys toriad cyffredinol yn y flwyddyn ariannol nesaf, rwy'n credu, yng nghyllideb eich adran. Weinidog, a fyddwch yn mabwysiadu dull o sicrhau hyfywedd dyfodol ein llyfrgelloedd ac amgueddfeydd ac a fyddwch yn gweithio i'w troi'n ganolfannau cymunedol, diwylliannol ac addysgol, yn debyg iawn i lyfrgell newydd Caerffili sy'n cael ei hadeiladu'n awr, a fydd yn cyfuno canolfan dreftadaeth gyda'r cyfleusterau llyfrgell a chymunedol hynny?

I know that your department, when I was leader of Caerphilly Council Borough Council, helped fund an exciting project at the Hanbury Road chapel in Bargoed. Will you consider new initiatives, such as that at Hanbury Road, that come forward from local authorities across Wales for additional funding? I would like you to commit to providing assistance to libraries and cultural facilities and museums, particularly those that are under threat and those that are in our most disadvantaged communities.

Gwn fod eich adran, pan oeddwn yn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu i ariannu prosiect cyffrous yng nghapel Hanbury Road ym Margod. A wnewch chi ystyried mentrau newydd, megis yr un yn Hanbury Road, sy'n dod ymlaen gan awdurdodau lleol ar draws Cymru am arian ychwanegol? Hoffwn i chi ymrwymo i ddarparu cymorth i lyfrgelloedd a chyfleusterau diwylliannol ac amgueddfeydd, yn enwedig y rhai sydd o dan fygythiad a'r rhai sydd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

There are other ways that we can make use of these facilities to provide for broader educational needs. You will be aware of cuts to school music services in some local authorities such as Cardiff and in Newport, where young people have held an open-air concert for their councillors. Will you look into ways in which you can provide assistance to expand the educational resources to include things such as community music? Music is part of Welsh culture and heritage, so it could feature in our libraries and cultural centres.

Mae ffyrdd eraill y gallwn wneud defnydd o'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer anghenion addysgol ehangach. Byddwch yn ymwybodol o doriadau i wasanaethau cerddoriaeth yn yr ysgol mewn rhai awdurdodau lleol megis Caerdydd ac yng Nghasnewydd, lle mae pobl ifanc wedi cynnal cyngerdd awyr agored ar gyfer eu cynghorwyr. A fyddwch yn edrych ar ffyrdd y gallwch ddarparu cymorth i ehangu adnoddau addysgol i gynnwys pethau megis cerddoriaeth gymunedol? Mae cerddoriaeth yn rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, felly gallai fod yn ymddangos yn ein llyfrgelloedd a'n canolfannau diwylliannol.

I appreciate that we must try every possible way to reduce social exclusion and child poverty. We have a history in Wales of the working class educating ourselves and climbing out of poverty. We used our workmen's institutes and libraries. We should capture that again, but that is up to you, Minister, with your role and responsibility. Some may say that we are clutching at straws, because we know that the real drivers of child poverty and social exclusion are devastating cuts and an economy that is capsizing under the weight of Conservative ideology. The proof of the pudding in Wales, Minister, will be how we measure the success of your schemes and how you report back to this Assembly on the success of your schemes.

Rwy'n gwerthfawrogi bod yn rhaid i ni geisio pob ffordd bosibl i leihau allgáu cymdeithasol a thlodi plant. Mae gennym hanes yng Nghymru o'r dosbarth gweithiol yn ein haddysgu ein hunain ac yn dringo allan o dlodi. Roeddem yn defnyddio ein sefydliadau gweithwyr a llyfrgelloedd. Dylem ddal hynny eto, ond mae hynny i fyny i chi, Weinidog, ynghylch eich rôl a'ch cyfrifoldeb. Efallai y bydd rhai yn dweud ein bod yn cydio mewn gwelltyn, oherwydd ein bod yn gwybod mai sbardunau gwirioneddol tlodi plant ac allgáu cymdeithasol yw toriadau dinistriol ac economi sy'n cael ei suddo dan bwysau ideoleg y Ceidwadwyr. Bydd y prawf ymarferol yng Nghymru, Weinidog, yn sut yr ydym yn mesur llwyddiant eich cynllun a sut yr ydych yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad hwn ar lwyddiant eich cynlluniau.

15:23

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Lindsay Whittle for those points. Every budget across Government is under pressure. The actions of the UK Government allow no exceptions to that. However, I would dispute the Member's assertion that cultural services—libraries, museums and archives—are the first target for cuts. They are certainly not the first target as far as this Welsh Government is concerned. I would draw his attention to the activities of the UK Government and of local government across the border in England, where swingeing and frightening cuts to local library services are the daily news. That is not the case in Wales. We have concerns at the moment around local library services, for instance in Anglesey and Newport, but the kind of mass closures that are being considered and undertaken by local government in England have not happened in Wales. I am determined that they will not happen in Wales.

Diolch i Lindsay Whittle am y pwyntiau hynny. Mae pob cyllideb ar draws y Llywodraeth o dan bwysau. Nid yw camau gweithredu Llywodraeth y DU yn caniatáu unrhyw eithriadau i hynny. Fodd bynnag, buaswn yn amau honiad yr Aelod mai gwasanaethau diwylliannol—llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau—yw'r targed cyntaf ar gyfer toriadau. Yn sicr nid y nhw yw'r targed cyntaf cyn belled ag y mae Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn. Hoffwn dynnu ei sylw at weithgareddau Llywodraeth y DU a llywodraeth leol ar draws y ffin yn Lloegr, lle mai toriadau llym a brawychus i wasanaethau llyfrgell lleol yw'r newyddion dyddiol. Nid yw hynny'n wir yng Nghymru. Mae gennym bryderon ar hyn o bryd ym maes gwasanaethau llyfrgell lleol, er enghraifft yn Ynys Môn a Chasnewydd, ond nid yw'r math o gau ar raddfa helaeth sy'n cael ei ystyried a'i gyflawni gan lywodraeth leol yn Lloegr wedi digwydd yng Nghymru. Rwy'n benderfynol na fyddant yn digwydd yng Nghymru.

We do this partly through our commitment to this as a political priority, and partly—as he says—by using our investment imaginatively. He is quite right to mention the Hanbury Road Baptist chapel development in Bargoed as a market leader in terms of innovation, which brings together council services, the voluntary sector, a cafe and library services under one roof. There are other examples across Wales. I can underscore my commitment to the public and comprehensive provision of library services in Wales: we will not go through the same experience as some local authorities in England. Here is the measurable difference: the Public Libraries and Museums Act 1964 commits local authorities to a comprehensive library service. If there is any danger that that is under threat in Wales, I am willing to consider all measures, up to and including having our own legislation, to ensure that that kind of axing or targeting of library and cultural services does not happen on this side of the border. That is not the way that we have historically done things in Wales, and we are not about to start now.

Rydym yn gwneud hyn yn rhannol drwy ein hymrwymiad i hyn fel blaenoriaeth wleidyddol, ac yn rhannol—fel y dywed—drwy ddefnyddio ein buddsoddiad yn ddychmygus. Mae'n hollol iawn i sôn am y datblygiad capel y Bedyddwyr Hanbury Road ym Margod fel arweinydd yn y farchnad o ran arloesi, sy'n dwyn ynghyd wasanaethau'r cyngor, y sector gwirfoddol, caffi a gwasanaethau llyfrgell o dan yr un to. Ceir enghreifftiau eraill ledled Cymru. Gallaf danlinellu fy ymrwymiad i ddarpariaeth gyhoeddus a chynhwysfawr o wasanaethau llyfrgell yng Nghymru: ni fyddwn yn mynd trwy'r un profiad â rhai awdurdodau lleol yn Lloegr. Dyma'r gwahaniaeth mesuradwy: mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 yn ymrwymo awdurdodau lleol i wasanaeth llyfrgell cynhwysfawr. Os oes unrhyw berygl bod hwnnw o dan fygythiad yng Nghymru, rwy'n barod i ystyried yr holl fesurau, hyd at ac yn cynnwys cael ein deddfwriaeth ein hunain, er mwyn sicrhau nad yw'r math hwnnw o ddileu neu dargedu gwasanaethau llyfrgell a diwylliannol yn digwydd ar yr ochr hon i'r ffin. Nid dyna'r ffordd yr ydym wedi gwneud pethau'n hanesyddol yng Nghymru, ac nid ydym ar fin dechrau yn awr.

15:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Most of these swingeing cuts to library services in England have taken place under Labour-controlled authorities, and that is a fact that you can verify. In Wales, things have been done differently, and certainly in previous administrations in Swansea and Cardiff there has been massive investment in new central libraries, resulting in increases in the use of those libraries. I must acknowledge the extra money that the Welsh Government has put into libraries, which has resulted in an expansion. However, now that new administrations have taken over, I am concerned that libraries are becoming a target for cuts, such as in Cardiff, as Lindsay Whittle said. That needs to be monitored if we are to rely on libraries as a means of tackling poverty in the way that you outlined in your statement today.

Mae'r rhan fwyaf o'r toriadau llym ar wasanaethau llyfrgell yn Lloegr wedi digwydd mewn awdurdodau dan reolaeth y blaid Lafur, ac mae hynny'n ffaith y gallwch ei gwirio. Yng Nghymru, mae pethau wedi cael eu gwneud yn wahanol, ac yn sicr yn y gweinyddiaethau blaenorol yn Abertawe a Chaerdydd bu buddsoddiad enfawr mewn llyfrgelloedd canolog newydd, gan arwain at gynnydd yn y defnydd o'r llyfrgelloedd hynny. Mae'n rhaid i mi gydnabod yr arian ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi i mewn i lyfrgelloedd, sydd wedi arwain at ehangu. Fodd bynnag, nawr bod gweinyddiaethau newydd wedi cymryd drosodd, rwy'n pryderu bod llyfrgelloedd yn dod yn darged ar gyfer toriadau, megis yng Nghaerdydd, fel y dywedodd Lindsay Whittle. Mae angen monitro hynny os ydym am ddibynnu ar lyfrgelloedd fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi yn y ffordd yr amlinellwyd gennych yn eich datganiad heddiw.

I very much welcome your acknowledgement of the success of free access to museums, which was introduced by Jenny Randerson when she was the Minister for heritage. However, in terms of what you set out in your statement, what seems to be missing from this is some structure as to how exactly we are to engage those valuable libraries and museums to tackle poverty. I noticed that you have put £150,000 extra across your portfolio in this financial year to widen access and encourage participation. However, with only about two months of that year left, it concerns me that we do not have the details of the projects on which that money is being spent. I would be grateful, therefore, if you could now give us the details as to which projects that money is spent on. How are you targeting those projects? How are you monitoring their outcomes? How are you ensuring that they are engaging the right target audience across Wales? Those are important questions if this strategy is to work as you outline. I very much welcome that approach. We need to have assurance that it will engage in the right way, achieve the right outcomes, and deliver what you expect of it.

Rwy'n croesawu eich cydnabyddiaeth o lwyddiant mynediad am ddim i amgueddfeydd, a gyflwynwyd gan Jenny Randerson pan oedd hi'n Weinidog treftadaeth. Fodd bynnag, o ran yr hyn yr ydych yn ei bennu yn eich datganiad, yr hyn sy'n ymddangos i fod ar goll o hyn yw rhywfaint o strwythur o ran sut yn union yr ydym i ymgysylltu â'r llyfrgelloedd a'r amgueddfeydd gwerthfawr hynny i fynd i'r afael â thlodi. Sylwais eich bod wedi rhoi £150,000 ychwanegol ar draws eich portffolio yn y flwyddyn ariannol i ehangu mynediad ac annog cyfranogiad. Fodd bynnag, gyda dim ond tua dau fis o'r flwyddyn honno ar ôl, mae'n achos pryder imi nad oes manylion gennym am y prosiectau y mae'r arian yn cael ei wario arnynt. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech yn awr roi manylion ynglŷn â pha brosiectau y mae'r arian yn cael ei wario arno. Sut ydych chi'n targedu'r prosiectau hynny? Sut ydych chi'n monitro eu canlyniadau? Sut ydych chi'n sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r gynulleidfa darged ar draws Cymru? Mae'r rhain yn gwestiynau pwysig os yw'r strategaeth hon i weithio fel yr ydych yn amlinellu. Rwy'n croesawu'n fawr y dull hwnnw. Mae angen i ni gael sicrwydd y bydd yn ymgysylltu yn y ffordd gywir, yn cyflawni'r canlyniadau iawn, ac yn cyflawni'r hyn y disgwyliwch ohono.

15:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is ironic, is it not, that Peter Black describes library services as being a target for cuts in Wales as a fully signed-up supporter of a political party that targets the entire public sector, based on an ideological commitment to a smaller state and a slimmer, smaller, more parsimonious, public services provision in general? His party engineers that situation in the UK Government and supports it. The Welsh Liberal Democrats are ill-placed to criticize those who try to cope with the fall out.

Mae'n eironig, onid yw, bod Peter Black yn disgrifio gwasanaethau llyfrgell fel targed ar gyfer toriadau yng Nghymru fel cefnogwr sy'n cytuno'n llwyr â phlaid wleidyddol sy'n targedu'r sector cyhoeddus cyfan, yn seiliedig ar ymrwymiad ideolegol i wladwriaeth lai a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus teneuach, llai, mwy cybyddlyd yn gyffredinol? Mae ei blaid yn llunio'r sefyllfa honno yn Llywodraeth y DU ac yn ei chefnogi. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mewn sefyllfa wael i feirniadu'r rhai sy'n ceisio ymdopi â'r cweryla.

I do not know whether Peter Black has really been listening, in terms of the policy changes that I described. There will be further announcements as the year unfolds in terms of our policy commitment to children in poverty. It will rise to the top of the agenda for the activity and commitments of our national institutions, including our national library, national museums and galleries and Cadw. The whole point of these policy changes is to turn the attention of these institutions towards children—in terms of extra-curricular opportunities, their exposure to culture and their educational life chances outside the school curriculum. Those are the types of opportunities and experiences that better-off children can take for granted. This has never been attempted before on such a systematic and determined basis, under Jenny Randerson or any other Minister for culture in Wales, to my knowledge. As this year unfolds, Peter Black will see a determined and structured commitment to this agenda.

Nid wyf yn gwybod a yw Peter Black wedi bod yn gwrando mewn gwirionedd, o ran y newidiadau polisi a ddisgrifiwyd gennyf. Bydd cyhoeddiadau pellach wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen o ran ein hymrwymiad polisi i blant mewn tlodi. Bydd yn codi i frig yr agenda ar gyfer y gweithgaredd ac ymrwymiadau ein sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys ein llyfrgell genedlaethol, amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol a Cadw. Holl bwynt y newidiadau hyn mewn polisi yw troi sylw'r sefydliadau hyn tuag at blant—o ran cyfleoedd allgyrsiol, eu cyflwyno i ddiwylliant a'u cyfleoedd mewn bywyd addysgol y tu allan i gwricwlwm yr ysgol. Dyna'r mathau o gyfleoedd a phrofiadau y gall plant mwy cefnog eu cymryd yn ganiataol. Nid yw hyn erioed wedi cael ei geisio o'r blaen ar y fath sail systematig a phenderfynol, o dan Jenny Randerson, neu unrhyw Weinidog diwylliant arall yng Nghymru, hyd y gwn i. Wrth i'r flwyddyn hon ddatblygu, bydd Peter Black yn gweld ymrwymiad pendant a strwythuredig i'r agenda hon.

15:29

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Contrary to the nonsense propagated by Peter Black, I am sure that the Minister would like to join me in congratulating Cardiff Council for keeping all its libraries open. [Laughter.] You may laugh, but, despite the fact that the council is having to implement £22 million-worth of cuts as a result of the UK coalition Government's cuts in public expenditure, it is managing to keep all its libraries open. [Interruption.] Although, it is having to cut one day a week, it is keeping them open for five days a week, which includes Saturday. I would argue that that is not making a material difference to the services that all members of the community, and children in particular, are able to access in our libraries.

Yn groes i'r nonsens a ledaenir gan Peter Black, rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn hoffi ymuno â mi i longyfarch Cyngor Caerdydd am gadw ei holl lyfrgelloedd yn agored. [Chwerthin.] Gallwch chwerthin, ond, er gwaethaf y ffaith bod y cyngor yn gorfod gweithredu gwerth £22 miliwn o doriadau o ganlyniad i doriadau Llywodraeth glymblaid y DU mewn gwariant cyhoeddus, mae'n llwyddo i gadw ei holl lyfrgelloedd yn agored. [Torri ar draws.] Er ei fod yn gorfod torri un diwrnod yr wythnos, mae'n eu cadw ar agor am bum niwrnod yr wythnos, sy'n cynnwys dydd Sadwrn. Byddwn yn dadlau nad yw hynny'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gwasanaethau y mae aelodau o'r gymuned, a phlant yn arbennig, yn gallu eu cael yn ein llyfrgelloedd.

As Jeanette Winterson pointed out in her autobiography, 'Why be Happy When you Could be Normal?', the importance of libraries—[Interruption.]

Fel y nododd Jeanette Winterson yn ei hunangofiant, 'Why be Happy When you Could be Normal?', pwysigrwydd llyfrgelloedd-[Torri ar draws.]

15:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. We are addressing the Minister's statement. Can you ask some questions on the statement, please?

Trefn. Rydym yn rhoi sylw i ddatganiad y Gweinidog. Allwch chi ofyn rhai cwestiynau am y datganiad, os gwelwch yn dda?

15:30

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. I wish to congratulate you, Minister, on your support for libraries. I also wish to highlight the excellent work that is going on in the libraries in my constituency, including story time, rhyme time, and language and play sessions, particularly in our Communities First and Flying Start areas, in Llanedeyrn, and in Roath library, which serves Adamsdown and Splott. The important work that that is doing in reaching families where books are not a central feature of their homes, will prevent three-year-olds arriving in school unable to speak. It is such an important initiative. Therefore, could you tell us some more about how the £150,000 that you have committed today will be spent? Will it be targeted on those crucial early years, or is there some other way in which you plan to spend it?

Iawn. Hoffwn eich llongyfarch, Weinidog, am eich cefnogaeth i lyfrgelloedd. Hoffwn hefyd dynnu sylw at y gwaith ardderchog sy'n mynd ymlaen yn y llyfrgelloedd yn fy etholaeth, gan gynnwys amser stori, amser rhigwm, a sesiynau iaith a chwarae, yn enwedig yn ein hardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn Llanedeyrn, ac yn llyfrgell y Rhath, sy'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot. Bydd y gwaith pwysig y mae hynny'n ei wneud i gyrraedd teuluoedd lle nad yw llyfrau yn nodwedd ganolog o'u cartrefi, yn atal rhai tair blwydd oed rhag cyrraedd ysgol heb allu siarad. Mae'n fenter mor bwysig. Felly, a allech ddweud rhagor wrthym am sut y bydd y £150,000 yr ydych wedi ei ymrwymo heddiw yn cael ei wario? A fydd yn cael ei dargedu ar y blynyddoedd cynnar hanfodol bwysig, neu a oes rhyw ffordd arall yr ydych yn bwriadu ei wario?

15:31 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is ironic to listen to laughter from opposition Members and to hear the determination of, in this instance, a local authority—but I would also include the Welsh Government as part of that—to protect the central importance of library services to the health and wellbeing of our communities being mocked. Jenny Rathbone has put her finger on an important issue: it is not just a question of preserving the service, although we do that, and do so in difficult circumstances, under financial attack from a UK Government whose priorities are very different to ours when it comes to cultural provision in our communities. We do not just preserve the service, but we simultaneously embark on an historic shift in terms of who benefits from these services. We go out there and proactively seek to ensure that no-one is excluded. In a small way, that is what this additional £150,000 is about. It is primarily about the fight against child poverty, but it is also about inclusion, and about ensuring that every child in Wales is contacted and is influenced by these services.

Mae'n eironig gwrando ar chwerthin gan Aelodau'r gwrthbleidiau ac i glywed penderfyniad, yn yr achos hwn, awdurdod lleol—ond byddwn hefyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru fel rhan o hynny—i amddiffyn pwysigrwydd canolog gwasanaethau llyfrgell i iechyd a lles ein cymunedau yn cael ei wawdio. Mae Jenny Rathbone wedi rhoi ei bys ar fater pwysig: nid dim ond mater o warchod y gwasanaeth ydyw, er ein bod yn gwneud hynny, a gwneud hynny mewn amgylchiadau anodd, dan ymosodiad ariannol gan Lywodraeth y DU y mae ei blaenoriaethau yn wahanol iawn i ni pan fydd yn dod i ddarpariaeth ddiwylliannol yn ein cymunedau. Nid cadw'r gwasanaeth yn unig yr ydym, ond rydym ar yr un pryd yn cychwyn ar newid hanesyddol o ran pwy sy'n cael budd o'r gwasanaethau hyn. Rydym yn mynd allan yno ac yn mynd ati i sicrhau nad oes neb wedi ei eithrio. Mewn ffordd fach, mae'r £150,000 ychwanegol yn ymwneud â hyn. Mae'n ymwneud yn bennaf â'r frwydr yn erbyn tlodi plant, ond mae hefyd yn ymwneud â chynhwysiant, ac am sicrhau y cysylltir â phob plentyn yng Nghymru a'u bod yn cael eu dylanwadu gan y gwasanaethau hyn.

15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.33 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.33 p.m.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol—y Bil Twf a Seilwaith—Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer Cydsyniadau i Gynhyrchu

## Legislative Consent Motion – Growth and Infrastructure Bill—Deemed Planning Permission for Generating Consents

Cynnig NDM5124 John Griffiths

Motion NDM5124 John Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu o dan adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989, sydd wedi cael eu dwyn ymlaen yn y Bil Twf a Seilwaith, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions relating to deemed planning permission for generating consents under sections 36 and 37 of the Electricity Act 1989, which have been brought forward in the Growth and Infrastructure Bill, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

15:33 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy / The Minister for Environment and Sustainable Development*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Thank you for this opportunity to explain the background to the legislative consent motion on the Growth and Infrastructure Bill in relation to the Electricity Act 1989 consents and deemed planning permission. I would also like to thank the Assembly's Environment and Sustainability Committee for its work in scrutinising the LCM.

Diolch i chi am y cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Twf a Seilwaith mewn perthynas â chydsyniadau a chaniatâd cynllunio tybiedig Deddf Trydan 1989. Hoffwn hefyd ddiolch i Bwyllgor Amgylchedd a'r Cynaliadwyedd y Cynulliad am ei waith craffu ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

The LCM laid before the Assembly on 13 December summarises the provisions of the Growth and Infrastructure Bill, which was introduced in the House of Commons on 18 October 2012. The aim of the Bill is to promote growth and to facilitate the provision or the use of infrastructure. The Bill includes amendments to the consenting regime for the construction, extension or operation of power stations under section 36 of the Electricity Act 1989, so that the Secretary of State has power to vary consents granted under that provision.

Mae'r LCM a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 13 Rhagfyr yn crynhoi darpariaethau'r Bil Twf a Seilwaith, a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Hydref 2012. Nod y Bil yw hyrwyddo twf a hwyluso'r broses o ddarparu neu ddefnyddio isadeiledd. Mae'r Bil yn cynnwys diwygiadau i'r gyfundrefn gydsynio ar gyfer adeiladu, ymestyn neu weithredu gorsafoedd pŵer o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989, fel bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i amrywio caniatâd a roddwyd o dan y ddarpariaeth honno.

It is the view of the Welsh Government that an LCM is required because clause 19—formerly clause 18, and referred to as such in the LCM—of the Bill makes provision about planning permission deemed to be granted in connection with a section 36 or section 37 consent. Government amendment to the Bill means that provision now applies in relation to Wales. It is the view of the Welsh Government that the purpose of clause 19 is to amend the scope and operation of the town and country planning regime and that those provisions therefore fall within the National Assembly's legislative competence as set out in subject 18, Town and country planning, in Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006.

Barn Llywodraeth Cymru yw bod cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn angenrheidiol oherwydd bod cymal 19—cymal 18 cyn hynny, ac y cyfeirir ato felly yn y LCM—y Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch y tybir bod caniatâd cynllunio wedi ei roi mewn cysylltiad â chaniatâd adran 36 neu adran 37. Mae gwelliant y Llywodraeth i'r Bil yn golygu bod y ddarpariaeth yn berthnasol bellach mewn perthynas â Chymru. Barn Llywodraeth Cymru yw mai diben cymal 19 yw diwygio cwmpas a gweithrediad y gyfundrefn cynllunio gwlad a thref bod y darpariaethau felly'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y nodir ym mhwnc 18, cynllunio Gwlad a thref, yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

It is also the view of the Welsh Government that it is appropriate to deal with these provisions in this UK Bill as it is represents the most appropriate and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in Wales. This LCM will help a number of existing section 36 consents, as well as a small number of outstanding applications for consent under that section, caught between the transition of consenting regime from the Electricity Act 1989 to the Planning Act 2008.

Barn Llywodraeth Cymru hefyd yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau ym Mil y DU gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol yng Nghymru. Bydd yr LCM hwn yn helpu nifer o ganiatadau adran 36 presennol, yn ogystal â nifer fach o geisiadau sy'n aros am ganiatâd o dan yr adran honno, sydd wedi'u dal rhwng trawsnewid y drefn ganiatáu o Ddeddf Trydan 1989 i Ddeddf Cynllunio 2008.

There are projects amounting to many hundreds of megawatts, which could be undermined by a failure to give developers the flexibility that the Department of Energy and Climate Change proposes. Five projects amounting to 1,820 MW, of which 950 MW is renewable, have been consented under section 36 of the Energy Act in Wales, but have not yet been built. Six projects have live applications for section 36 consents in Wales amounting to 500-650 MW, all of them renewable. Therefore this legislative consent motion should be supported. It is on that basis that it is placed before the Assembly for approval.

Mae prosiectau yn dod i gannoedd lawer o fegawatiau, y mae posibilrwydd iddynt gael eu tanseilio gan fethiant i roi hyblygrwydd i ddatblygwyr y mae'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn ei gynnig. Mae pum prosiect gwerth 1,820 MW, y mae 950 MW yn adnewyddadwy, wedi cael caniatâd o dan adran 36 o Ddeddf Ynni yng Nghymru, ond nid ydynt eto wedi'u hadeiladu. Mae chwe phrosiect â cheisiadau byw ar gyfer caniatâd adran 36 yng Nghymru yn dod i gyfanswm o 500-650 MW, pob un ohonynt yn adnewyddadwy. Felly dylai'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol gael ei gefnogi. Ar y sail y caiff ei roi gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo.

15:37

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch am y cyfle i ddweud gair, a diolch i'r Gweinidog am geisio esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Nodaf fod y Llywodraeth yn dweud nad yw'r LCM yn rhagfarnu safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ar roi caniatâd cynllunio i gynlluniau ynni. Deallaf nad dyna bwynt yr LCM hwn, ond gan fod y Llywodraeth wedi gwneud cyfeiriad at hynny, a bod safbwynt Plaid Cymru yn hollol glir ynglŷn â'r ffaith y dylai'r pwerau dros ganiatâd cynllunio ar gynlluniau ynni fod yn eu crynswth i Gymru, beth yn union yw safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwerau dros reolaeth a chaniatâd cynllunio ar gyfer cynlluniau ynni? Buaswn yn ddiolchgar i'r Gweinidog petai'n gallu rhoi eglurhad ar hynny.

Thank you for the opportunity to say a few words, and I thank the Minister for endeavouring to explain the background of this legislative consent motion. I note that the Government states that the LCM does not prejudice the Welsh Government's general position on giving planning consent to energy projects. I understand that that is not the point of this LCM, but given that the Government has made reference to that, and given that Plaid Cymru's stance is entirely clear in that we believe that powers over planning consent for energy projects should be transferred in their entirety to Wales, what exactly is the Welsh Government's position in relation to powers over the control and consent regime for energy projects? I would be grateful if the Minister could give us some explanation of that.

Mae elfen o aneglurder ar hyn o bryd ym meddyliau pobl ar lawr gwlad, ac hefyd ymhlith cwmnïau a busnesau sydd â diddordeb yn y maes hwn a diddordeb i ddatblygu cynlluniau, oherwydd yr ansicrwydd hwn ynglŷn â lle mae'r cyfrifoldebau hyn yn gorwedd. Felly, trwy gael y pwerau llawn, buasem ni yn y Cynulliad hwn yn gallu datblygu cynlluniau a sicrhau bod rhagor o ynni yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn wyrdd ac yn lân yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn dymuno iddo ddigwydd. Felly, gyda hynny, rwy'n cefnogi'r LCM hwn, ond a wnaiff y Gweinidog roi esboniad llawn o safbwynt y Llywodraeth ar hyn o bryd?

There is a certain lack of clarity at present in the minds of people out there, and among companies and businesses that have an interest in this field and an interest in developing projects, as a result of the uncertainty about where responsibility lies. Therefore, through having full powers, we in the Assembly would be able to develop projects and ensure that more energy is produced in Wales in the clean and green way that the Government aspires towards. Therefore, with those few words, I support this LCM, but will the Minister provide a full explanation of the Government's position at present?

15:39

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for your statement today.

I thank the Minister very much for bringing forward this LCM before the Assembly today and confirm the strong support of the Welsh Liberal Democrat group for its contents. The Growth and Infrastructure Bill offers the UK as a whole a real opportunity to streamline aspects of our planning system, and hopefully to allow applications to be more responsive to technological developments by giving the Secretary of State powers within the process.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog yn fawr iawn am gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Cynulliad heddiw ac rwy'n cadarnhau cefnogaeth gref grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'w gynnwys. Mae'r Bil Twf a Seilwaith yn cynnig cyfle gwirioneddol i'r DU yn ei chyfanrwydd i symleiddio agweddau ar ein system gynllunio, a, gobeithio, i ganiatáu ceisiadau i fod yn fwy ymatebol i ddatblygiadau technolegol drwy roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn y broses.

Given the issues that have arisen recently, particularly around large-scale power stations in Wales, and given the controversy surrounding future grid infrastructure, I very much hope that the UK Government's new Bill will indeed allow us to make the best possible decisions when it comes to large-scale generation and to enable changes to be made as appropriate when new evidence comes to light.

O ystyried y materion sydd wedi codi yn ddiweddar, yn enwedig o amgylch gorsafoedd ynni graddfa fawr yng Nghymru, ac o ystyried y ddadl ynghylch seilwaith grid yn y dyfodol, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Bil newydd Llywodraeth y DU yn wir yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau posibl pan ddaw at gynhyrchu ar raddfa fawr ac i alluogi newidiadau i gael eu gwneud fel y bo'n briodol pan fydd tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg.

15:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

15:40

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy / The Minister for Environment and Sustainable Development*

Dealing first with Alun Ffred Jones's point, I reassure him, I hope, that this LCM in no way undermines the Welsh Government's clear commitment to gaining for Wales the ability to make a joined-up, coherent offer to all concerned with developing energy projects in Wales. We would want the ability to deal with applications for projects over 50 MW. That would extend to all projects apart from nuclear ones. It would also extend to related consents so that we could have full power in Wales to deal with those projects. However, we are not in that position yet and we have to ensure that we can offer as user-friendly a system as possible within the current position.

Gan ymdrin yn gyntaf â phwynt Alun Ffred Jones, rwy'n ei gysuro, rwy'n gobeithio, nad yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn mewn unrhyw ffordd yn tanseilio ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i ennill dros Gymru y gallu i wneud cynnig cydgysylltiedig, cydlynol i bawb sy'n ymwneud â datblygu prosiectau ynni yng Nghymru. Byddem am gael y gallu i ddelio â cheisiadau ar gyfer prosiectau dros 50 MW. Byddai hynny'n ymestyn i bob prosiect ar wahân i rai niwclear. Byddai hefyd yn ymestyn i ganiatâd cysylltiedig fel y gallem gael grym llawn yng Nghymru i ddelio gyda'r prosiectau hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn y sefyllfa honno eto ac mae'n rhaid i ni sicrhau y gallwn gynnig system mor gyfeillgar i'r defnyddiwr ag sydd yn bosibl o fewn y sefyllfa bresennol.

If this motion is passed, Dirprwy Lywydd, then these amendments to the UK Growth and Infrastructure Bill will help us to facilitate the development of considerable amounts of new energy capacity in Wales, on which I think there is a general consensus in the Assembly. I welcome William Powell's comments in recognising the importance of this LCM to help us achieve that. It is about making our transition to a low carbon economy and energy generation scene in Wales. I would like to thank all Members for their support for that general direction of travel, and I hope that we will have approval of the LCM in due course.

Os derbynnir y cynnig, Ddirprwy Lywydd, yna bydd y diwygiadau hyn i Fil Twf ac Isadeiledd y DU yn ein helpu i hwyluso datblygiad symiau sylweddol o gapasiti ynni newydd yng Nghymru, y credaf y mae consensws cyffredinol arno yn y Cynulliad. Rwy'n croesawu sylwadau William Powell wrth gydnabod pwysigrwydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol i'n helpu i gyflawni hynny. Mae'n ymwneud â gwneud ein newid i economi carbon a golygfa gynhyrchu ynni isel yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cefnogaeth i'r cyfeiriad teithio cyffredinol, ac rwy'n gobeithio y bydd gennym gymeradwyaeth yr LCM maes o law.

15:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—y Bil Twf a Seilwaith—Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

## Supplementary Legislative Consent Motion—Growth and Infrastructure Bill—Amendments to the Local Government Finance Act 1988

Cynnig NDM5125 Edwina Hart

Motion NDM5125 Edwina Hart

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Twf a Seilwaith sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Growth and Infrastructure Bill relating to amendments to the Local Government Finance Act 1988, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

15:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth / The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would like to begin by thanking the Enterprise and Business Committee for its work on the legislative consent motion. I am pleased that the committee supports the use of an LCM as proposed by the Welsh Government. I brought forward this LCM so that, while Ministers can have the ability to decide on the date of the next non-domestic rates re-evaluation exercise in Wales, the issue has arisen as a consequence of a decision by the UK Government to postpone the re-evaluation exercise in England scheduled for 2015 -17. The Department for Communities and Local Government inserted provisions to this effect into the Growth and Infrastructure Bill on an England-only basis last October. The decision made by the Department for Communities and Local Government will have been taken after considering the potential impact on the business sector in England. It is only right that before any decision is made on the date of re-evaluation in Wales, we have the opportunity to consider the relevant issues for Wales.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes am ei waith ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Rwy'n falch bod y pwyllgor yn cefnogi'r defnydd o LCM fel y cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Deuthum ymlaen â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, er y gall Gweinidogion gael y gallu i benderfynu ar y dyddiad yr ymarfer ail-werthuso cyfraddau annomestig nesaf yng Nghymru, fel bod y mater wedi codi o ganlyniad i benderfyniad gan Lywodraeth y DU i ohirio'r ymarfer ail-werthuso yn Lloegr a drefnwyd ar gyfer 2015 -17. Roedd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi mewnosod darpariaethau i'r perwyl hwn yn y Bil Twf a Seilwaith ar sail Lloegr yn unig fis Hydref diwethaf. Bydd y penderfyniad a wnaed gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cael eu cymryd ar ôl ystyried yr effaith bosibl ar y sector busnes yng Nghymru. Nid yw ond yn iawn, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ar y dyddiad ail-werthuso yng Nghymru, bod gennym y cyfle i ystyried y materion perthnasol i Gymru.

Under existing legislation, Scotland and Northern Ireland have the ability to decide when they undertake their re-evaluations, but Wales does not have a similar degree of flexibility. I therefore sought an amendment to the Bill to give Welsh Ministers the appropriate powers, which the UK Government agreed to take and has been very helpful in facilitating.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r gallu gan yr Alban a Gogledd Iwerddon i benderfynu pan fyddant yn cynnal eu hail-werthuso, ond nid oes gan Gymru lefel debyg o hyblygrwydd. Felly ceisiais welliant i'r Bil er mwyn rhoi i Weinidogion Cymru y pwerau priodol, y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i'w gymryd ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ei hwyluso.

15:43

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad. Mae'r LCM arfaethedig hwn yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru benderfynu pryd i asesu, ailasesu ac ailbrisio trethi busnes. Rwyf yn derbyn ar lefel gyffredinol, wrth gwrs, safbwynt y Gweinidog fod yr hyblygrwydd hwnnw'n bodoli ar hyn o bryd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er hynny, buaswn yn hoffi eglurhad manylach ynglŷn â pham yn union y mae'n credu bod angen yr hyblygrwydd arni. Wedi'r cwbl, mae'r ailbrisio hwn yn digwydd bob pum mlynedd, a gwyddom un peth, sef os ydych yn ei ohirio, mae'r ailbrisiad nesaf bob amser yn fwy o sioc oherwydd bod y cynnydd, fel arfer, yn fwy. Rwyf yn gofyn i'r Gweinidog am ateb mwy eglur ynglŷn â pham y mae'n credu bod angen yr hyblygrwydd hwn arni oherwydd buaswn yn tybio y gallai hi wneud penderfyniad eisoes ar b'un ai i ohirio ai peidio.

I thank the Minister for the statement. This LCM would give the Welsh Government flexibility to decide when to assess, reassess and re-evaluate business rates. I accept, on a general level of course, the Minister's view that that flexibility currently exists in Scotland and Northern Ireland. However, I would like some more detailed explanation as to why exactly she believes she needs that flexibility. After all, a re-evaluation takes place every five years, and we know one thing for sure, which is that if you postpone it, the next re-evaluation comes as more of a shock because the increase is usually greater. I ask the Minister for a fuller explanation as to why she believes the flexibility is necessary because I would have thought that it was already possible for her to make a decision on whether or not to postpone.

Yn gefndir i hwn eto mae holl fater datganoli trethi busnes. Rwyf yn deall nad dyna bwrpas yr LCM hwn. Mae safbwynt Plaid Cymru yn glir ar y mater sef y dylid datganoli trethi busnes yn gyfan gwbl, yn ogystal â'r rheolaeth dros y broses honno. Dyna hefyd safbwynt comisiwn Silk a safbwynt yr Athro Brian Morgan yn ei adroddiad i'r Gweinidog. Felly, a yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddatganoli holl faes trethi busnes i Lywodraeth y Deyrnas Unedig?

As a background to this, there is the whole issue of the devolution of business rates, but I understand that that is not the purpose of this LCM. Plaid Cymru's position is clear, namely that business rates should be devolved completely, as should the regulation of that process. That is also the position of the Silk commission and that of Professor Brian Morgan in his report to the Minister. Therefore, has the Welsh Government asked the United Kingdom Government for the devolution of the entire field of business rates?

15:45

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for bringing forward this supplementary LCM today. We all recognise the difficulties that SMEs face at the moment, and business rates are usually at the top of the list of things that they raise with us.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol heddiw. Rydym i gyd yn cydnabod yr anawsterau y mae busnesau bach a chanolig yn eu hwynebu ar hyn o bryd, ac mae ardrethi busnes fel arfer ar frig y rhestr o bethau y maent yn eu codi gyda ni.

One of the critical issues regarding business rates is timing, and the last revaluation took place at the top of the market and caused particular difficulties for many of our businesses, particularly those in very popular locations where they suddenly found that the value and income of their business subsequently plummeted. Therefore, this LCM is very timely and I thank you for bringing it forward. The critical thing, however, is that we must ensure that we do not repeat the same mistake. We must find the right balance between having a stable tax income for councils to spend on services and finding a fair deal for business.

Un o'r materion allweddol ynghylch ardrethi busnes yw amseru, digwyddodd yr ailbrisio diwethaf ar frig y farchnad ac achosodd anawsterau penodol i lawer o'n busnesau, yn enwedig y rhai mewn lleoliadau poblogaidd iawn lle maent yn sydyn yn canfod bod gwerth ac incwm eu busnes wedi plymio yn dilyn hynny. Felly, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn amserol iawn a diolch ichi am ei gyflwyno. Y peth hanfodol, fodd bynnag, yw bod yn rhaid i ni sicrhau nad ydym yn ailadrodd yr un camgymeriad. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng cael treth incwm sefydlog ar gyfer cynghorau i wario ar wasanaethau a dod o hyd i fargen deg ar gyfer busnes.

I am glad that the Minister will consult Professor Brian Morgan once again, and I hope that she will share that advice in the Chamber. Businesses need stability and certainty, although there is a question in my mind as to whether or not delaying the revaluation for too long will mean that we will hit the top of the market again, and that we run out of time to delay any further. Therefore, I ask the Minister to act swiftly on advice, but we intend to support this LCM today.

Rwy'n falch y bydd y Gweinidog yn ymgynghori â'r Athro Brian Morgan unwaith eto, a gobeithiaf y bydd yn rhannu'r cyngor hwnnw yn y Siambr. Mae ar fusnesau angen sefydlogrwydd a sicrwydd, er bod amheuaeth yn fy meddwl p'un a fydd gohirio'r ymarfer ailbrisio yn rhy hir yn golygu y byddwn yn cyrraedd brig y farchnad unwaith eto, a'n bod yn rhedeg allan o amser i oedi ymhellach. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog i weithredu'n gyflym ar gyngor, ond rydym yn bwriadu cefnogi'r LCM heddiw.

15:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I apologise for following biblical prescriptions again in calling the first last, but we will now hear from the Chair of the Enterprise and Business Committee.

Ymddiheuraf am ddilyn rhagnodiadau Beiblaidd eto yn galw'r olaf yn gyntaf, ond byddwn yn awr yn clywed gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes.

15:47

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that my colleagues on the Enterprise and Business Committee have adequately represented the concerns and issues that the committee had, so I am grateful to them and I will be brief.

Credaf fod fy nghydweithwyr ar y Pwyllgor Menter a Busnes wedi dangos yn ddigonol y pryderon a'r materion oedd gan y pwyllgor, felly rwy'n ddiolchgar iddyn nhw a byddaf yn gryno.

As other Members have said, as a committee we would have liked the legislative consent motion to have set out more clearly why the Welsh Government was seeking greater flexibility than Ministers in England. However, the committee received and was grateful for the Minister's letter of 15 January, which provided further background on the reasons for the additional flexibility being sought in Wales. As I understand the Minister's letter, the reason for seeking additional flexibility is to allow a greater degree of time for Professor Brian Morgan to report back on what we accept is a complex matter, before a decision on the next revaluation date is taken. If I heard the Minister correctly, you said that the thought process and research that has been done into the effect of a revaluation and the timing of that on businesses in England needs to be done here so that you know exactly when the best time will be to have that revaluation.

Fel y dywedodd Aelodau eraill, fel pwyllgor byddem wedi hoffi i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol fod wedi nodi'n gliriach pam y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mwy o hyblygrwydd na Gweinidogion yn Lloegr. Fodd bynnag, derbyniodd y pwyllgor ac roedd yn ddiolchgar i dderbyn llythyr y Gweinidog ar 15 Ionawr, a oedd yn darparu cefndir pellach ar y rhesymau dros yr hyblygrwydd ychwanegol oedd yn cael ei geisio yng Nghymru. Fel yr wyf yn deall llythyr y Gweinidog, y rheswm dros geisio hyblygrwydd ychwanegol yw caniatáu mwy o amser i'r Athro Brian Morgan adrodd yn ôl ar yr hyn yr ydym yn derbyn sy'n fater cymhleth, cyn gwneud penderfyniad ar y dyddiad ailbrisio nesaf. Os clywais y Gweinidog yn gywir, dywedasoch fod angen i'r broses feddwl a'r ymchwil sydd wedi'i wneud i effaith ailbrisio ac amseriad hynny ar fusnesau yn Lloegr gael ei wneud yma fel eich bod yn gwybod yn union pryd y bydd yr amser gorau i gael yr ailbrisio.

Taking that on board, Minister, we are content with the new power being proposed in the LCM to give flexibility to the Assembly. We also recognise that the LCM process is an appropriate and proportionate means of securing this power for Welsh Ministers. However, the committee agreed that it would be extremely helpful to have further information on the progress of Professor Brian Morgan's review, and that we would be very grateful if you would keep us informed when proposals to change the revaluation date are finalised so that the committee has sufficient time at that point to scrutinise the proposal, if we think that it is the right thing to do.

Gan dderbyn hynny, Weinidog, rydym yn fodlon ar y pŵer newydd sy'n cael ei gynnig yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol i roi hyblygrwydd i'r Cynulliad. Rydym hefyd yn cydnabod bod y broses LCM yn ddull priodol a chymesur o sicrhau'r pŵer i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, cytunodd y pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol iawn cael rhagor o wybodaeth am gynnydd adolygiad yr Athro Brian Morgan, ac y byddem yn ddiolchgar iawn pe byddech yn rhoi gwybod i ni pan fydd cynigion i newid y dyddiad ailbrisio yn cael eu cwblhau fel bod gan y pwyllgor ddigon o amser ar y pwynt hwnnw i graffu ar y cynnig, os ydym yn credu mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

15:49

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank all the speakers for participating, particularly the Chair of the committee, because I was grateful for the committee's support on this particular issue.

Diolch i'r holl siaradwyr am gymryd rhan, yn enwedig Cadeirydd y pwyllgor, oherwydd fy mod yn ddiolchgar am gefnogaeth y pwyllgor ar y mater penodol hwn.

We will be re-establishing the five-year cycle of revaluation once the date of the next exercise is provided in the new clause, which is quite important. The five-year cycle was established under the Local Government Finance Act 1988 and provides businesses with certainty on the dates of future revaluations and ensures that tax bills are based on the most up-to-date information.

Byddwn yn ail-sefydlu'r cylch pum mlynedd o ailbrisio unwaith y darperir dyddiad yr ymarfer nesaf yn y cymal newydd, sy'n eithaf pwysig. Sefydlwyd y cylch pum mlynedd o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac mae'n darparu busnesau gyda sicrwydd ar ddyddiadau ailbrisiadau yn y dyfodol ac yn sicrhau bod biliau treth yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf.

After scrutiny, the committee asked for further information about Professor Brian Morgan's review. In my response to the business rates review, I announced that he would look further at the issues surrounding revaluation, and I have asked that he look at having discussions with business. For example, he has already met the members of the Council for Economic Renewal to take their views about the issues that Eluned Parrott raised on whether we will be at the top end of the market or in a better place at the time of revaluation, because I am afraid that there are always winners and losers when we look at these issues.

Ar ôl craffu, gofynnodd y pwyllgor am fwy o wybodaeth am adolygiad yr Athro Brian Morgan. Yn fy ymateb i adolygiad ardrethi busnes, cyhoeddais y byddai'n edrych ymhellach ar y materion sy'n ymwneud ag ailbrisio, ac rwyf wedi gofyn iddo ystyried cael trafodaethau gyda busnesau. Er enghraifft, mae eisoes wedi cyfarfod aelodau Cyngor Adnewyddu'r Economi i gymryd eu barn am y materion a godwyd Eluned Parrott p'un a fyddwn ar ben uchaf y farchnad neu mewn lle gwell ar adeg yr ailbrisio, oherwydd rwy'n ofni bod bob amser enillwyr a chollwyr pan fyddwn yn edrych ar y materion hyn.

Professor Brian Morgan provides advice to me on this issue, and there are advantages and disadvantages whenever the data are taken. Before any decision is taken, I am hoping to have further work from Brian Morgan shortly. I will meet the party spokespeople to discuss the issues in more depth, because it would be nice to have a consensus when Professor Morgan provides his recommendations on how to take this forward. However, the purpose of today's debate is not about when it will happen; it is about us having the powers. On the wider issue of business rates, I think that they would be useful for us, as a Government.

Mae'r Athro Brian Morgan yn rhoi cyngor i mi ar y mater hwn, ac mae manteision ac anfanteision pryd bynnag y bydd data yn cael ei gymryd. Cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud, rwy'n gobeithio cael gwaith pellach gan Brian Morgan yn fuan. Byddaf yn cwrdd â llefarwyr y pleidiau i drafod y materion yn fwy manwl, oherwydd byddai'n braf cael consensws pan fydd yr Athro Morgan yn rhoi ei argymhellion ar sut i ddatblygu hyn. Fodd bynnag, nid diben y ddadl heddiw yw pryd y bydd yn digwydd, mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn cael y pwerau. O ran y mater ehangach o ardrethi busnes, rwy'n meddwl y byddent yn ddefnyddiol i ni, fel Llywodraeth.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

# Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013

# The Civil Enforcement of Road Traffic Contraventions (Representations and Appeals) Removed Vehicles (Wales) Regulations 2013

Cynnig NDM5158 Jane Hutt

Motion NDM5158 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2012.

Approves that the draft The Civil Enforcement of Road Traffic Contraventions (Representations and Appeals) Removed Vehicles (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 19 December 2012.

15:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The Civil Enforcement of Road Traffic Contraventions (Representations and Appeals) Removed Vehicles (Wales) Regulations 2013 form part of a package of four statutory instruments that will enable local authorities in Wales to enforce bus lanes and moving traffic offences, in addition to parking contraventions that are already in force. These four statutory instruments will be applied and the package consolidates the powers that are available to local authorities to take civil enforcement.

Mae Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013 yn ffurfio rhan o becyn o bedwar offeryn statudol a fydd yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i orfodi troseddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud, yn ychwanegol at dramgwyddau parcio sydd eisoes mewn grym. Bydd y pedwar offeryn statudol yn cael eu cymhwyso ac mae'r pecyn yn atgyfnerthu'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi sifil.

15:51

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar ran Plaid Cymru, croesawaf y rheoliadau hyn. Credaf y byddent yn werthfawr iawn gyda'r rhai sy'n troseddu o ran gadael cerbydau ar ein heolydd i greu rhwystrau. Rwy'n siŵr y bydd llywodraeth leol yn gweld y rheoliadau hyn fel ffordd effeithiol o sicrhau bod modd mynd i'r afael â'r broblem hon.

On behalf of The Party of Wales, I welcome these regulations. I believe that they will be very valuable in cases where people offend by leaving vehicles on our roads, thereby creating disruption. I am sure that local government will see these regulations as an effective means of ensuring that it is possible to tackle this problem.

Hoffwn godi pwynt nad ydyw wedi'i gyfeirio ato yn y rheoliadau hyn, sef y broblem sy'n codi gyda llwybrau seiclo a phan mae cerbydau yn eu rhwystro nhw. A yw'r Gweinidog yn bwriadu edrych ar y broblem hon? Beth fyddai'n digwydd o ran hawl unigolion i geisio sicrhau bod y llwybrau seiclo hyn yn cael eu rhyddhau ar gyfer y pwrpas y bwriedir iddynt, sef i seiclo arnynt? A oes modd i unigolion gyflwyno cwyn yn erbyn y rhai sy'n rhwystro'r llwybrau hyn?

I would like to raise a point that has not been referred to in these regulations, namely the problem that arises in relation to cycle paths and their obstruction by vehicles. Does the Minister intend to look at this problem? What would happen with regard to the rights of individuals to seek to ensure that these cycle lanes are cleared so that they can be used for the purpose for which they were intended, namely for cycling? Is there a way for individuals to make a complaint against those who block these paths?

15:53

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities*

I thank the Member for his support and his questioning. The package simplifies and streamlines the regulations—which consist of many elements—that are already in place and incorporate parking, bus lane and moving traffic contraventions into a single regulatory framework for the benefit of local authorities. I must emphasise that local authorities are not obliged to take up these powers, but they can do so, if they wish.

Diolch i'r Aelod am ei gefnogaeth a'i holi. Mae'r pecyn yn symleiddio ac yn ail-wneud y rheoliadau—sy'n cynnwys llawer o elfennau—sydd eisoes yn bodoli ac sy'n cynnwys tramgwyddau parcio, lonydd bysiau a symud traffig i mewn i fframwaith rheoleiddio sengl er budd awdurdodau lleol. Rhaid i mi bwysleisio nad yw awdurdodau lleol yn gorfod manteisio ar y pwerau, ond gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno.

With regard to the specific point about cycle paths, it is about the delegation of the lane and whether it is on a road network or is an additional cycle track. There is guidance for local authorities and I will ensure that the Member is fully aware of that situation regarding the information that he requested.

O ran y pwynt penodol am lwybrau beicio, mae'n ymwneud â dirprwyo'r lôn ac a yw ar rwydwaith ffordd neu yn llwybr beicio ychwanegol. Mae canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a byddaf yn sicrhau bod yr Aelod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa ynghylch y wybodaeth y gofynnodd amdani.

The introduction of this package of regulations is non-controversial and, when consulted upon, there was no suggestion in the responses that these regulations should not be introduced.

Mae cyflwyno'r pecyn hwn o reoliadau yn annadleuol a, pan ymgynghorwyd arno, nid oedd unrhyw awgrym yn yr ymatebion na ddylid cyflwyno'r rheoliadau hyn.

15:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Ymgyrch Bwyta'n Gall Newid am Oes

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 7 ac 8 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 5 a 6 yn enw William Graham.*

## The Change4Life Be Food Smart Campaign

*The following amendments have been selected: amendments 1, 7 and 8 in the name of Aled Roberts, amendments 2, 3 and 4 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 5 and 6 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5159 Jane Hutt

Motion NDM5159 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Bwyta'n Gall' fel rhan o ymgyrch farchnata gymdeithasol Newid am Oes i annog teuluoedd yng Nghymru i ddewis a choginio prydau bwyd sy'n isel mewn braster, siwgr a halen ac yn cynnwys mwy o ffrwythau a llysiau.

1. Notes that the Welsh Government launched 'Food Smart' as part of its Change4Life social marketing campaign to encourage families in Wales to choose and cook meals which are lower in fat, sugar and salt and include more fruit and vegetables.

2. Yn cydnabod bod gan yr ymgyrch rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o amrywiaeth o fentrau cydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, y GIG a phartneriaid eraill i gyfrannu at leihau lefelau afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru.

2. Recognises that the campaign plays an important role as part of a co-ordinated range of initiatives from the Welsh Government, the NHS and other partners in contributing to decreasing levels of diet-related ill health in Wales.

15:54

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Obesity rates in Wales, particularly children's obesity rates are among the highest in the world. Although there has been a slow-down in rising rates of those who are overweight and obese since 2007, there is no room for complacency. The prevalence of being overweight and obese remains unacceptably high.

Mae cyfraddau gordewdra yng Nghymru, yn enwedig cyfraddau gordewdra plant ymhlith yr uchaf yn y byd. Er y bu arafu yng nghyfraddau cynyddol y rhai sydd dros eu pwysau ac yn ordew ers 2007, nid oes lle i laesu dwylo. Mae nifer yr achosion o fod dros bwysau ac yn ordew yn parhau i fod yn annerbyniol o uchel.

We know that the number of those who are overweight and obese is higher among adults in our most deprived communities. The gap could be set to widen in the current economic climate. Rising food prices and shrinking household incomes disproportionately affect those on lower incomes, resulting in their buying less fresh, good-quality food, including fruit and vegetables. It is for this reason that I support the five amendments that address the links between deprivation and ill health, poor diet and obesity.

Rydym yn gwybod fod nifer y rhai sydd dros bwysau ac yn ordew yn uwch ymysg oedolion yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Gallai'r bwlch ehangu yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae prisiau bwyd cynyddol ac incwm cartrefi'n crebachu yn effeithio'n anghymesur ar y rhai ar incwm is, gan arwain at eu gweld yn prynu llai o fwydydd ffres, o ansawdd da, gan gynnwys ffrwythau a llysiau. Am y rheswm hwn rwy'n cefnogi'r pum gwelliant sy'n rhoi sylw i'r cysylltiadau rhwng amddifadedd ac iechyd gwael, diet gwael a gordewdra.

To address obesity, we have invested in a range of initiatives to raise awareness of the benefits of healthy eating; to improve access to a healthy, balanced diet; and to increase opportunities for physical activity. They include programmes such as Mind, Exercise, Nutrition…Do It!, the community food co-operative programme, 'Appetite for Life' in schools, the free swimming initiative and the national exercise referral programme. However, I recognise that we need to build further momentum in order to prevent thousands of adults and children facing deteriorating health and a lower quality of life with the Government facing spiralling health and social care costs. I, therefore, welcome this debate on Be Food Smart, the latest Change4Life campaign.

Er mwyn mynd i'r afael â gordewdra, rydym wedi buddsoddi mewn ystod o fentrau i godi ymwybyddiaeth o fanteision bwyta'n iach, i wella mynediad at ddiet iach a chytbwys, ac i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol. Maent yn cynnwys rhaglenni megis Mind, Exercise, Nutrition ... Do It, y rhaglen cydweithfa bwyd cymunedol, 'Blas am Oes' mewn ysgolion, y fenter nofio am ddim a rhaglen genedlaethol atgyfeirio i wneud ymarfer corff. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod angen i ni adeiladu momentwm pellach er mwyn atal miloedd o oedolion a phlant rhag wynebu iechyd sy'n dirywio ac ansawdd bywyd is gyda Llywodraeth yn wynebu costau iechyd a gofal cymdeithasol cynyddol. Rwyf, felly, yn croesawu'r ddadl hon ar Bwyta'n Gall, yr ymgyrch Change4Life ddiweddaraf.

Change4Life is the Welsh Government's social marketing campaign, which was launched in 2010 as part of the Welsh Government's broader response to helping people to achieve and maintain a healthy body weight. In 2012, the campaign was broadened to address the health harms of drinking alcohol above the guidelines. Of course, alcohol can also contribute to being overweight and to obesity as people are often unaware of its calorie content.

Ymgyrch farchnata cymdeithasol Llywodraeth Cymru yw Change4Life, a lansiwyd yn 2010 fel rhan o ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i helpu pobl i gyflawni a chynnal pwysau corff iach. Yn 2012, ehangwyd yr ymgyrch i fynd i'r afael â niwed iechyd yfed alcohol uwchben y canllawiau. Wrth gwrs, gall alcohol hefyd gyfrannu at fod yn rhy drwm a gordewdra gan fod cymaint o bobl yn aml yn anymwybodol a'r calorïau mae'n gynnwys.

Change4Life contributes to the programme for government's commitment to an annual campaign to tackle the five biggest public health priorities. Change4Life is supportive, informative and reassuring. It is not about telling people what to do or what to eat. We want people to engage with the campaign and understand that obesity is not someone else's problem—it is everyone's problem. Obesity costs the NHS in Wales £73 million each year and has wider implications for the economy.

Mae Change4Life yn cyfrannu at y rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth i ymgyrch flynyddol i fynd i'r afael â'r pum blaenoriaeth iechyd cyhoeddus mwyaf. Mae Change4Life yn gefnogol, yn llawn gwybodaeth ac yn galonogol. Nid yw'n golygu dweud wrth bobl beth i'w wneud neu beth i'w fwyta. Rydym am i bobl ymgysylltu â'r ymgyrch a deall nad problem rhywun arall yw gordewdra—mae'n broblem i bawb. Mae gordewdra yn costio £73 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn ac mae ganddo oblygiadau ehangach ar gyfer yr economi.

Last month, I launched Be Food Smart to help and encourage families across Wales to make smart choices about what they eat and drink, and to increase the number of families and adults engaging with the key Change4Life messages. Making healthier, balanced meals on a budget can be a challenge for families. The impact of rising food prices and shrinking budgets on the nutritional health of people in Wales was discussed in a short debate on 16 January led by Ken Skates. This new Change4Life—

Y mis diwethaf, lansiais Bwyta'n Gall i helpu ac annog teuluoedd ledled Cymru i wneud dewisiadau doeth am yr hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed, ac i gynyddu nifer y teuluoedd ac oedolion sy'n ymgysylltu â negeseuon allweddol Change4Life. Gall gwneud prydau bwyd iachach, cytbwys ar gyllideb fod yn her i deuluoedd. Trafodwyd effaith prisiau bwyd yn codi a chyllidebau sy'n lleihau ar iechyd maethol pobl yng Nghymru mewn dadl fer ar 16 Ionawr dan arweiniad Ken Skates. Mae'r ymgyrch Change4Life newydd—

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Are you giving way, Minister?

Trefn. A ydych yn ildio, Weinidog?

15:57

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You mentioned a number of initiatives, have you attempted to assess the success of the numerous programmes that you have mentioned to see whether they are reaching their goals?

Soniasoch am nifer o fentrau, ydych chi wedi ceisio asesu llwyddiant y rhaglenni niferus yr ydych wedi eu crybwyll i weld a ydynt yn cyrraedd eu nodau?

15:57

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Alun Ffred Jones for that question. We are currently evaluating and looking at that aspect. He will be aware that we had a new chief medical officer last year, and it is something that Dr Hussey particularly wants to focus on, so we are in the process of doing that.

Diolch i Alun Ffred Jones am y cwestiwn hwnnw. Rydym wrthi'n gwerthuso ac yn edrych ar yr agwedd honno. Bydd yn ymwybodol ein bod wedi cael Prif Swyddog Meddygol newydd y llynedd, ac mae'n rhywbeth y mae Dr Hussey am ganolbwyntio yn arbennig arno, felly rydym yn y broses o wneud hynny.

To go back to Be Food Smart, everyone who signs up to the campaign will get a free Be Food Smart booklet with lots of quick, easy, low-cost and healthier recipes, with access to many more on the Change4Life Wales website. The recipes promote the message that being food smart is not just healthier, it can be cheaper. I had the opportunity to sample some of the dishes at the launch and met families who enjoyed not only eating the meals but participating in their preparation, including the younger members of those families.

I fynd yn ôl at Bwyta'n Gall, bydd pawb sy'n cofrestru i'r ymgyrch yn cael llyfryn Bwyta'n Gall rhad ac am ddim gyda llawer o ryseitiau cyflym, hawdd, cost isel ac iach, gyda mynediad i lawer mwy ar wefan Change4Life Cymru. Mae'r ryseitiau yn hyrwyddo'r neges bod bwyta'n gall nid yn unig yn iachach, gall fod yn rhatach. Cefais y cyfle i flasu rhai o'r prydau yn y lansiad a chyfarfod teuluoedd a oedd nid yn unig yn mwynhau bwyta'r prydau bwyd, ond yn cymryd rhan yn eu paratoi, gan gynnwys aelodau iau'r teuluoedd hynny.

The campaign addresses issues from a recent survey that revealed the nation's lack of knowledge about the food that it eats. For example, half of those surveyed did not know that there are 11 lumps of sugar in a can of cola and 49% were not aware that a large takeaway pepperoni pizza has twice the recommended maximum daily intake of saturated fat. The four Be Food Smart steps are 'five a day', 'cut back fat', 'sugar swaps' and 'watch the salt'.

Mae'r ymgyrch yn ymdrin â materion o arolwg diweddar a oedd yn dangos diffyg gwybodaeth y genedl am y bwyd y mae'n ei fwyta. Er enghraifft, nid oedd hanner y rhai a holwyd yn gwybod bod 11 lwmp o siwgr mewn can o cola a 49% nad oeddent yn ymwybodol bod pryd parod mawr o pizza pepperoni yn cynnwys dwywaith y cymeriant dyddiol uchaf a argymhellir o fraster dirlawn. Pedwar cam Bwyta'n Gall yw 'pump y dydd', 'llai o fraster', 'cyfnewid bwydydd melys' a 'gwylio'r halen'.

We have linked the campaign to our community food co-operative programme. There are approximately 350 community venues where people can purchase a range of fresh, seasonal produce at affordable prices. A family regularly using its local food co-operative could potentially save up to £200 per year.

Rydym wedi cysylltu'r ymgyrch i'n rhaglen cydweithfa fwyd gymunedol. Mae tua 350 o leoliadau yn y gymuned lle gall pobl brynu amrywiaeth o gynnyrch ffres tymhorol am brisiau fforddiadwy. Gallai teulu sy'n defnyddio ei gydweithfa fwyd lleol yn rheolaidd o bosibl arbed hyd at £200 y flwyddyn.

In the first three weeks of the Be Food Smart campaign, almost 9,000 additional people joined the Change4Life programme, bringing the total number of people who have signed up to over 52,000. Change4Life Wales also has over 600 local supporters. Grassroots support has proved crucial for the movement, spreading the message and providing opportunities for local activities through their networks.

Yn ystod tair wythnos gyntaf yr ymgyrch Bwyta'n Gall, mae bron i 9,000 o bobl ychwanegol wedi ymuno â'r rhaglen Change4Life, gan ddod â chyfanswm nifer y bobl sydd wedi cofrestru i dros 52,000. Mae gan Change4Life Cymru hefyd dros 600 o gefnogwyr lleol. Mae cymorth gwerin gwlad wedi bod yn hanfodol ar gyfer y mudiad, gan ledaenu'r neges a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau lleol drwy eu rhwydweithiau.

I look forward to hearing Members' contributions to this debate and I ask you to recognise that the campaign plays an important role as part of a co-ordinated range of initiatives from the Welsh Government, NHS Wales and other partners in contributing to decreasing levels of diet-related ill health in Wales.

Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau'r Aelodau i'r ddadl hon a gofynnaf ichi gydnabod bod yr ymgyrch yn chwarae rôl bwysig fel rhan o ystod gydlynol o fentrau gan Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a phartneriaid eraill wrth gyfrannu at ostwng lefelau salwch cysylltiedig â diet yng Nghymru.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and re-number accordingly:*

*Yn gresynu bod pump o'r 10 ardal awdurdod lleol â'r lefelau isaf o iechyd 'da' yng Nghymru a Lloegr i'w cael yng Nghymoedd De Cymru, ac yn credu y bydd rhagor o ymwybyddiaeth am fwyta'n iachach yn helpu i wella hyn.*

*Regrets that out of the 10 local authority areas with the lowest levels of 'good' health in England and Wales, five are in the South Wales Valleys and believes that greater awareness about healthier eating will help to improve this.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r dull orfiwrocrataidd o weithredu yng nghyswllt Blas am Oes sy'n ychwanegu at gost darparu bwyd iach mewn ysgolion.*

*Calls on the Welsh Government to review the overly-bureaucratic approach to Appetite for Life which is adding to the cost of providing healthy food in schools.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ategu'r ymgyrch hon drwy sicrhau bod plant yn cael dewis o fwydydd iach yn yr ysgol gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi o dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009.*

*Calls on the Welsh Government to supplement this campaign by ensuring that children have a choice of healthy eating options at schools using powers available to it under the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009.*

16:00 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1, 7 and 8 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 1, 7 ac 8 yn enw Aled Roberts.

As a parent who has the daily task of preparing a lunch box, I am all too aware of the challenges of persuading children to eat healthily. In schools, there is a great deal of interest in each other's lunch boxes, and I am often accused by my children of depriving them of some of the things that they see in their fellow students' lunch boxes. I admit that, sometimes, I am guilty of bowing to that peer pressure and giving them what they want even though I know that it is not necessarily the best thing for them. Therefore, I know how difficult it can be, even when you have all the information readily at your fingertips, and you are well informed and have access to a wide range of fresh fruit and vegetables.

Fel rhiant sydd â'r dasg ddyddiol o baratoi bocs cinio, rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau o berswadio plant i fwyta'n iach. Mewn ysgolion, mae llawer iawn o ddiddordeb ym mocsys cinio ei gilydd, ac rwy'n aml yn cael fy nghyhuddo gan fy mhlant o'u hamddifadu o rai o'r pethau y maent yn eu gweld ym mocsys cinio eu cyd-fyfyrwyr. Rwy'n cyfaddef, weithiau, fy mod yn euog o blygu i'r pwysau hwnnw gan gyfoedion a rhoi iddynt beth y maen nhw ei eisiau, hyd yn oed er fy mod yn gwybod nad yw o reidrwydd y peth gorau iddynt. Felly, rwy'n gwybod pa mor anodd y gall fod, hyd yn oed pan fydd gennych yr holl wybodaeth yn rhwydd ar flaenau eich bysedd, ac rydych yn cael gwybodaeth dda ac mae gennych fynediad at ystod eang o ffrwythau a llysiau ffres.

While I commend what is included in the Government's plans, and the style in which that information is delivered, I also would like to focus on the issues raised by Alun Ffred Jones about how the Government can satisfy itself that programmes are successful. No-one can deny that the Government is spending resources on public health messaging in Wales, but it seems that there is very little evidence to suggest whether we are clear that what Public Health Wales is doing is actually being realised in step change behaviour on behalf of Welsh citizens.

Er fy mod yn cymeradwyo'r hyn sydd wedi ei gynnwys yng nghynlluniau'r Llywodraeth, ac arddull cyflwyno'r wybodaeth honno, hoffwn innau hefyd ganolbwyntio ar y materion a godwyd gan Alun Ffred Jones am sut y gall y Llywodraeth ei bodloni ei hun bod y rhaglenni yn llwyddiannus. Ni all neb wadu bod y Llywodraeth yn gwario adnoddau ar negeseuon iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ond mae'n ymddangos nad oes llawer o dystiolaeth i awgrymu a ydym yn glir bod yr hyn y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud mewn gwirionedd yn cael ei wireddu mewn newid sylweddol mewn ymddygiad ar ran dinasyddion Cymru.

The recent debacle over what is in our food also needs attention. Much of the information included on the website urges people to look at food labelling, and at fat, sugar and salt content. However, the scandal over horse meat in Tesco's value burgers and in other products suggests to me that we have a far greater challenge in being able to allow the public to make informed choices about what they eat, especially in relation to some of the value-branded products that our supermarkets supply. It is interesting that Welsh agriculture spends many hundreds of thousands of pounds on issues of traceability, only for that traceability to be completely ruined when we are not sure about what is going into our food.

Mae angen sylw hefyd ar y traed moch diweddar dros yr hyn sydd yn ein bwyd. Mae llawer o'r wybodaeth a gynhwysir ar y wefan yn annog pobl i edrych ar labelu bwyd, ac ar gynnwys braster, siwgr a halen. Fodd bynnag, mae'r sgandal dros gig ceffyl ym myrgyrs gwerth am arian Tesco ac mewn cynhyrchion eraill yn awgrymu i mi ein bod yn wynebu her llawer mwy o ran gallu caniatáu i'r cyhoedd wneud dewisiadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei fwyta, yn enwedig mewn perthynas â rhai o'r cynnyrch brand gwerth am arian y mae ein harchfarchnadoedd yn eu cyflenwi. Mae'n ddiddorol bod amaethyddiaeth Cymru yn gwario cannoedd o filoedd o bunnoedd ar faterion gallu i olrhain, dim ond i weld y gallu i olrhain hwnnw'n cael ei ddinistrio'n llwyr pan nad ydym yn sicr am yr hyn sy'n mynd i mewn i'n bwyd.

However, there is good news and there are examples of good practice. I urge the Minister to look at the example of Philadelphia in Pennsylvania in America. As we know, America's obesity rates are even higher than our own, yet in the city of Philadelphia not only have they staunched obesity rates, but obesity levels in children are falling. It is not one of America's wealthiest cities. There are communities that are much economically challenged in Philadelphia, yet the action that has been taken by the state government, the education system and public health officials in the city of Philadelphia, with a strong focus on the food supply chains, getting fresh fruit into local corner stores and onto the high street, encouraging children to take the lead in families to persuade their own parents to make better choices for them as children, but also for the whole family, along with exercise and a strong commitment to physical exertion within schools, is seeing that city turn things around. It is an innovative programme in an economically challenged part of the United States, with a diverse population, but it is really making a difference.

Fodd bynnag, mae newyddion da a cheir enghreifftiau o arfer da. Anogaf y Gweinidog i edrych ar enghraifft Philadelphia ym Mhennsylvania yn America. Fel y gwyddom, mae cyfraddau gordewdra America hyd yn oed yn uwch na'n rhai ni, ond eto yn ninas Philadelphia nid yn unig y maent wedi atal cyfraddau gordewdra, ond mae lefelau gordewdra mewn plant yn gostwng. Nid yw'n un o ddinasoedd cyfoethocaf America. Mae cymunedau sy'n wynebu llawer o heriau economaidd yn Philadelphia, eto mae'r camau a gymerwyd gan lywodraeth y dalaith, y system addysg a swyddogion iechyd cyhoeddus yn ninas Philadelphia, gyda ffocws cryf ar y cadwyni cyflenwi bwyd, cael ffrwythau ffres i mewn i siopau cornel lleol ac ar y stryd fawr, annog plant i gymryd yr awenau mewn teuluoedd i berswadio eu rhieni eu hunain i wneud dewisiadau gwell iddynt fel plant, ond hefyd ar gyfer y teulu cyfan, ynghyd ag ymarfer ac ymrwymiad cryf i ymdrech gorfforol mewn ysgolion, yn gweld y ddinas honno'n newid pethau. Mae'n rhaglen arloesol mewn rhan o'r Unol Daleithiau sy'n cael ei herio'n economaidd, gyda phoblogaeth amrywiol, ond mae'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

Finally, on the issue of school meals, which my colleague Peter Black will talk about later, I think that the Government is really missing an opportunity. A previous Assembly took the step of passing legislation put forward by my colleague Jenny Randerson to promote well-balanced, proper food in our school system. I am afraid that some of the examples—which I am sure that my colleague Peter Black will talk about—show how far we are from realising the goal of that legislation. I urge the Minister to look again at whether we need a fresh approach to school meals.

Yn olaf, ar fater prydau ysgol, a bydd fy nghydweithiwr Peter Black yn siarad am hynny yn ddiweddarach, rwy'n credu bod y Llywodraeth yn wir yn colli cyfle. Cymerodd Cynulliad blaenorol y cam o basio deddfwriaeth a gyflwynwyd gan fy nghydweithiwr Jenny Randerson i hyrwyddo bwyd cytbwys, priodol yn ein system ysgolion. Rwy'n ofni fod rhai o'r enghreifftiau—yr wyf yn sicr y bydd fy nghydweithiwr Peter Black yn siarad amdanynt—yn dangos pa mor bell yr ydym o wireddu nod y ddeddfwriaeth honno. Anogaf y Gweinidog i edrych eto a oes arnom angen ymagwedd newydd at brydau ysgol.

*Gwelliant 2—Jocelyn Davies*

*Amendment 2—Jocelyn Davies*

*Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point after point 1 and renumber accordingly:*

*Yn nodi bod llawer o deuluoedd nad ydynt yn gallu cael gafael ar ystod lawn o fwydydd iach ac yn gresynu bod nifer cynyddol yn ddibynnol ar fanciau bwyd.*

*Notes that many families are excluded from access to a full range of healthy food and regrets that an increasing number are reliant on food banks.*

*Gwelliant 3—Jocelyn Davies*

*Amendment 3—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a deiet gwael fel rhan o'i hymgyrch.*

*Calls on the Welsh Government to address the link between poverty and poor diet as part of its campaign.*

*Gwelliant 4—Jocelyn Davies*

*Amendment 4—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun cynhwysfawr ar gyfer diogelu'r cyflenwad bwyd.*

*Calls of the Welsh Government to draw up a comprehensive food security plan.*

16:05

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 2, 3 and 4 in the name of Jocelyn Davies.

Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

Food and water are the most essential elements of our life, and the availability of quality nourishment is crucial to our existence and our ability to fight malnutrition, to ensure a healthy lifestyle and to fight disease.

Bwyd a dŵr yw elfennau mwyaf hanfodol ein bywyd, ac mae argaeledd maeth o safon yn hanfodol i'n bodolaeth ni a'n gallu i ymladd yn erbyn diffyg maeth, er mwyn sicrhau ffordd iach o fyw ac i ymladd afiechydon.

The levels of obesity in Wales are significant; we are among the worst in Europe and the world, with consequent effects on type 2 diabetes and cardiovascular problems. Projects such as Change4Life are important in providing resources to those who wish to improve their food education, change their lifestyles and eat better, but it can only be a small part of the wider shift that is required to improve our health as a society. Unfortunately, we are swimming against the tide.

Mae'r lefelau gordewdra yng Nghymru yn sylweddol; rydym ymhlith y gwaethaf yn Ewrop a'r byd, gydag effeithiau dilynol ar ddiabetes math 2 a phroblemau cardiofasgwlaidd. Mae prosiectau fel Change4Life yn bwysig o ran darparu adnoddau i'r rhai sy'n dymuno gwella eu haddysg bwyd, newid eu ffordd o fyw a bwyta'n well, ond ni all ond fod yn rhan fach o'r newid ehangach sy'n ofynnol i wella ein hiechyd fel cymdeithas. Yn anffodus, rydym yn nofio yn erbyn y llanw.

A counterfactual may be useful here. What might we be looking to do if we wanted to increase obesity levels? Well, we might allow the 24/7 advertising of junk food, including adverts specifically targeted at young children. We might ensure that fresh food was more expensive than highly processed ready meals. We might ensure that people work long hours, so that they have little time for family cooking and family meals. We might also promote car use above walking, cycling and public transport. Given that those are our de facto positions, the challenge facing us is significant. There are ways to change this, though.

Gall gwrthffaith fod yn ddefnyddiol yma. Beth fyddem ni'n ceisio ei wneud pe byddem yn awyddus i gynyddu lefelau gordewdra? Wel, efallai y byddem yn caniatáu hysbysebu bwyd sothach 24/7, gan gynnwys hysbysebion wedi'u targedu'n benodol at blant ifanc. Efallai y byddem yn sicrhau bod bwyd ffres yn fwy drud na phrydau parod wedi eu prosesu. Efallai y byddem yn sicrhau bod pobl yn gweithio oriau hir, fel nad oes ganddynt lawer o amser ar gyfer coginio teuluol a phrydau bwyd teuluol. Efallai y byddem hefyd yn hyrwyddo defnydd o geir o flaen cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. O gofio mai dyna ein sefyllfa fel y mae pethau mewn gwirionedd, mae'r her sy'n ein hwynebu yn sylweddol. Mae ffyrdd o newid hyn, er hynny.

The first issue is to value food. Young people need to be taught the skills that have been lost in recent decades: the ability to grow and cook their own food. I am a big supporter of increasing the supply of allotments and ensuring food security. A quick look at the shelves in a supermarket will show you where our produce comes from. Think of the environmental impact of the food miles. Think of the environmental impact of the out-of-season produce grown in unnatural conditions, and the water footprint of fruit, when we have all our alternatives here. We have been here before with the Dig for Victory campaign, when ordinary families played their role in growing fruit and vegetables in their back gardens and in open public spaces. It has been done before, and it can be done again.

Y mater cyntaf yw bwyd gwerth am arian. Mae angen dysgu'r sgiliau i bobl ifanc sydd wedi cael eu colli yn y degawdau diweddar: y gallu i dyfu a choginio eu bwyd eu hunain. Rwy'n gefnogwr mawr i gynyddu'r cyflenwad o randiroedd a sicrhau diogelwch bwyd. Bydd golwg sydyn ar y silffoedd mewn archfarchnad yn dangos i chi o ble mae ein cynnyrch yn dod. Meddyliwch am effaith amgylcheddol y milltiroedd bwyd. Meddyliwch am effaith amgylcheddol y cynnyrch y tu allan i'r tymor sy'n cael ei dyfu mewn amodau annaturiol, ac ôl troed dŵr ffrwythau, pan mae'r holl ddewisiadau amgen gennym yma. Rydym wedi bod yma o'r blaen gyda'r ymgyrch Dig for Victory, pan oedd teuluoedd cyffredin yn chwarae eu rhan mewn tyfu ffrwythau a llysiau yn eu gerddi cefn ac mewn mannau cyhoeddus agored. Mae wedi cael ei wneud o'r blaen, a gellir ei wneud eto.

Plaid Cymru has called for public support for suppliers of local, freshly grown food as part of our Buy Local campaign. This would help to localise the food chain and build in resilience. We must support the diversification of farming so that we have a wider range of products that are made in Wales. That would help to create more high-quality produce for the restaurant trade. However, it cannot just be a high-end price for local produce; good food should be the norm and available to all. It makes no sense to feed families imports that have travelled halfway around the world.

Mae Plaid Cymru wedi galw am gefnogaeth y cyhoedd i gyflenwyr bwyd lleol, a dyfir yn ffres fel rhan o'n hymgyrch Prynu Lleol. Byddai hyn yn helpu i gadw'r gadwyn fwyd yn lleol ac i adeiladu gwydnwch. Rhaid i ni gefnogi arallgyfeirio ffermio er mwyn i ni gael ystod ehangach o gynhyrchion sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Byddai hynny'n helpu i greu mwy o gynnyrch ansawdd uchel ar gyfer y fasnach bwytai. Fodd bynnag, ni all fod yn bris pen ucha'r farchnad yn unig am gynnyrch lleol; dylai bwyd da fod yn norm ac ar gael i bawb. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i fwydo teuluoedd â mewnforion sydd wedi teithio hanner ffordd o amgylch y byd.

People want accurate information, and they want to know where their food comes from. We have seen, as has already been mentioned in recent weeks, multiple food information scares—horse meat in supposed beef burgers, and pork in halal meat. The longer the food chain, the less the transparency. A step in the right direction is the recent Food Hygiene Rating (Wales) Bill, which will ensure that food stores now show their rating, but we can go a lot further. We must do so much better on food labelling, so that information is clear to customers, particularly with regard to the effects of foods that are high in salt and fat. We must encourage more exercise and activity among all age groups to improve health.

Mae pobl am gael gwybodaeth gywir, ac maent yn awyddus i wybod o ble mae eu bwyd yn dod. Rydym wedi gweld, fel sydd wedi'i grybwyll yn ystod yr wythnosau diwethaf, llawer o ofnau am wybodaeth am fwyd—cig ceffyl mewn byrgyrs cig eidion tybiedig, a phorc mewn cig halal. Po hiraf y gadwyn fwyd, y lleiaf yw'r tryloywder. Cam yn y cyfeiriad cywir yw'r Bil Sgôr Hylendid Bwyd (Cymru) diweddar a fydd yn sicrhau bod siopau bwyd erbyn hyn yn dangos eu sgôr, ond gallwn fynd yn llawer pellach. Mae'n rhaid i ni wneud gymaint yn well ar labelu bwyd, fel bod gwybodaeth yn glir i gwsmeriaid, yn enwedig o ran effeithiau bwydydd sy'n uchel mewn halen a braster. Mae'n rhaid i ni annog mwy o ymarfer corff a gweithgarwch ymhlith yr holl grwpiau oedran i wella iechyd.

Change4Life cannot do all these things on its own, but I hope that it will reach out and make an impact on families that are beginning to recognise the problems caused by poor diets and a lack of activity. In reality, though, we need much more to tackle obesity. It is not easy; we have heard already how children have a culture of their own, but we should do whatever we can to develop a much healthier culture in relation to food.

Ni all Change4Life wneud yr holl bethau hyn ar ei ben ei hun, ond rwy'n gobeithio y bydd yn estyn allan ac yn cael effaith ar deuluoedd sydd yn dechrau adnabod y problemau a achosir gan ddiet gwael a diffyg gweithgarwch. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae angen llawer mwy i fynd i'r afael â gordewdra. Nid yw'n hawdd; rydym wedi clywed eisoes sut y mae gan blant eu diwylliant eu hunain, ond dylem wneud beth bynnag y gallwn i ddatblygu diwylliant llawer iachach o ran bwyd.

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod deiet gwael wedi cyfrannu at y ffaith bod 57% o oedolion a 35% o blant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew.*

*Regrets that a poor diet has contributed to 57% of adults and 35% of children in Wales being overweight or obese.*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Amendment 6—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod pump awdurdod lleol yng Nghymru ymysg y deg awdurdod 'lleiaf iach' yn y Deyrnas Unedig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r heriau deietegol yn yr ardaloedd hyn.*

*Regrets that five Welsh local authorities are amongst the ten 'least healthy' local authorities in the United Kingdom and calls on the Welsh Government to take focused action to address the dietary challenges in these areas.*

16:09

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 5 and 6 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 5 a 6 yn enw William Graham.

It is interesting that all three leaders of the opposition parties have spoken in this debate, and I do not underestimate the importance of it, to be fair. When you look at some of the statistics, and I think that in excess of 50% of adults in Wales, and 37% of children, are classed as obese—not overweight, but obese—we can see the real challenges that we face in dealing with this. I have to say that some of the comments from the floor have indicated that the next generation has taken on board some of the messages that have been given from Government, public health and other organisations, including the food industry itself. One of the moments of dread in my house is when the kids get into the car in the morning, especially after I have been on a tour and stopped in a few fast-food restaurants and left the wrappers on the floor; I am the one getting the lecture, not so much the kids, because the kids have picked up the message.

Mae'n ddiddorol bod tri arweinydd y gwrthbleidiau wedi siarad yn y ddadl hon, ac nid wyf yn tanbrisio ei phwysigrwydd, i fod yn deg. Pan fyddwch yn edrych ar rai o'r ystadegau, a chredaf fod mwy na 50% o oedolion yng Nghymru, a 37% o blant, yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n ordew—nid dros bwysau, ond yn ordew—gallwn weld yr heriau gwirioneddol sy'n ein hwynebu mewn ymdrin â hyn. Rhaid i mi ddweud bod rhai o'r sylwadau o'r llawr wedi nodi bod y genhedlaeth nesaf wedi derbyn rhai o'r negeseuon a roddwyd gan y Llywodraeth, iechyd cyhoeddus a sefydliadau eraill, gan gynnwys y diwydiant bwyd ei hun. Un o'r adegau o arswyd yn fy nhŷ i yw pan fydd y plant yn mynd i mewn i'r car yn y bore, yn enwedig ar ôl i mi fod ar daith a stopio mewn ychydig o fwytai bwyd cyflym a gadael y deunydd lapio ar y llawr; fi yw'r un sy'n cael y bregeth, nid yn gymaint y plant, gan fod y plant wedi derbyn y neges.

It is an important point. It is joining up the whole process of Government, whether it be the planning process, education, the health sector, or indeed the business sector, because all those portfolios have a role in driving this message across the whole of Government. Obviously, business is working on the health of its workforce, education wants to ingrain in young people the right mindset, health has to pick up the consequences, and indeed the Minister for health used the figure of £73 million per year in cost to the health service. I was quite surprised that it was as low as that, in fairness, Minister, when you look at the consequences of diabetes, for example—the ticking time-bomb for our society that is constantly referred to. We also better understand the link between cancer and poor diet today, and all that put together indicates that, while some progress has been made over the years, regrettably, Wales is challenging America for pole position as one of the most obese nations in the world. That is something that none of us want to see in our communities.

Mae'n bwynt pwysig. Mae'n uno holl broses Llywodraeth, boed hynny'r broses gynllunio, addysg, y sector iechyd, neu yn wir y sector busnes, gan fod gan yr holl bortffolios hynny rôl mewn gyrru'r neges hon ar draws y Llywodraeth. Yn amlwg, mae busnes yn gweithio ar iechyd ei weithlu, mae addysg eisiau trwytho pobl ifanc yn y meddylfryd cywir, rhaid i iechyd dderbyn y canlyniadau, ac yn wir defnyddiodd y Gweinidog iechyd y ffigur o £73 miliwn y flwyddyn fel cost i'r gwasanaeth iechyd. Roeddwn yn synnu ei fod mor isel â hynny, i fod yn deg, Weinidog, pan fyddwch yn edrych ar ganlyniadau diabetes, er enghraifft—y bom amser sy'n ticio ar gyfer ein cymdeithas y cyfeirir ato'n aml. Rydym hefyd yn deall yn well y cysylltiad rhwng canser a diet gwael heddiw, ac mae hyn oll gyda'i gilydd yn dangos, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd, yn anffodus, bod Cymru yn herio America am y safle cyntaf fel un o'r gwledydd mwyaf gordew yn y byd . Mae hynny'n rhywbeth nad yw'r un ohonom am ei weld yn ein cymunedau.

With my background in agriculture, I desperately want to make sure that we benefit from the advances that the agriculture industry has made, and the food processing sector, about informing consumers about what is in the food that they eat. Members have already touched on the debacle of horse meat in burgers. If you go back 10 or 15 years and look at what used to be provided as information on food, it was minimal. Today, most consumers can make an informed choice, but many, sadly, do not take the opportunity to become informed on what is in their food. There is greater scope to ensure that, via the education system, and via the consumer protection measures that we have in place, we can make a real difference in enabling people to exercise a choice. Ultimately, it will be the individuals who will drive the obesity epidemic down to more manageable levels; Government can put all the procedures in place that it wants to, but ultimately it is about the individual responsibility that we must all take for our health and our diet.

Gyda fy nghefndir mewn amaethyddiaeth, rwy'n awyddus iawn i wneud yn siŵr ein bod yn elwa ar y datblygiadau y mae'r diwydiant amaethyddiaeth wedi ei wneud, a'r sector prosesu bwyd, am hysbysu defnyddwyr am yr hyn sydd yn y bwyd y maent yn ei fwyta. Mae Aelodau eisoes wedi cyfeirio at lanastr cig ceffyl mewn byrgyrs. Os ewch yn ôl 10 neu 15 mlynedd ac edrych ar yr hyn yr arferid ei ddarparu fel gwybodaeth ar fwyd, roedd yn fach iawn. Heddiw, gall y rhan fwyaf o ddefnyddwyr wneud dewis gwybodus, ond mae llawer, yn anffodus, nad ydynt yn cymryd y cyfle i ddod yn wybodus am yr hyn sydd yn eu bwyd. Mae mwy o gyfle i sicrhau, trwy'r system addysg, a thrwy'r mesurau diogelu defnyddwyr sydd gennym ar waith, y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran galluogi pobl i arfer dewis. Yn y pen draw, yr unigolion fydd yn gyrru'r epidemig gordewdra i lawr i lefelau y gellir eu rheoli'n well; gall y Llywodraeth roi'r holl weithdrefnau ar waith y mae'n ei ddymuno, ond yn y pen draw mae'n ymwneud â'r cyfrifoldeb unigol y mae'n rhaid i ni i gyd ei gymryd am ein hiechyd a'n diet.

I implore the Minister to impart greater information regarding the success or not of previous campaigns. I raised this with her at the last questions to the Minister for health. Everyone signs up to these glossy brochures. I have just been having a flick through some of the recipes, and you cannot discount the literature that is put out, but how effective is a lot of this information? How effective is the spend that we are putting into these campaigns? Indeed, I hope that the Minister, in replying today, will give a greater understanding of how this work is taken forward across Government, because, as I said, it is not just the health portfolio that deals with this—it needs cross-Government work.

Erfyniaf ar y Gweinidog i rannu mwy o wybodaeth am lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant ymgyrchoedd blaenorol. Codais hyn gyda hi yn ystod y cwestiynau diwethaf i'r Gweinidog iechyd. Mae pawb yn cytuno â'r llyfrynnau sgleiniog hyn. Rwyf newydd fod yn cael cipolwg drwy rai o'r ryseitiau, ac ni allwch ddiystyru'r llenyddiaeth sy'n cael ei rhoi allan, ond pa mor effeithiol yw llawer o'r wybodaeth hon? Pa mor effeithiol yw'r gwariant yr ydym yn ei fuddsoddi yn yr ymgyrchoedd hyn? Yn wir, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb heddiw, yn rhoi gwell dealltwriaeth o sut y bwrir ymlaen â'r gwaith ar draws y Llywodraeth, oherwydd, fel y dywedais, nid dim ond y portffolio iechyd sy'n delio â hyn—mae angen gwaith ar draws y Llywodraeth.

As I pointed out in my earlier remarks, it is not just that people are overweight, but the consequences later in life of diabetes, cancer and heart disease. We seem to have succeeded in the smoking argument, to the point of greatly reducing the number of people who now smoke. We cannot expect instant results on the obesity epidemic that we face; it will be a generational change, but we have proven before, via the smoking debate, that we can beat it if we put our minds to it and engage with all the levers of Government that are available.

Fel y dywedais yn fy sylwadau yn gynharach, nid yn unig bod pobl yn rhy drwm, ond mae'r canlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd o ddiabetes, canser a chlefyd y galon. Mae'n ymddangos ein bod wedi llwyddo yn y ddadl ysmygu, i'r pwynt leihau'n fawr ar y nifer y bobl sydd bellach yn ysmygu. Ni allwn ddisgwyl canlyniadau ar unwaith ar yr epidemig gordewdra sy'n ein hwynebu; bydd yn newid cenedliadol, ond rydym wedi profi o'r blaen, drwy gyfrwng y ddadl ysmygu, y gallwn ei drechu os ydym yn rhoi ein bryd ar hynny ac yn ymgysylltu â'r holl ddulliau Llywodraeth sydd ar gael.

I commend the paper that the Minister is talking to today, but I do have concerns over previous campaigns, and I do have concerns as to how effective this campaign will be. Above all, I have concerns about whether the whole of Government has bought into this and whether we are seeing a joined-up approach to tackle the obesity epidemic here in Wales that, sadly, as I said earlier, has us challenging for pole position as the most obese nation in the world.

Cymeradwyaf y papur y mae'r Gweinidog yn siarad arno heddiw, ond mae gen i bryderon ynghylch ymgyrchoedd blaenorol, ac mae gennyf bryderon ynghylch pa mor effeithiol y bydd yr ymgyrch hon. Yn anad dim, mae gennyf bryderon ynghylch a yw'r holl Lywodraeth wedi derbyn hyn ac a ydym yn gweld ymagwedd gydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r epidemig gordewdra yma yng Nghymru sydd, yn anffodus, fel y dywedais yn gynharach, yn ein gweld yn herio am y safle cyntaf fel y wlad fwyaf gordew yn y byd.

16:14 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, Julie Morgan and I visited our local pupil referral unit. This was related to an inquiry by the Children and Young People Committee into attendance and behaviour. It was particularly interesting talking to the young people who, by their very nature, are some of the most deprived and challenging young people whom we are endeavouring to serve. I was really struck by one young person who described so lyrically the quality of the hot food that they used to have when they were in primary school several years earlier. They said that it was 'the best food ever', by which they meant that it was indeed the best hot food that they had ever tasted; I assume that that is not something that happens regularly at home.

Yr wythnos diwethaf, ymwelodd Julie Morgan a minnau â'n huned cyfeirio disgyblion leol. Roedd hyn yn perthyn i ymchwiliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i bresenoldeb ac ymddygiad. Roedd yn arbennig o ddiddorol siarad â'r bobl ifanc sydd, oherwydd eu natur, yn rhai o'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig a heriol yr ydym yn ymdrechu i'w gwasanaethu. Gwnaed argraff fawr arnaf gan un person ifanc a ddisgrifiodd mor delynegol ansawdd y bwyd poeth yr arferent ei gael pan oeddent yn yr ysgol gynradd nifer o flynyddoedd yn gynharach. Dywedont mai hwn oedd 'y bwyd gorau erioed', oedd yn golygu mai hwn yn wir oedd y bwyd poeth gorau yr oeddent wedi ei flasu erioed, rwy'n tybio nad yw hynny'n rhywbeth sy'n digwydd yn rheolaidd yn y cartref.

It is a sobering fact that many families never prepare fresh meals, they always come out of a cardboard box. So many adults do not know how to prepare a simple meal. I applaud the Change4Life initiative, launched by the Government just after Christmas, to help people understand that it is always cheaper, as well as healthier, to prepare meals with basic ingredients, and this really complements the work being done to promote fruit and vegetables, so that people eat more of their five-a-day.

Mae'n ddigon i'ch sobri bod llawer o deuluoedd byth yn paratoi prydau ffres, maent bob amser yn dod allan o flwch cardbord. Mae cymaint o oedolion nad ydynt yn gwybod sut i baratoi pryd o fwyd syml. Rwy'n cymeradwyo, menter Change4Life a lansiwyd gan y Llywodraeth union ar ôl y Nadolig, i helpu pobl i ddeall ei bod bob amser yn rhatach, yn ogystal ag yn iachach, i baratoi prydau bwyd gyda chynhwysion sylfaenol, ac mae hyn wir yn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud i hybu ffrwythau a llysiau, fel bod pobl yn bwyta mwy o'u pump y dydd.

I was particularly delighted, when I visited Albany Road Baptist Church in my constituency yesterday, to learn not only that they have recruited 70 people of all ages and circumstances to their fruit and veg co-op, where you can get a stew bag for £2 and a fruit and veg bag for £3.50, but of the ingenuity of the pensioners, who also go to a lunch club there, who are clubbing together to share a £3.50 bag between them, because it is too much for them on their own. I was also delighted to pick up a Change4Life leaflet, which the food and veg co-op was promoting at the same time. It really brings together those two initiatives.

Roeddwn yn arbennig o falch, pan ymwelais ag Eglwys y Bedyddwyr Albany Road yn fy etholaeth ddoe, i ddysgu nid yn unig eu bod wedi recriwtio 70 o bobl o bob oed ac amgylchiadau i'w cydweithfa ffrwythau a llysiau, lle gallwch gael bag cawl am £2 a bag ffrwythau a llysiau am £3.50, ond am ddyfeisgarwch y pensiynwyr, sydd hefyd yn mynd i glwb cinio yno, sydd yn dod at ei gilydd i rannu bag £3.50 rhyngddynt, oherwydd ei fod yn ormod iddyn nhw ar eu pen eu hunain. Roeddwn wrth fy modd hefyd i godi taflen Change4Life, yr oedd y gydweithfa bwyd a llysiau yn ei hyrwyddo ar yr un pryd. Mae'n wir yn dod â'r ddwy fenter at ei gilydd.

Horse-burger-gate reminds us that the commodification of food to maximise its commercial applications has reached levels that our grandparents would be astonished by. As the UK Minister responsible for the Food Standards Agency remarked at the time the scandal broke, too much regulation would seriously impact on the provision of value products. Indeed.

Mae'r sgandal byrgyrs ceffyl yn ein hatgoffa bod trin bwyd fel nwyddau i wneud y mwyaf o'i ddefnyddiau masnachol wedi cyrraedd lefelau fyddai yn synnu'n neiniau a'n teidiau. Fel y dywedodd Gweinidog y DU sy'n gyfrifol am yr Asiantaeth Safonau Bwyd pan ddaeth y sgandal i'w amlwg, byddai rheoleiddio gormod yn effeithio'n ddifrifol ar y ddarpariaeth o gynnyrch o werth. Yn wir.

The stranglehold that the huge food and drink multinationals have over us all should not be underestimated, nor, indeed, should their sophistication. It is not just that the 11 supermarket chains dominate 90% of food sales across the UK, all of which use the same processing companies in the relentless search for the cheapest product and the maximising of profit, it is the sophistication of the food and drink industry in always inventing new ways of displacing their competitors and maximising their share of the market.

Ni ddylid diystyru'r gafael haearnaidd sydd gan y cwmnïau bwyd a diod rhyngwladol mawr arnom i gyd, nac, yn wir, eu soffistigedigrwydd. Nid yn unig bod yr 11 cadwyn archfarchnad yn dominyddu 90% o werthiant bwyd ledled y DU, pob un ohonynt yn defnyddio'r un cwmnïau prosesu wrth chwilio'n ddi-baid am y cynnyrch rhataf a gwneud yr elw mwyaf posibl, ond mae natur soffistigedig y diwydiant bwyd a diod mewn dyfeisio ffyrdd newydd bob amser o ddisodli eu cystadleuwyr a gwneud y gorau o'u cyfran o'r farchnad.

Much concern has been expressed in the past about Red Bull and the impact it has on young people when they go out in the evening, but a new product, Monster, is specifically targeted at children—the pictures on it tell you that it is for children. It contains three times the amount of caffeine as Red Bull. This was drawn to my attention by a desperate parent who came in to talk to me about the behaviour of their child. They had discovered that their child was bingeing on this stuff and was, therefore, absolutely uncontrollable both at home and at school. That is the level to which the food and drink industry will stoop and those are the controls that we, as legislators, need to think about imposing in order to prevent that from happening.

Mynegwyd llawer o bryder yn y gorffennol am Red Bull a'r effaith y mae'n ei gael ar bobl ifanc pan fyddant yn mynd allan gyda'r nos, ond mae cynnyrch newydd, Monster, wedi cael ei dargedu'n benodol at blant—mae'r lluniau arno'n ddweud wrthych mai ar gyfer plant y mae. Mae'n cynnwys tair gwaith cymaint o gaffein â Red Bull. Tynnwyd fy sylw at hyn gan riant anobeithiol a ddaeth i mewn i siarad â mi am ymddygiad eu plentyn. Roedden nhw wedi darganfod bod eu plentyn yn goryfed y stwff hwn mewn pyliau ac oedd, felly, yn gwbl afreolus yn y cartref ac yn yr ysgol. Dyna'r lefel y bydd y diwydiant bwyd a diod yn suddo iddi a dyna'r dulliau rheoli y mae angen i ni, fel deddfwyr, feddwl am eu gosod er mwyn atal hynny rhag digwydd.

I am delighted that Andrew R.T. Davies tells us that we must learn lessons from having put smoking regulations in place to beat the smoking industry. We now have to put in place further regulations to beat the food and drink industry to stop it poisoning our population and our children.

Rwy'n falch iawn bod Andrew R.T. Davies yn dweud wrthym fod rhaid inni ddysgu gwersi o fod wedi rhoi rheoliadau ysmygu ar waith i drechu'r diwydiant ysmygu. Nawr mae'n rhaid i ni sefydlu rhagor o reoliadau i drechu'r diwydiant bwyd a diod i'w atal rhag gwenwyno ein poblogaeth a'n plant.

16:19 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In the first instance, I would like to congratulate the Minister for health on the renewed emphasis she has placed on the importance of food and nutrition in her time as Minister for health. That new emphasis was recently summed up by the Minister when she launched the revised hospital menu. She rightly said, in relation to the health service, that food should be viewed with the same importance as medication. That is absolutely right.

Yn y lle cyntaf, hoffwn longyfarch y Gweinidog iechyd ar y pwyslais o'r newydd y mae hi wedi'i roi ar bwysigrwydd bwyd a maeth yn ei chyfnod fel Gweinidog iechyd. Cafodd y pwyslais newydd hwnnw ei grynhoi'n ddiweddar gan y Gweinidog pan lansiodd y fwydlen ysbyty ddiwygiedig. Dywedodd yn gywir, mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd, y dylai bwyd gael ei ystyried gyda'r un pwysigrwydd â meddyginiaeth. Mae hynny'n gwbl gywir.

A new approach to food—one that recognises the role of good food in promoting good health—is one in which everybody has a role, from caterers to dieticians, purchasers, farmers, patients and schoolchildren. We all have a stake in promoting a healthy diet. In that spirit, I would like to address some linked issues that I think are of great importance in helping to improve the nutritional health and wellbeing of young people in particular. These are the importance of a healthy school meal, the need to increase the take-up of school food and the role that we have in promoting confidence that behind school food lies a trusted and sustainable food chain.

Mae dull newydd o gyflwyno bwyd—un sy'n cydnabod rôl bwyd da o ran hyrwyddo iechyd da—yn un lle mae gan bawb rôl, o arlwywyr i ddietegwyr, prynwyr, ffermwyr, cleifion a phlant ysgol. Rydym i gyd â rhan mewn hyrwyddo diet iach. Yn yr ysbryd hwnnw, hoffwn fynd i'r afael â rhai materion cysylltiedig rwy'n meddwl sy'n bwysig iawn mewn helpu i wella iechyd maethol a lles pobl ifanc yn arbennig. Y rhain yw pwysigrwydd prydau ysgol iach, yr angen i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fwyd ysgol a'r rôl sydd gennym o ran hybu hyder bod cadwyn fwyd ddibynadwy a chynaliadwy yn gorwedd y tu ôl i fwyd ysgol.

We know that the challenge is great, and a number of Members today have recognised this. The number of people who regularly achieve the five-a-day fruit and vegetable guideline has fallen by 900,000 across the UK in the last two years. Worse still, poor diet is impacting on the poorest communities and households most acutely. In 2008, 33% of adults in Wales who have never worked or are long-term unemployed reported eating five portions of fruit and vegetables the previous day. By 2011, that figure had fallen to 22%.

Rydym yn gwybod bod yr her yn fawr, ac mae nifer o Aelodau heddiw wedi cydnabod hyn. Mae nifer y bobl sy'n rheolaidd yn cyflawni'r pum ffrwyth y dydd a'r canllaw llysiau wedi gostwng gan 900,000 ar draws y DU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn waeth byth, mae diet gwael yn effeithio ar y cymunedau a'r aelwydydd tlotaf yn fwyaf difrifol. Yn 2008, dywedodd 33% o oedolion yng Nghymru nad ydynt erioed wedi gweithio neu sy'n ddi-waith hirdymor eu bod wedi bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol. Erbyn 2011, roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i 22%.

The significance of a nutritious school meal has never been more important, yet huge public spending cuts are having a detrimental impact on the viability of the school meals service in every region of Wales. The twin challenge for us is how to increase take-up rates of school meals to offset the rising costs associated with food at the same time as we face cuts to school catering budgets. What I would like to see in any revision of the Change4Life programme is a stronger positive message about the value of school meals. I am sure that the system would be positively reinforcing. The more parents have confidence in school meals and the quality of food served to their children, the more parents will be prepared to put their children in for a regular school meal.

Nid yw arwyddocâd pryd ysgol maethlon wedi bod yn fwy pwysig erioed, eto mae toriadau gwariant cyhoeddus enfawr yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y gwasanaeth prydau ysgol ym mhob rhanbarth o Gymru. Yr her ddwbl i ni yw sut i gynyddu cyfraddau derbyn prydau ysgol i wneud iawn am y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â bwyd ar yr un pryd ag yr ydym yn wynebu toriadau i gyllidebau arlwyo mewn ysgolion. Yr hyn yr hoffwn ei weld mewn unrhyw adolygiad o'r rhaglen Change4Life yw neges gryfach gadarnhaol am werth prydau ysgol. Rwy'n siŵr y byddai'r system yn atgyfnerthu'n gadarnhaol. Po fwyaf o hyder y bydd gan rieni'n mewn prydau ysgol ac ansawdd y bwyd a weinir i'w plant, y mwyaf y bydd rhieni'n barod i'w plant gael pryd o fwyd ysgol yn rheolaidd.

The Soil Association's Food for Life partnership estimates that average take-up levels of between 55% and 60% are needed before school meal services can break even and become self-financing. The economic downturn and recent horse-meat scandal will have done nothing to reassure already sceptical parents about the quality of high-volume low-cost food served in mass-market catering. For far too long, school food was treated on a par with cleaning and stationery—contracts that could be hived off to the lowest bidder. Lowest cost has, to our detriment, been too closely equated with best value.

Mae partneriaeth Bwyd am Oes Cymdeithas y Pridd yn amcangyfrif bod angen cyfartaledd manteisio ar lefelau o rhwng 55% a 60% cyn y gall gwasanaethau prydau ysgol adennill costau a dod yn hunan-ariannol. Bydd y dirywiad economaidd a'r sgandal cig ceffyl diweddar wedi gwneud dim i dawelu meddyliau rhieni eisoes yn amheus am ansawdd crynswth uchel cost isel bwyd a weinir ym maes arlwyo marchnad dorfol. Am lawer rhy hir, cafodd bwyd ysgol ei drin yn gyfartal â chontractau glanhau a deunydd ysgrifennu y gellid eu dosrannu i'r cynigydd isaf. Mae cost isaf, er anfantais i ni, wedi bod yn gyfystyr â gwerth gorau yn ormodol.

However, Minister, the heartening signs of change are there. The Welsh Government is becoming increasingly aware of how potent a tool public procurement can be. I urge the Minister for Education and Skills and the Minister for Health and Social Services, along with the Minister for Local Government and Communities, to look at the role of regional consortia in supplying school food and the possibility of creating standalone social enterprises that could re-invest the profits of a successful model of provision in school food. As Professor Kevin Morgan says,

Fodd bynnag, Weinidog, mae'r arwyddion calonogol o newid yno. Mae Llywodraeth Cymru yn dod yn fwyfwy ymwybodol offeryn mor rymus y gall caffael cyhoeddus fod. Rwy'n annog y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i edrych ar rôl y consortia rhanbarthol wrth gyflenwi bwyd ysgol a'r posibilrwydd o greu mentrau cymdeithasol annibynnol a allai ail -fuddsoddi elw model llwyddiannus o ddarpariaeth mewn bwyd ysgol. Fel y mae'r Athro Kevin Morgan yn ei ddweud,

'school food is the litmus test of a society's commitment to social justice, public health and sustainable development.'

bwyd ysgol yw prawf litmws ymrwymiad cymdeithas i gyfiawnder cymdeithasol, iechyd cyhoeddus a datblygiad cynaliadwy.

We must turn our attention to the state of school meals for the health and wellbeing of our young people. I look forward to seeing how a revised Change4Life programme can play a part in this regard.

Mae'n rhaid i ni droi ein sylw at gyflwr prydau ysgol ar gyfer iechyd a lles ein pobl ifanc. Edrychaf ymlaen at weld sut y gall rhaglen Change4Life ddiwygiedig chwarae rhan yn hyn o beth.

16:23 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will speak to amendments 7 and 8, mostly, in relation to 'Appetite for Life'. I have made a freedom of information request to local authorities on the take-up of school meals; 17 have responded. 'Appetite for Life' is still voluntary, and will not be compulsory until next year. However, since it was introduced, there has been a decrease of almost 2% in take-up of school meals in the 17 local authorities that responded. This is despite the fact that the number of free school meals has gone up by between 3% and 5%. I think that is a particular concern. I am not putting that down to 'Appetite for Life', because it is very difficult to prove a causal relationship. However, it is a cause of concern that the take-up of school meals is going down on the whole. The feedback that I am getting from schools in my region on 'Appetite for Life' is that it is causing particular problems for them in encouraging take-up, for reasons that I will now outline.

Byddaf yn siarad am welliannau 7 ac 8, yn bennaf, mewn perthynas â 'Blas am Oes'. Rwyf wedi gwneud cais rhyddid gwybodaeth i awdurdodau lleol ar y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol; mae 17 wedi ymateb. Mae 'Blas am Oes' yn dal yn wirfoddol, ac ni fydd yn orfodol tan y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, ers iddo gael ei gyflwyno, bu gostyngiad o bron i 2% yn y nifer sy'n cael prydau ysgol yn yr 17 awdurdod lleol a ymatebodd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer y prydau ysgol am ddim wedi cynyddu rhwng 3% a 5%. Credaf fod hynny'n bryder penodol. Nid wyf yn priodoli hynny i 'Blas am Oes', oherwydd mae'n anodd iawn i brofi perthynas achlysurol. Fodd bynnag, mae'n achos pryder bod y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol yn mynd i lawr ar y cyfan. Yr adborth yr wyf yn ei gael o ysgolion yn fy rhanbarth ar 'Blas am Oes' yw ei fod yn achosi problemau penodol ar eu cyfer mewn annog pobl i fanteisio, am resymau y byddaf yn awr yn eu hamlinellu.

'Appetite for Life' guidelines state that an average school lunch should provide 30% of the total daily energy requirement. That is based on the assumption that three meals a day are consumed and that lunch provides approximately one third of the daily intake. The average school lunch must contain 543 calories, plus or minus 26.5 calories, for primary pupils, and 646 calories, plus or minus 32 calories, for secondary pupils. The recommended calorie intake is 1,800 calories for children aged between five and 10. For some children, the school lunch is the only meal they will get in a day. Some will only get the school lunch and school breakfast. Breakfast could be one Weetabix with skimmed milk or a slice of toast, which is around 100 calories. So, where are the other 1,270 calories a day going to come from?

Mae canllawiau 'Blas am Oes' yn datgan y dylai cinio ysgol cyffredin ddarparu 30% o'r cyfanswm egni dyddiol gofynnol. Mae hynny'n seiliedig ar y rhagdybiaeth fod tri phryd y dydd yn cael eu bwyta, a bod cinio yn darparu tua un rhan o dair o'r cymeriant dyddiol. Mae'n rhaid i'r cinio ysgol cyffredin gynnwys 543 o galorïau, plws neu finws 26.5 o galorïau, ar gyfer disgyblion cynradd, a 646 o galorïau, plws neu finws 32 o galorïau, ar gyfer disgyblion uwchradd. Y cymeriant calorïau a argymhellir yw 1800 o galorïau ar gyfer plant rhwng pump a 10. I rai plant, y cinio ysgol yw'r unig bryd y byddant yn ei gael mewn diwrnod. Bydd rhai ddim ond yn cael y cinio ysgol a brecwast yn yr ysgol. Gallai brecwast fod yn un Weetabix gyda llaeth sgim neu sleisen o dost, sef tua 100 o galorïau. Felly, o ble mae'r 1,270 arall o galorïau'r dydd yn mynd i ddod?

In conversations that I have had with some schools and local authorities in my region, I have been told that the guidelines of 'Appetite for Life' are extremely restrictive. For example, you are not allowed to put a spread on bread. You try encouraging a five-year-old to eat bread without a spread on it. No more than 10 ml of ketchup are allowed, and no confectionary. There are maximum or minimum levels for everything from non-milk extrinsic sugars to vitamin A. That makes it very difficult for local authorities to formulate a menu, as the Saffron system that they have to use makes the assumption that the child is having a school lunch five days a week and requires a balance across the five days while staying within the guidelines. Also, authorities have to constantly check with the suppliers to ensure that the recipe for something that they have purchased has not changed. They have to feed in the ingredients of every meal and manipulate those ingredients to get the balance right before the Saffron system passes it. I believe that that is overly bureaucratic and implies that local authorities cannot employ someone with the qualifications and experience to decide whether the school meals supplied are reasonably healthy and adequate for the children concerned. Many local authorities have put up the price of the meals and have reduced choice, leaving a child, in one case, to eat a handful of rice on a plate for lunch and leaving others to have a plain jacket potato with no topping and no butter everyday for a week. I was told in one school today that the main choice was a sausage meal and the alternative was pasta with gravy. That is not a healthy meal that any child should be asked to eat.

Mewn sgyrsiau yr wyf wedi'u cael gyda rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn fy rhanbarth, rwyf wedi cael gwybod bod canllawiau 'Blas am Oes' yn hynod gaeth. Er enghraifft, ni chaniateir i chi roi taeniad ar fara. Rhowch chi gynnig ar annog plentyn pum mlwydd oed i fwyta bara heb daeniad arno. Ni chaniateir dim mwy na 10 ml o sos coch, a dim melysion. Mae lefelau uchaf neu isaf ar gyfer popeth o siwgr anghynhenid nad yw'n deillio o laeth i fitamin A. Mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd iawn i awdurdodau lleol lunio bwydlen, gan fod y system Saffron y mae'n rhaid iddynt ei defnyddio yn gwneud y dybiaeth bod y plentyn yn cael cinio ysgol bum niwrnod yr wythnos ac mae angen cydbwysedd ar draws y pum niwrnod tra eu bod yn aros o fewn y canllawiau. Hefyd, mae'n rhaid i awdurdodau gadarnhau'n gyson gyda'r cyflenwyr i sicrhau nad yw'r rysáit ar gyfer rhywbeth y maent wedi ei brynu wedi newid. Mae'n rhaid iddyn nhw fwydo cynhwysion pob pryd bwyd a thrin y cynhwysion hynny i gael y cydbwysedd cywir cyn i'r system Saffron ei basio. Credaf fod hynny'n rhy fiwrocrataidd ac mae'n awgrymu na all awdurdodau lleol gyflogi rhywun sydd â'r cymwysterau a'r profiad i benderfynu a yw'r prydau ysgol a gyflenwir yn weddol iach a digonol ar gyfer y plant dan sylw. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynyddu pris y prydau bwyd ac wedi lleihau dewis, gan adael plentyn, mewn un achos, i fwyta llond llaw o reis ar blât i ginio a gadael eraill i gael taten bob blaen heb unrhyw beth arni a dim menyn bob dydd am wythnos. Dywedwyd wrthyf mewn un ysgol heddiw mai'r prif ddewis oedd pryd selsig a'r dewis arall oedd pasta gyda grefi. Nid yw hynny'n bryd iach y dylid gofyn i unrhyw blentyn ei fwyta.

Before 'Appetite for Life' is made compulsory, therefore, there is a need to review the way that it is being implemented. I am concerned that it seems to be top-down, which was never the intention behind the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009. In fact, when Jenny Randerson introduced that Measure, she sought assurances that it was going to be a bottom-up Measure to encourage local authorities to invest in healthy eating. The other side to that healthy eating Measure was to encourage children to cook for themselves and to learn about the cooking process. However, the guidelines prevent children from going into the kitchens in their school to watch how meals are prepared. It also works against the social enterprises that Ken Skates has just been talking about.

Cyn i 'Blas am Oes' gael ei wneud yn orfodol, felly, mae angen adolygu'r ffordd y mae'n cael ei weithredu. Rwy'n pryderu ei fod yn ymddangos i fod o'r brig i lawr, na fu erioed yn fwriad y tu ôl i Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009. Yn wir, pan gyflwynodd Jenny Randerson y Mesur hwnnw, gofynnodd am sicrwydd ei fod yn mynd i fod yn Fesur o'r gwaelod i fyny i annog awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn bwyta'n iach. Yr ochr arall i'r Mesur bwyta'n iach oedd annog plant i goginio drostynt eu hunain ac i ddysgu am y broses goginio. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n atal plant rhag mynd i mewn i'r ceginau yn eu hysgol i wylio sut y mae prydau bwyd yn cael eu paratoi. Mae hefyd yn gweithio yn erbyn y mentrau cymdeithasol y mae Ken Skates newydd fod yn siarad amdanynt.

Healthy eating is an absolute must in schools and school meals. We have to make sure that local authorities and schools have the flexibility to get it right, make sure that children are being presented with a proper choice of a healthy meal and make sure that the over prescription that is currently inherent in 'Appetite for Life' through the Saffron computer system is tackled. I would hope that those criticisms can be taken up and dealt with before this becomes a compulsory system.

Mae bwyta'n iach yn rheidrwydd absoliwt mewn ysgolion a phrydau ysgol. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion yr hyblygrwydd i gael pethau'n iawn, gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu cyflwyno gyda dewis priodol o bryd o fwyd iach a gwneud yn siŵr yr eir i'r afael â'r gor-ragnodi sy'n gynhenid ar hyn o bryd yn 'Blas am Oes' drwy system gyfrifiadurol Saffron. Byddwn yn gobeithio derbyn ac ymdrin â'r feirniadaeth honno cyn i hon ddod yn system orfodol.

16:28

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel y dywedodd Ken Skates yn gynharach, mae 'pump y dydd' yn derm sy'n gyfarwydd inni i gyd, ond ni ddilynir hyn gan bawb. Nid yw 'afal y dydd', heb ddeiet cytbwys, yn ddigonol. Mae angen deiet iach a chytbwys ar gyfer iechyd cyffredinol, gweithgareddau cynaliadwy, a lles. Mae ffigurau'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos bod angen gwneud mwy, gyda rhai mannau yng Nghymru ymhlith y rhai lleiaf iach yn y Deyrnas Unedig.

As Ken Skates said earlier, 'five a day' is a term that is familiar to us all, but it is not followed by everybody. An apple a day without a balanced diet is not sufficient. A healthy and balanced diet is needed for general health, sustainable activities, and wellbeing. The recent census figures show that more needs to be done, with some areas of Wales among the least healthy in the UK.

Rwy'n croesawu a chefnogi dadl y Llywodraeth heddiw a gwaith Llywodraeth Cymru mewn hyrwyddo Bwyta'n Gall, a'i gyd-destun ehangach, Newid am Oes. Dywed Sefydliad Iechyd y Byd bod 80% o'r achosion o glefyd y galon yn ataliadwy. Y newyddion da yw bod newidiadau i wella iechyd yn rhai syml, fel lleihau colesterol, bwyta deiet iach, ymarfer rheolaidd, peidio ag ysmygu ag osgoi straen. Rwyf i'n ymwybodol iawn o hyn; ar ôl cael stent rwyf wastad yn edrych ar gefn pacedi bwyd am lefelau maeth er mwyn gwneud y dewisiadau mwyaf iachus a chadw lefelau colesterol yn isel. Un o'r achosion mwyaf o golesterol uchel yw braster dirlawn, sy'n cael ei gynnwys yn rhy aml mewn bwyd wedi'i brosesu. Rwyf hefyd yn falch o'r dull gweithredu ar draws portffolio Gweinidogion eraill, megis y Bil teithio sydd ar y gweill i wneud cerdded neu feicio yn arfer. Adeiladwyd darn Llanelli o lwybr parc arfordirol y mileniwm yn ddi-draffig, ac mae'n rhan o rwydwaith y llwybr Celtaidd sy'n cynnwys dros 300 milltir o lwybrau beicio ar draws de Cymru, ac rwy'n falch dweud bod cannoedd yn cymryd rhan, naill ai wrth gerdded neu feicio ar hyd y llwybr.

I welcome and support the Government's debate today and the work of the Welsh Government in promoting Be Food Smart, and its wider context, Change4Life. The World Health Organization states that 80% of heart disease is preventable. The good news is that changes to improve health are quite simple, such as reducing cholesterol, eating a healthy diet, regular exercise, not smoking and avoiding stress. I am very aware of this; after having a stent I always look at the back of food packets for the nutrition levels to make the most healthy choices and to keep cholesterol levels low. One of the main causes of high cholesterol is saturated fat, which is all too often contained in processed food. I am also pleased with the way in which this crosses over into the portfolios of other Ministers, such as the travel Bill that is being proposed to make walking and cycling the norm. Llanelli's section of the millennium coastal pathway was built to be traffic-free, and it is part of the Celtic trail network, which contains 300 miles of cycle paths across south Wales, and I am pleased to say that hundreds take part, either by walking or cycling along the path.

Rwy’n deall bod asiantaethau megis Sefydliad Prydeinig y Galon yn rhedeg ymgyrchoedd adnabyddus, er enghraifft Food4Thought, lle mae’r plant yn helpu i werthu ‘snacks’ iachus yn yr ysgol, a’r ymgyrch i roi terfyn ar farchnata a hysbysebu bwyd sothach i blant wrth iddynt chwarae ar y we. Credaf mai cyd-weithio yw’r allwedd i ddatgloi Cymru iachus.

I understand that agencies such as the British Heart Foundation have run high-profile campaigns, such as Food4Thought, where children help to sell healthy snacks in schools, and a campaign to stop the marketing and advertising of junk food to children while they play online. I believe that working in partnership is the key to unlocking a healthier Wales.

Dywed Estyn bod clybiau brecwast yn cael effaith bositif ar iechyd a lles. Bu brecwast ysgolion a llaeth am ddim, wrth gwrs, yn un o’r ‘pump i’w cadw’ ym maniffesto Llafur Cymru. Hoffwn hefyd sôn am y systemau cinio electronig mewn ysgolion, sy’n sicrhau nad oes neb yn gwybod pwy sy’n cael cinio am ddim.Yn sir Gâr, hefyd, mae strategaeth maetheg ysgolion, sy’n defnyddio’r dull gweithredu ‘ysgol lawn’, er enghraifft codi ymwybyddiaeth o fanteision bwyta’n iach a lleihau’r peryglon iechyd a ddaw o ddiet afiach.

Estyn has said that breakfast clubs have a positive impact on health and wellbeing. Free school breakfasts and milk were, of course, one of the ‘five to keep’ in Welsh Labour’s manifesto. I would also like to mention the electronic school lunch systems, which ensure that no-one knows who is receiving free school meals. In Carmarthenshire, there is also a school nutrition strategy, which uses a full-school approach to, for example, raise awareness of the benefits of eating healthily and reducing the dangers to health that result from an unhealthy diet.

Soniodd rhywun yn gynharach am raglen ‘co-operative’ bwyd cymunedol, ac mae un yng ngorllewin Cymru, a gefnogwyd gan yr uned adfywio gwledig, a’i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae gweithwyr datblygiad bwyd ar law i helpu i ddarparu cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sy’n dymuno creu un. Mae’r rhaglen yn helpu mwy o deuluoedd i gael eu pump y dydd ac mae o fantais i ffermwyr lleol gan fod cynnyrch lleol yn cael ei brynu. Maent yn cysylltu gwirfoddolwyr lleol â chyflenwyr neu gyfanwerthwyr a ddewiswyd ar yr amod y gallent dyfu cymaint o gynnyrch lleol ag sy’n bosibl. Dechreuodd gyda dwy raglen beilot yn 2004 a fu’n canolbwyntio ar gymunedau o dan anfantais gymdeithasol. Yr amcan oedd datblygu a chyflwyno ymarferion cynaliadwy i wella iechyd trwy weithredu ar y cyd, gydag ymdrechion i gysylltu ffermwyr lleol yn uniongyrchol â chwsmeriaid. Sefydlwyd 77 yn y ddwy flynedd gyntaf. Bellach, mae tua 300 o raglenni yng Nghymru yn creu bron £1 miliwn o incwm i fusensau Cymreig. Annogaf unrhyw un sydd â diddordeb i greu rhaglen, neu i ymuno ag un yn eu cymuned.

Someone mentioned earlier a community food co-operative programme, and there is one in west Wales, which was supported by the rural regeneration unit, and funded by the Welsh Government. Food development workers are available to provide advice and support to anyone who wishes to create one. The programme helps more families to have their five a day and it is of benefit to local farmers because produce is bought locally. They put local volunteers in touch with suppliers or wholesalers who have been chosen on the condition that they can grow as much local produce as possible. It started with two pilot programmes in 2004 that concentrated on socially disadvantaged communities. The objective was to develop and introduce sustainable practices to improve health by collaborating, with efforts to connect local farmers directly to customers. In the first two years, 77 were established. Now, there are almost 300 programmes in Wales creating almost £1 million of income for Welsh businesses. I encourage anyone who as an interest to create a programme or to join one in their community.

Fodd bynnag, mae’n bwysig sylweddoli’r heriau sy’n ein hwynebu. Mae’r nifer sy’n dibynnu ar fanciau bwyd yn cynyddu. Rwy’n gwybod fod hyn wedi’i godi gan sawl Aelod Seneddol Llafur yn San Steffan wrth siarad am y Bil Diwygio Lles. Fel dywedodd un Aelod Seneddol, mae hyd yn oed pobl sydd mewn gwaith yn gorfod defnyddio banciau bwyd i fwydo eu teuluoedd.

However, it is important to realise that there are challenges facing us. The dependency on food banks is increasing. I know that this has been raised by many Labour Members of Parliament in Westminster when talking about the Welfare Reform Bill. One Member of Parliament said that even those people in work have to use food banks to feed their families.

Mae tri banc bwyd mawr yn Llanelli, yng nghanolfan Antioch, yn Nhŷ Myrtle a chan Fyddin yr Iachawdwriaeth. Mae canolfan Antioch yn cynnig banc o fwyd, dillad a chelfi. Mae’n ddibynnol ar roddion ac mae’n eu casglu trwy ffyrdd fel arwerthiant cist misol. Trefnodd Rebecca a fi hamper Nadolig fel rhodd i ganolfan Antioch.

Three food banks are in place in Llanelli, in the Antioch centre, in Myrtle House and one by the Salvation Army. The Antioch centre offers a food, clothes and furniture bank. It is dependent on gifts, which it collects via monthly boot sales. Rebecca and I organised a Christmas food hamper as a gift to the Antioch centre.

Maent wedi dweud wrthyf fod diwygiadau lles wedi golygu cynnydd sylweddol yn y nifer sy’n ddibynnol arnynt.

They have told me that welfare reform has meant a substantial increase in the number of people dependent on them.

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Trefn. Gorffenwch, os gwelwch yn dda.

Order. Conclude, please.

16:33 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dangosodd arolwg diweddar fod 48% o'r rhai sydd wedi colli pryd o fwyd wedi gwneud hynny am y tro cyntaf eleni.

A recent survey shows that 48% of those who have missed a meal have done so for the first time this year.

16:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I congratulate the Welsh Government on its policies to encourage people to eat healthier food, and it is important to do that in a variety of ways—improving exercise, looking at school food, which has been debated a lot here today, food in hospitals, free swimming and all of the other initiatives. I think that the approach used in Be Food Smart is in the right direction, because I do not think that it is a good thing to lecture people on what they should eat, because if you are struggling with money and you do not know where your next penny is coming from, and you are wondering how you will get through the next week, the last thing you want is to have people lecturing you on what you should and should not eat. The way that this is being done is perhaps the best way to go about it.

Rwy'n llongyfarch Llywodraeth Cymru ar ei pholisïau i annog pobl i fwyta bwyd iachach, ac mae'n bwysig gwneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd—gwella ymarfer corff, edrych ar fwyd ysgol, sydd wedi ei drafod llawer yma heddiw, bwyd mewn ysbytai, nofio am ddim a'r holl fentrau eraill. Credaf mai'r dull a ddefnyddir yn Bwyta'n Gall yw'r cyfeiriad cywir, oherwydd nid wyf yn credu ei bod yn beth da i bregethu wrth bobl ynghylch beth y dylent ei fwyta, oherwydd os ydych yn cael trafferth ag arian ac nad ydych yn gwybod o ble mae eich ceiniog nesaf yn dod, ac rydych yn meddwl sut y byddwch yn dod i ben yr wythnos nesaf, y peth olaf y mae arnoch ei eisiau yw cael pobl yn pregethu i chi ar yr hyn y dylech ac na ddylech ei fwyta. Y ffordd y mae hyn yn cael ei wneud efallai yw'r ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi.

I would like to make a few suggestions. I would like to make a plug for more people to have the opportunity to grow their own food. We all know that there are many people on waiting lists for allotments. The Plaid Cymru leader referred to that earlier. A successful scheme in Edinburgh has enabled people on the waiting list for allotments to take over the gardens of people who are unable to look after those gardens themselves: people who may be disabled or who are elderly. That seems to be a sensible way of sharing things out and it is a successful scheme. Therefore, I wonder whether that is something that the Minister might try to promote with local authorities.

Hoffwn wneud ychydig o awgrymiadau. Hoffwn roi hysbysrwydd i fwy o bobl gael y cyfle i dyfu eu bwyd eu hunain. Rydym i gyd yn gwybod bod llawer o bobl ar restrau aros am randiroedd. Cyfeiriodd arweinydd Plaid Cymru at hynny'n gynharach. Mae cynllun llwyddiannus yng Nghaeredin wedi galluogi pobl ar y rhestr aros am randiroedd i ddefnyddio gerddi pobl nad ydynt yn gallu gofalu am y gerddi eu hunain: pobl a all fod yn anabl neu sy'n hen. Mae hynny'n ymddangos i fod yn ffordd synhwyrol o rannu pethau ac mae'n gynllun llwyddiannus. Felly, tybed a yw hynny'n rhywbeth y gallai'r Gweinidog geisio ei hyrwyddo gydag awdurdodau lleol.

It is a good idea to enable people to grow food in their workplace, and I have suggested that this should be done in the Assembly. It is interesting to note that there are workplace allotments in Stormont in Northern Ireland. I think many workplaces encourage members of staff to take part in food growing projects. It could just be herbs on a window sill, but it is important, particularly in an urban environment. It encourages healthy eating, which then passes down to the children. There are a lot of things that can be done in a lot of ways.

Mae'n syniad da i alluogi pobl i dyfu bwyd yn eu gweithle, ac rwyf wedi awgrymu y dylai hyn gael ei wneud yn y Cynulliad. Mae'n ddiddorol nodi bod rhandiroedd yn y gweithle yn Stormont yng Ngogledd Iwerddon. Rwy'n credu bod llawer o weithleoedd yn annog aelodau o staff i gymryd rhan mewn prosiectau tyfu bwyd. Gallai fod yn berlysiau ar silff ffenestr yn unig, ond mae'n bwysig, yn enwedig mewn amgylchedd trefol. Mae'n annog bwyta'n iach, sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r plant. Mae llawer o bethau y gellir eu gwneud mewn llawer o ffyrdd.

The other day I was driving and listening to a programme on the radio that was giving examples of how people stretch food to provide for a number of meals. A very enthusiastic woman on the radio said that she roasted the chicken on a Sunday. She made chicken curry with the leftovers the next day and on the third day she boiled the carcass to make a soup. I felt inadequate when I heard her say this because I felt that this way of stretching food is something that we have got out of the habit of doing. It made me feel that this is what we all want to do. Then I thought that if you are struggling and worried about where everything is coming from, you might not have the initiative or the impetus to do what this successful woman was doing. However, it made me think about how you should try to stretch your resources.

Y diwrnod o'r blaen roeddwn yn gyrru a gwrando ar raglen ar y radio oedd yn rhoi enghreifftiau o sut mae pobl yn ymestyn bwyd i ddarparu ar gyfer nifer o brydau bwyd. Dywedodd menyw frwdfrydig iawn ar y radio ei bod wedi rhostio cyw iâr ar y Sul. Gwnaeth gyri cyw iâr gyda'r sbarion y diwrnod wedyn ac ar y trydydd dydd berwodd hi'r carcas i wneud cawl. Roeddwn i'n teimlo'n annigonol pan glywais i hi'n dweud hyn am fy mod yn teimlo bod y dull hwn o ymestyn bwyd yn rhywbeth yr ydym wedi peidio â'i wneud. Mae'n gwneud i mi deimlo mai dyma beth yr ydym i gyd am ei wneud. Yna meddyliais, os ydych yn cael trafferth ac yn poeni o ble mae popeth yn dod, efallai na fydd gennych y fenter neu'r ysgogiad i wneud beth yr oedd y fenyw lwyddiannus hon yn ei wneud. Fodd bynnag, mae'n gwneud i mi feddwl am sut y dylech geisio ymestyn eich adnoddau.

That led me to think about those poorest people who disproportionately tend to be obese in Wales today and are driven to food banks. Keith Davies mentioned the issue of food banks, which I think is a very worrying issue. It is important that food banks do not become embedded in the system in Wales, as if they have a permanent role in the country, because I know that in other countries when food banks have come in they have not gone away. They have become part of the whole system. I know that they are important for people at the moment, but I feel strongly that they are a crisis response to a crisis situation. I was very shocked when one of my constituents came to the office the other day and said that she had been told by the person from the Department for Work and Pensions or some such body that she should go to the food bank and that was how she should manage. If they are being treated in that kind of way, it is very dangerous. Although I understand the need for them, we do not want them to be embedded.

Mae hynny'n fy arwain i feddwl am y bobl dlotaf sydd yn anghymesur yn tueddu i fod yn ordew yng Nghymru heddiw ac yn cael eu gyrru i fanciau bwyd. Crybwyllodd Keith Davies fater banciau bwyd, yr wyf yn meddwl sy'n fater sy'n peri pryder mawr. Mae'n bwysig nad yw banciau bwyd yn ymwreiddio yn y system yng Nghymru, fel pe bai ganddynt rôl barhaol yn y wlad, oherwydd gwn mewn gwledydd eraill pan mae banciau bwyd wedi dod i mewn nad ydynt wedi mynd i ffwrdd. Maent wedi dod yn rhan o'r system gyfan. Rwy'n gwybod eu bod yn bwysig i bobl ar hyn o bryd, ond rwy'n teimlo'n gryf mai ymateb argyfwng i sefyllfa argyfwng ydynt. Cefais sioc fawr pan ddaeth un o fy etholwyr i'r swyddfa'r diwrnod o'r blaen a dweud ei bod wedi cael gwybod gan y person o'r Adran Gwaith a Phensiynau neu ryw gorff o'r fath y dylai fynd i'r banc bwyd a dyna sut y dylai hi ymdopi. Os ydynt yn cael eu trin mewn ffordd o'r fath, mae'n beryglus iawn. Er fy mod yn deall yr angen amdanynt, nid ydym am iddynt gael eu hymwreiddio.

16:38

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention, Julie. What is your response to the fact that before the new UK Government was established food banks were not advertised in job centres at all and it was the UK Government that allowed information about them to be introduced in those centres?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad, Julie. Beth yw eich ymateb i'r ffaith nad oedd banciau bwyd yn cael eu hysbysebu mewn canolfannau gwaith o gwbl cyn i Lywodraeth newydd y DU gael ei sefydlu ac mai Llywodraeth y DU ganiataodd i wybodaeth amdanynt gael ei chyflwyno yn y canolfannau hynny?

16:38

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We want to move away from food banks. We need to have adequate money and benefits for people. Food banks are a very bad sign of the times.

Rydym yn awyddus i symud i ffwrdd oddi wrth fanciau bwyd. Mae angen i ni gael arian a budd-daliadau digonol i bobl. Mae banciau bwyd yn arwydd gwael iawn o'r amserau.

In conclusion, I think that there are huge opportunities to influence this agenda, but we will have to be very sensitive in how we do it. However, I think that the Welsh Government's way of approaching it is along the right lines.

I gloi, credaf fod cyfleoedd enfawr i ddylanwadu ar yr agenda hon, ond bydd yn rhaid i ni fod yn sensitif iawn o ran sut yr ydym yn ei wneud. Fodd bynnag, credaf fod y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar y llinellau cywir

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister to reply to the debate.

16:39

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I thank everyone for their contributions during this debate. I am very grateful for the support shown towards the Be Food Smart campaign and to ensuring that the people of Wales eat a healthy, sustainable diet. I will try to respond to as many of the issues raised with me and I will consider everyone's comments.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y ddadl hon. Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth a ddangoswyd tuag at yr ymgyrch Bwyta'n Gall ac i sicrhau bod pobl Cymru yn bwyta diet iach a chynaliadwy. Byddaf yn ceisio ymateb i gymaint o'r materion a godwyd gyda mi a byddaf yn ystyried sylwadau pawb.

Jenny Rathbone, Julie Morgan and Leanne Wood talked about the challenges that families face. I mentioned in my opening remarks that when I launched Be Food Smart it involved the whole family. It was great to see the children really involved in food preparation and learning about where the fruit and veg that they used came from. They were not quite growing their own, unfortunately, but it was about the enjoyment of food, and also about not lecturing people about what they should eat, as Julie mentioned, but getting them to enjoy the preparation of the food.

Siaradodd Jenny Rathbone, Julie Morgan a Leanne Wood am yr heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu. Soniais yn fy sylwadau agoriadol, pan lansiais Bwyta'n Gall ei fod yn cynnwys y teulu cyfan. Roedd yn wych gweld y plant yn cymryd rhan o ddifrif mewn paratoi bwyd a dysgu o ble y mae'r ffrwythau a'r llysiau a ddefnyddiwyd ganddynt yn dod. Nid oeddent yn tyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain yn hollol, yn anffodus, ond roedd yn ymwneud â mwynhau bwyd, a hefyd â pheidio â phregethu i bobl ynghylch beth y dylent ei fwyta, fel y crybwyllodd Julie, ond eu cael i fwynhau paratoi'r bwyd.

In addition to the initiatives that we have talked about today to engage and encourage people to improve their diets, we are also working to create a supportive environment to enable people to change their eating habits. We are working to ensure that our public sector settings will be an exemplar of best practice in food provision. Nutrition and catering standards and/or guidance have been issued to hospitals, schools, early years settings, leisure centres and youth centres. I will come back to schools and hospitals later on.

Yn ogystal â'r mentrau yr ydym wedi siarad amdanynt heddiw i ymgysylltu ac annog pobl i wella eu diet, rydym hefyd yn gweithio i greu amgylchedd cefnogol er mwyn galluogi pobl i newid eu harferion bwyta. Rydym yn gweithio i sicrhau y bydd ein lleoliadau sector cyhoeddus yn batrwm o arfer gorau o ran darparu bwyd. Mae safonau a/neu ganllawiau maeth ac arlwyo wedi cael eu dosbarthu i ysbytai, ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, canolfannau hamdden a chanolfannau ieuenctid. Byddaf yn dod yn ôl at ysgolion ac ysbytai yn nes ymlaen.

16:40

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree that in addition to eating healthy food, it is also about a campaign for time to eat? This is something that should happen throughout our communities, including employers and the public sector. I think that that would help as well.

A ydych yn cytuno, yn ychwanegol at fwyta bwyd iach, mae hefyd yn ymwneud ag ymgyrch am amser i fwyta? Mae hyn yn rhywbeth a ddylai ddigwydd yn ein cymunedau, gan gynnwys cyflogwyr a'r sector cyhoeddus. Credaf y byddai hynny'n helpu hefyd.

16:41

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a very important point, and it goes back to the challenge facing families to find that time that Leanne mentioned, but it is also the same challenge in the workplace. How many of us eat a sandwich at our desks? Having the time to eat should be very much encouraged.

Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn, ac mae'n mynd yn ôl at yr her sy'n wynebu teuluoedd i ddod o hyd i'r amser hwnnw y crybwyllodd Leanne, ond yr un her ydyw yn y gweithle. Faint ohonom sy'n bwyta brechdan wrth ein desgiau? Dylid annog cael yr amser i fwyta yn fawr iawn.

Kirsty Williams referred to the challenges that parents face as part of the daily lunch-pack scenario, which I remember very well. It can be very difficult to help our children to eat healthily when they are faced with the peer pressure that you referred to. You also mentioned the initiative in Philadelphia—I think that it is called Get Healthy Philly—which we are looking at. For instance, they have disconnected deep-fat fryers in schools. We need to look at that initiative because their obesity levels have dropped as a result to 5%, as opposed to other areas where obesity levels are rising. It is about making sure that we target our at-risk communities much more effectively, and how we can engage with our partners to increase the scale.

Cyfeiriodd Kirsty Williams at yr heriau y mae rhieni yn eu hwynebu fel rhan o'r senario pecyn cinio dyddiol, yr wyf yn cofio yn dda iawn. Gall fod yn anodd iawn i helpu ein plant i fwyta'n iach pan fyddant yn wynebu'r pwysau gan gyfoedion y cyfeiriasoch ato. Soniasoch hefyd am y fenter yn Philadelphia—credaf mai ei enw yw Get Healthy Philly—yr ydym yn edrych arno. Er enghraifft, maent wedi datgysylltu ffriwyr saim dwfn mewn ysgolion. Mae angen i ni edrych ar y fenter oherwydd bod eu lefelau gordewdra wedi gostwng o ganlyniad i 5%, o'u cymharu ag ardaloedd eraill lle mae lefelau gordewdra yn cynyddu. Mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn targedu ein cymunedau sydd mewn risg yn llawer mwy effeithiol, a sut y gallwn ymgysylltu â'n partneriaid i gynyddu'r raddfa.

16:42

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the ways in which you can target is by ensuring that there are properly qualified health professionals to do this job. Do you know how many public health specialists are employed in the NHS in Wales, and do you agree that the substantial cut in the number of available consultants is not helping us to address these agendas?

Weinidog, un o'r ffyrdd y gallwch dargedu hyn yw trwy sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol priodol cymwys i wneud y swydd hon. Ydych chi'n gwybod faint o arbenigwyr iechyd y cyhoedd sy'n cael eu cyflogi yn y GIG yng Nghymru, ac a ydych yn cytuno nad yw'r toriad sylweddol yn y nifer o ymgynghorwyr sydd ar gael yn ein helpu i fynd i'r afael â'r agendâu?

16:42

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are doing very well in public health in Wales. A public health Bill, which I will come to later, is about getting out there and showing people the importance that we place on public health.

Rydym yn gwneud yn dda iawn ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae Bil iechyd y cyhoedd, y byddaf yn sôn amdano'n ddiweddarach, yn ymwneud â mynd allan a dangos i bobl y pwysigrwydd a rown ar iechyd y cyhoedd.

The food and drink industry has a significant role in influencing what people eat. As the industry operates at a UK and European level, officials are working with their counterparts from the other three UK health departments to influence the food industry.

Mae gan y diwydiant bwyd a diod rôl bwysig wrth ddylanwadu ar beth mae pobl yn ei fwyta. Gan fod y diwydiant yn gweithredu ar lefel y DU ac Ewrop, mae swyddogion yn gweithio gyda'u cymheiriaid o dair adran iechyd arall y DU i ddylanwadu ar y diwydiant bwyd.

A recent significant step forward in this work has been the broad agreement by the UK food industry to develop a consistent, simple and clear system for front-of-pack labelling that everyone can use. This will make it easier for everyone to keep track of what they eat and make healthier choices, the importance of which Keith Davies referred to.

Cam sylweddol ymlaen yn ddiweddar yn y gwaith hwn fu'r cytundeb eang gan ddiwydiant bwyd y DU i ddatblygu system gyson, syml a chlir o labelu blaen pecynnau y gall pawb eu defnyddio. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bawb gadw golwg ar yr hyn maent yn ei fwyta a gwneud dewisiadau iachach, a chyfeiriodd Keith Davies at bwysigrwydd hyn.

However, I am aware that the food and drink industry could do a great deal more to address obesity. The UK Government is working with UK food and drink companies to obtain agreements for voluntary action for aspects such as reducing salt, calories and portion sizes. I recently wrote to the Secretary of State for Wales requesting a progress update on the UK Government's commitment for an external evaluation of its work in this area.

Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol y gallai'r diwydiant bwyd a diod wneud llawer mwy i fynd i'r afael â gordewdra. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda chwmnïau bwyd a diod yn y DU i gael cytundebau ar gyfer gweithredu gwirfoddol ar gyfer agweddau megis lleihau halen, calorïau a maint dognau. Ysgrifennais yn ddiweddar at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gofyn am adroddiad cynnydd am ymrwymiad Llywodraeth y DU ar gyfer gwerthusiad allanol o'i waith yn y maes hwn.

I mentioned the public health Green Paper, which is actively encouraging debate around health legislation, on which we are consulting until late February. Valuing food is a subject that will come up in this debate, because someone said to me that they felt that food was too cheap. That produced a gasp around the room, but I can see why people are saying that in relation to people not valuing food as much as they used to.

Crybwyllais y Papur Gwyrdd iechyd cyhoeddus, sy'n annog trafodaeth am ddeddfwriaeth iechyd, yr ydym yn ymgynghori arni tan ddiwedd mis Chwefror. Mae rhoi gwerth ar fwyd yn bwnc a fydd yn dod i fyny yn y ddadl hon, oherwydd bod rhywun wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo bod bwyd yn rhy rhad. Mynegwyd syndod yn yr ystafell am hynny, ond gallaf weld pam fod pobl yn dweud hynny mewn perthynas â phobl ddim yn gwerthfawrogi bwyd cymaint ag y buont.

The Green Paper will outline some of our early ideas for how legislation could be used to tackle some of the main health challenges that we face.

Bydd y Papur Gwyrdd yn amlinellu rhai o'n syniadau cynnar ar gyfer sut y gallai deddfwriaeth gael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau iechyd sy'n ein hwynebu.

16:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You raise the point about food being too cheap, but is there not also an argument for educating people about sell-by dates, and for the food industry to be more careful in the use of sell-by dates, because a large amount of perfectly edible quality food is thrown away as waste to landfill?

Rydych yn codi pwynt bod bwyd yn rhy rhad, ond onid oes dadl hefyd ar gyfer addysgu pobl am ddyddiadau "gwerthu erbyn", ac i'r diwydiant bwyd fod yn fwy gofalus yn y defnydd o ddyddiadau "gwerthu erbyn", gan fod llawer iawn o fwyd o ansawdd bwytadwy perffaith yn cael ei daflu fel gwastraff i safleoedd tirlenwi?

16:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a very good point; sell-by dates do not always mean when you can eat it by, and there needs to be much clearer information relation to that point.

Mae hwnnw'n bwynt da iawn; nid yw dyddiadau "gwerthu erbyn" bob amser yn golygu erbyn pryd y gallwch ei fwyta, ac mae angen gwybodaeth lawer cliriach mewn perthynas â'r pwynt hwnnw.

Several Members raised the issue of a valuation of our current programmes, and it is an important aspect. For instance, the national exercise referral programme is externally evaluated by university research departments and the findings were very important in influencing the roll-out of that. Looking at the costs of Change4Life and Be Food Smart; my budget for Be Food Smart is £55,000, which I believe represents very good value for money. Considering the small budgets of Be Food Smart and Change4Life, the programme has performed very well.

Cododd sawl Aelod y mater o werthuso ein rhaglenni cyfredol, ac mae'n agwedd bwysig. Er enghraifft, mae'r rhaglen genedlaethol atgyfeirio i wneud ymarfer corff yn cael ei gwerthuso'n allanol gan adrannau ymchwil prifysgolion ac roedd y canfyddiadau'n bwysig iawn wrth ddylanwadu ar y broses o gyflwyno'r hynny. Gan edrych ar gostau Change4Life a Bwyta'n Gall; fy nghyllideb ar gyfer Bwyta'n Gall yw £55,000, sydd, rwy'n credu, yn cynrychioli gwerth da iawn am arian. O ystyried cyllidebau bach Bwyta'n Gall a Change4Life, mae'r rhaglen wedi perfformio'n dda iawn.

Andrew R.T. Davies mentioned a cross-government approach, and I can assure him that this has that approach. I have had several discussions with my colleague, Huw Lewis. Only last week, we met with Sport Wales to discuss how we increase the levels of physical activity, particularly among our young people. Obviously, the Minister for education and I have discussions on school meals, which I will turn to now.

Soniodd Andrew R.T. Davies am ddull traws-lywodraeth, a gallaf ei sicrhau bod hwn yn cynnwys y dull hwnnw. Rwyf wedi cael sawl trafodaeth gyda fy nghydweithiwr, Huw Lewis. Dim ond yr wythnos diwethaf, cawsom gyfarfod gyda Chwaraeon Cymru i drafod sut y gallwn gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, yn enwedig ymhlith ein pobl ifanc. Yn amlwg, mae'r Gweinidog addysg a finnau'n cael trafodaethau ar brydau ysgol, y byddaf yn troi atynt yn awr.

Peter Black and Ken Skates referred to school meals. Work is under way, with the education department, because it has the lead on this. On 31 January—just last week—we launched a 12-week consultation seeking views on proposed regulations in respect of school meals around 'Appetite for Life'. Ken Skates referred to the all-Wales hospital menu that I launched last week, and I am extremely keen to bring this forward. It could be something that we could look at for schools, but I will have to have discussions with the Minister for education to see if we could transfer that from hospitals to the education sector. Leighton Andrews and I participated in a radio programme—I think that it goes out this weekend—where some young children cooked for us. The young boy who was involved was extremely passionate about food; he was about 10 years old and he has taken over the family cooking. I think that he was one of about five or six children and he was telling his mother what she needed to buy so that he could cook the meals.

Cyfeiriodd Peter Black a Ken Skates at brydau ysgol. Mae gwaith ar y gweill, gyda'r adran addysg, oherwydd mai hi sy'n arwain ar hyn. Ar 31 Ionawr—yr wythnos diwethaf—lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos gennym yn ceisio barn ar reoliadau arfaethedig mewn perthynas â phrydau ysgol yn ymwneud â 'Blas am Oes'. Cyfeiriodd Ken Skates at y fwydlen ysbytai Cymru gyfan a lansiwyd gennyf yr wythnos diwethaf, ac rwy'n awyddus iawn i ddatblygu hon. Gallai fod yn rhywbeth y gallem edrych arno gyfer ysgolion, ond bydd yn rhaid i mi gael trafodaethau gyda'r Gweinidog addysg i weld a allem drosglwyddo hynny o ysbytai i'r sector addysg. Cymerodd Leighton Andrews a fi ran mewn rhaglen radio—credaf ei bod yn cael ei darlledu'r penwythnos hwn—lle'r oedd rhai plant ifanc yn coginio i ni. Roedd y bachgen ifanc oedd yn ymwneud â hyn yn hynod o frwdfrydig am fwyd, ac yr oedd tua 10 mlwydd oed ac mae wedi cymryd cyfrifoldeb am y coginio i'r teulu cyfan. Rwy'n credu ei fod yn un o tua phump neu chwech o blant ac roedd yn dweud wrth ei fam beth oedd angen iddi ei brynu fel y gallai coginio'r prydau bwyd.

Turning to the amendments tabled, I support 1, 2, 3, 5 and 6, which address the link between deprivation, ill health, poor diet and obesity. I oppose amendment 4, which calls for a food security plan, as the Welsh Government is already fully engaged in the global food security programme, both as a partner and a contributor. In relation to 'Appetite for Life', I oppose amendment 7, but support amendment 8 because, as previously mentioned, the consultation is under way and new mandatory standards will be brought in later this year. I thank Members for their contributions.

Gan droi at y gwelliannau a gyflwynwyd, rwy'n cefnogi 1, 2, 3, 5 a 6, sy'n mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd, iechyd gwael, diet gwael a gordewdra. Rwy'n gwrthwynebu gwelliant 4, sy'n galw am gynllun diogelwch bwyd, gan fod Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen diogelwch bwyd byd-eang, fel partner a chyfrannwr. Mewn perthynas â 'Blas am Oes', rwy'n gwrthwynebu gwelliant 7, ond yn cefnogi gwelliant 8 oherwydd, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo a bydd safonau gorfodol newydd yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach eleni. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau.

16:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 agreed.*

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are, therefore all further voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn symud i'r cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5159

Result of the vote on amendment 2 to NDM5159

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 40, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5159

Result of the vote on amendment 3 to NDM5159

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5159

Result of the vote on amendment 4 to NDM5159

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5159

Result of the vote on amendment 5 to NDM5159

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 42, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5159

Result of the vote on amendment 6 to NDM5159

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 42, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i NDM5159

Result of the vote on amendment 7 to NDM5159

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 34, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i NDM5159

Result of the vote on amendment 8 to NDM5159

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5159 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5159 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu bod pump o'r 10 ardal awdurdod lleol â'r lefelau isaf o iechyd 'da' yng Nghymru a Lloegr i'w cael yng Nghymoedd De Cymru, ac yn credu y bydd rhagor o ymwybyddiaeth am fwyta'n iachach yn helpu i wella hyn.

1. Regrets that out of the 10 local authority areas with the lowest levels of 'good' health in England and Wales, five are in the South Wales Valleys and believes that greater awareness about healthier eating will help to improve this.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Bwyta'n Gall' fel rhan o ymgyrch farchnata gymdeithasol Newid am Oes i annog teuluoedd yng Nghymru i ddewis a choginio prydau bwyd sy'n isel mewn braster, siwgr a halen ac yn cynnwys mwy o ffrwythau a llysiau.

2. Notes that the Welsh Government launched 'Food Smart' as part of its Change4Life social marketing campaign to encourage families in Wales to choose and cook meals which are lower in fat, sugar and salt and include more fruit and vegetables.

3. Yn nodi bod llawer o deuluoedd nad ydynt yn gallu cael gafael ar ystod lawn o fwydydd iach ac yn gresynu bod nifer cynyddol yn ddibynnol ar fanciau bwyd.

3. Notes that many families are excluded from access to a full range of healthy food and regrets that an increasing number are reliant on food banks.

4. Yn cydnabod bod gan yr ymgyrch rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o amrywiaeth o fentrau cydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, y GIG a phartneriaid eraill i gyfrannu at leihau lefelau afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru.

4. Recognises that the campaign plays an important role as part of a co-ordinated range of initiatives from the Welsh Government, the NHS and other partners in contributing to decreasing levels of diet-related ill health in Wales.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a deiet gwael fel rhan o'i hymgyrch.

5. Calls on the Welsh Government to address the link between poverty and poor diet as part of its campaign.

6. Yn gresynu bod deiet gwael wedi cyfrannu at y ffaith bod 57% o oedolion a 35% o blant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew.

6. Regrets that a poor diet has contributed to 57% of adults and 35% of children in Wales being overweight or obese.

7. Yn gresynu bod pump awdurdod lleol yng Nghymru ymysg y deg awdurdod 'lleiaf iach' yn y Deyrnas Unedig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r heriau deietegol yn yr ardaloedd hyn.

7. Regrets that five Welsh local authorities are amongst the ten 'least healthy' local authorities in the United Kingdom and calls on the Welsh Government to take focused action to address the dietary challenges in these areas.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ategu'r ymgyrch hon drwy sicrhau bod plant yn cael dewis o fwydydd iach yn yr ysgol gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi o dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009.

8. Calls on the Welsh Government to supplement this campaign by ensuring that children have a choice of healthy eating options at schools using powers available to it under the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5159 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5159 as amended

*Derbyniwyd y cynnig NDM5159 fel y'i diwygiwyd: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5159 as amended agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

16:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's proceedings. Thank you.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben. Diolch yn fawr.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.51 p.m.*

*The meeting ended at 4.51 p.m.*